Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Y wybodaeth ddiweddaraf am Berfformiad y Cynllun Corfforaethol: Gorffennaf - Medi 2023

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno perfformiad y Cyngor yn erbyn themâu ei Gynllun Corfforaethol a meysydd llywodraethu rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023, yn cynnwys ein defnydd o'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Cynnwys

Cynnwys ........................................................ 2

Manylion Cyswllt a Gwybodaeth Bellach ........................................................ 3

Crynodeb o'r sefyllfa ........................................................ 4

Nodyn ynglŷn â Mesur Perfformiad ........................................................ 9

Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl ........................................................ 10

Sir Ddinbych ffyniannus ........................................................ 22

Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus ........................................................ 34

Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu ........................................................ 46

Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well ........................................................ 60

Sir Ddinbych mwy gwyrdd ........................................................ 69

Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal ........................................................ 79

Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ........................................................ 91

Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad ........................................................ 103

# Manylion Cyswllt a Gwybodaeth Bellach

Am fwy o wybodaeth, neu i roi eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni:

**Drwy e-bost:** timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01824 706291

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

**Drwy'r post:**

Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad,
Cyngor Sir Ddinbych,
Blwch Post 62,
Rhuthun,
LL15 9AZ

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a geir yn Gymraeg.

## I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Dilynwch ni ar Twitter

Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i Borth Sgwrs y Sir a chofrestrwch ar gyfer *Y Panel!*

Tanysgrifiwch i Newyddlen Llais y Sir

## Crynodeb o’r sefyllfa

Mae’r penodau isod yn rhoi crynodeb o'r gweithgarwch sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod diwethaf o dan themâu ein Cynllun Corfforaethol, gyda chrynodeb o newyddion cyfrannol ac eitemau pwyllgor.   Bydd agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach a bylchau i’w llenwi; bydd rhai o’r rhain yn cael eu cadarnhau mewn adroddiadau dilynol, mae eraill yn fwy cymhleth ac angen rhagor o  waith cwmpasu - ac yn aml yn rhan o gynlluniau gwaith i’r dyfodol ar gyfer y Byrddau Cynllun Corfforaethol newydd.  Mae modd canfod sylwadau manwl am ein mesurau blynyddol sydd wedi’u hadrodd eisoes yn ein hadroddiadau diweddaru hunanasesiad o berfformiad o fis Ionawr i fis Mawrth a mis Ebrill i fis Mehefin 2023 i 2024

### Crynodeb o themâu'r Cynllun Corfforaethol

Arfarnwyd y llinyn mesur ar gyfer pob thema isod yn unol â’r fframwaith rheoli perfformiad yr ydym wedi’i sefydlu.  Arfarnwyd y prosiectau ar sail statws ein prosiectau.

**Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl**

Llinynnau mesur:     Derbyniol
Prosiectau:     Profi Rhwystrau

Mae ein thema Tai yn parhau i ddangos cynnydd cadarnhaol mewn perthynas â phrosiectau sy’n cefnogi’r thema.  Fel yr adroddwyd yn flaenorol, rydym yn ymwybodol ac eisoes yn ymateb i fynd i’r afael â gwendidau yn ein perfformiad, yn arbennig mewn perthynas â digartrefedd ble nad yw canlyniadau i’n cymunedau mor gadarnhaol ag yr ydym yn dymuno ac yn dyheu iddynt fod.   Rydym yn dechrau gweld mwy o bobl yn cael eu cefnogi gan Fy Nghartref Sir Ddinbych (gwasanaeth ymyrraeth gynnar digartrefedd), gyda chyfran uwch o’r rhai sy’n derbyn cefnogaeth ddim angen eu hatgyfeirio at y gwasanaeth atal digartrefedd.   Mae prosiect effeithlonrwydd ynni tai Cyngor ‘Mewn Perygl’, o ganlyniad i sawl ffactor.  Mae prosiectau tai fforddiadwy a thai gofal ychwanegol yn parhau ac ‘Ar y Trywydd Iawn’ ac mae nifer yr unigolion ar restr aros Un Llwybr Mynediad at Dai  (ULIMaD), er bod hyn yn peri pryder, yn dangos rhywfaint o welliant gyda llai o bobl ar y rhestr aros yn ystod y cyfnod.

**Sir Ddinbych ffyniannus**

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

Mae prosiectau sydd wedi'u hariannu gan Ffyniant Bro a Ffyniant a Rennir yn mynd rhagddynt i gefnogi ein thema Sir Ddinbych Ffyniannus. Ond rydym yn wynebu rhai heriau o ran prosiect Hen Ysbyty Gogledd Cymru, wrth aros am gytundeb adran 106 a chyllid. Mae rhai o'n prosiectau yn y Rhyl hefyd yn profi oedi (Adeilad y Frenhines) neu ddiffyg cyllid (prosiect i ailgysylltu Stryd Fawr y Rhyl gyda'r traeth). Y gobaith yw y bydd Rhanbarthau Gwella Busnes y Rhyl, yn cyfrannu ymhellach at adfywio'r dref. Mae'r ffigurau twristiaeth diweddaraf yn dangos rhywfaint o welliant sylweddol o ran nifer yr ymwelwyr ac effaith economaidd twristiaeth. Ond, mae rhai o'r llinynnau mesur allweddol (o ran incwm a chyflogaeth) ar gyfer y thema yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Y gobaith yw y bydd y strategaeth economaidd newydd ar gyfer Sir Ddinbych, yn annog newid cadarnhaol ar gyfer busnesau, ein heconomi a phreswylwyr, bydd y strategaeth yn cael ei datblygu gyda chefnogaeth gan Swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus**

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

O safbwynt Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus, mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at ganfyddiadau Adroddiad Blynyddol Drafft Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n nodi bod y galw ar wasanaethau gofal cymdeithasol wedi cynyddu, ac nad yw perfformiad wedi gwella gymaint ag y dymunodd y gwasanaethau, oherwydd heriau cenedlaethol a chyfyngiadau cyllidebol. Rydym yn pryderu am y cynnydd yn yr atgyfeiriadau a wnaed o dan Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru (honiadau am ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi cyfrifol). Ond, mae'r adroddiad diogelu wedi tynnu sylw at y lefelau uchel o ymholiadau diogelu a gwblhawyd ar gyfer oedolion o fewn 7 diwrnod. Mae ymgorffori 'Ymagwedd Ysgol Gyfan' ar gyfer iechyd meddwl a lles yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Er bod y ffigur yn is yn y cyfnod hwn o gymharu â'r cyfnod blaenorol, mae dosbarthu offer arbenigol a allai alluogi gofal unigol yn golygu bod rhai unigolion yn awr yn derbyn gofal unigol llawn neu'n rhannol, gydag arbedion o ran costau posibl o £1,500 yr wythnos.

**Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu**

Llinynnau mesur: Derbyniol
Prosiectau: Profi Rhwystrau

Mae llinynnau mesur cyrhaeddiad i gefnogi ein thema Dysgu a Thyfu yn parhau i gael eu cadarnhau wrth i ni aros i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cyfresi data craidd cymharol o ran safonau ysgolion. Mae'r Rhaglen Moderneiddio Addysg yn parhau i wynebu oedi am sawl rheswm, ond yn benodol oherwydd materion gyda dichonoldeb y safleoedd a ffefrir. Mae cefnogaeth Blynyddoedd Cynnar, Llwybrau a Sir Ddinbych yn Gweithio yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol gydag unigolion yn derbyn cefnogaeth gofal plant a magu plant, profiad gwaith a gwirfoddoli, a chefnogaeth i dderbyn cyflogaeth. Mae angen i ni barhau i weithio gydag ysgolion mewn perthynas â gweithgareddau yn canolbwyntio ar y gymuned.

**Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well**

Llinynnau mesur: Derbyniol
Prosiectau: Profi Rhwystrau

I gefnogi Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well rydym wedi cwblhau ein rhaglen gwella arwyneb ffyrdd ar nifer o ffyrdd blaenoriaeth uchel ac mae ein Rhaglen Gosod Wyneb Newydd blynyddol - ar nifer o ffyrdd ar draws y sir lle bo eu cyfnod oes wedi dod i ben - yn parhau. Mae canran y ffyrdd a phalmentydd a ddifrodwyd a wnaed yn ddiogel o fewn y cyfnod targed (CAT1 – Diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn y terfynau amser) yn parhau i fod yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Mae trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid i ddarparu'r dewis mwyaf hyfyw ar gyfer disodli Pont Llannerch. Rydym hefyd wedi bod yn paratoi ar gyfer y terfyn cyflymder 20mya sy'n dod i rym o 17 Medi. Bydd Prosiectau Cronfa Ffyniant Bro yn cefnogi'r thema hon o ran gwefru cerbydau trydan, y parth cyhoeddus, teithio llesol, a buddsoddi mewn cyfleusterau canolbwynt cymunedol gyda dyddiad cyflawni disgwyliedig o fis Mawrth 2025.

**Sir Ddinbych mwy gwyrdd**

Llinynnau mesur: Derbyniol
Prosiectau: Profi Rhwystrau

Mae sicrhau ein bod fel sefydliad yn cyflawni ein hymrwymiad di-garbon net erbyn 2030 yn parhau i fod yn her ac ni fydd yn hawdd ei gyflawni. Mae bod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030 yn edrych yn fwy addawol. Mae gennym drefniadau llywodraethu cadarn ar waith i brofi ein cynnydd a'r cynlluniau sydd gennym ar waith. Cynhelir yr

adnewyddiad a'r adolygiad swyddogol cyntaf o'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol eleni, 2023-2024. Ni fydd y gwaith o gyflwyno'r strategaeth yn cael ei atal tra cynhelir yr adolygiad hwn; mae'r gwaith yn parhau ochr yn ochr â'r adolygiad i gyflawni Cyngor Ecolegol Gadarnhaol a Di-garbon Net a lleihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi. Mae data ar gyfer lleihau tunelli carbon o'n cadwyni cyflenwi yn aros ar hyn o bryd (fel yn y blynyddoedd blaenorol), wrth i ni ailymweld â'r dull o gasglu data.

**Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal**

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer Gwella
Prosiectau: Profi Rhwystrau

Mae ein dyfarniad cyffredinol ar gyfer llinynnau mesur y thema Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal yn adlewyrchu'r ffaith bod y rhan fwyaf o linynnau mesur hanfodol y thema hon wedi'u nodi fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' ac wedi bod felly ers peth amser. Mae'r rhwystrau a'r heriau mewn perthynas â thlodi yn rhai parhaol mewn rhai achosion. Ond mae darpariaeth Prydau Ysgol am Ddim yn parhau i ehangu, a'r gobaith yw y bydd hyn yn lliniaru rhywfaint o effaith tlodi ar blant. Mae nifer dioddefwyr cam-drin domestig dro ar ôl tro wedi cynyddu, a nifer y troseddwyr cam-drin domestig dro ar ôl tro. Mae'r cynnydd sylweddol mewn nifer hefyd i'w weld yng ngweddill Gogledd Cymru. Mae angen rhagor o waith i ddeall y cynnydd sylweddol, ond mae'n debygol o adlewyrchu gwelliannau mewn safonau cofnodi. Mae nifer y staff sydd wedi cwblhau modiwlau e-ddysgu yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwelliant'; ond, mae rhai modiwlau yn fwy perthnasol i rolau penodol nag eraill.

**Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

Llinynnau mesur: Derbyniol
Prosiectau: Profi Rhwystrau

O ran ein thema diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu , mae'r gostyngiad yn nifer y dysgwyr sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ym mis Medi 2020 yn golygu bod ein targedau uchelgeisiol yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn bellgyrhaeddol. Mae cefnogaeth a buddsoddiad yn eu lle i gyflawni'r CSCA, yn cael ei ategu gan Strategaeth y Gymraeg. Mae gweithdy'n cael ei drefnu ar gyfer yr holl aelodau etholedig i'w briffio ar yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir. Mae ein haddewid i 'Ddatblygu strategaeth ddiwylliannol a threftadaeth a rhaglen o ddigwyddiadau' yn parhau i aros. Er hyn, mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi a hyrwyddo ystod eang o brosiectau a digwyddiadau diwylliannol.

**Cyngor sy’n cael ei gynnal yn dda, ac sy’n uchel ei berfformiad**

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

Bydd Bwrdd newydd Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy’n uchel ei berfformiad, a fydd yn goruchwylio’r thema hon, yn cael ei sefydlu ym mis Hydref 2023. Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, roedd y Bwrdd wedi cwrdd a chytuno ar ffordd ymlaen i symud ymlaen â phum addewid y thema, sydd wedi’u halinio gyda phum egwyddor y Cyngor. Gofynnwyd am rai newidiadau i addewidion y thema hon, sy’n cynnig estyniad ac eglurhad ar gyfer pob addewid. Byddwn yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y newidiadau hyn gan y Cyngor Sir fel rhan o’n Hadroddiad Hunanasesu ar gyfer y flwyddyn yng ngwanwyn 2024.

Mae’r saith maes llywodraethu allweddol yn ein hunanasesiad yn rhoi darlun cadarnhaol ar y cyfan o ba mor dda mae’r Cyngor yn perfformio. Rydym hefyd wedi darparu’r wybodaeth ddiweddaraf ar y bylchau cyllid sylweddol y mae’r Cyngor yn eu hwynebu. Mae Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Chabinet y Cyngor yn gweithio’n agos i gyflwyno cyllideb gytbwys er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn sefydlog o safbwynt ariannol yn awr ac yn y dyfodol.

## Nodyn ynglŷn â Mesur Perfformiad

Yn Sir Ddinbych, ein dull arferol o bennu trothwyon perfformiad yw cymryd y chwartel uchaf (y perfformwyr gorau) o’r wybodaeth gymharol yn genedlaethol a gosod hwnnw fel y trothwy lle caiff perfformiad ei ystyried yn ‘Rhagorol’. Y canolrif yw’r trothwy ‘Blaenoriaeth ar gyfer Gwella’ fel arfer. Y man yn y canol rhwng y gwerthoedd hynny yw’r trothwy rhwng perfformiad ‘Derbyniol’ a ‘Da’.

Os nad oes data ar gael i ni allu cymharu ein hunain ag eraill (naill ai’n genedlaethol neu â grwpiau cymharol) yna byddwn yn cymryd safbwynt lleol ar yr hyn yr ystyriwn sy’n berfformiad ‘Rhagorol’ ac yn ‘Flaenoriaeth ar gyfer Gwella’. Dylai hyn adlewyrchu ein huchelgeisiau.

Mae ein tablau data yn defnyddio’r un iaith, ac eithrio ‘Blaenoriaeth ar gyfer Gwella’, sydd wedi’i fyrhau fel ‘Blaenoriaeth i Wella’. Mae ein tablau data hefyd yn dangos gwybodaeth ynglŷn â thueddiadau. Caiff tueddiad ei nodi fel ‘Gwell’, ‘Gwaeth’ neu ‘Yr un fath’, ac mae’n seiliedig ar gymhariaeth gyda’r data sydd gennym ar gyfer y cyfnod blaenorol. Ble bo’n bosibl, rydym hefyd yn dangos tueddiad ar gyfer prosiectau a gweithgareddau, a bennir trwy gymharu statws cyffredinol y prosiect neu weithgaredd â’i statws yn y cyfnod blaenorol. Caiff statws prosiectau a gweithgareddau eu nodi fel ‘Ar y Trywydd Iawn’, ‘Profi Rhwystrau’, ‘Mewn Perygl’ neu ‘Dan Fygythiad’.

I gael gwybod mwy am sut rydym yn rheoli perfformiad, gweler y Canllaw i Reoli Perfformiad ar ein gwefan.

## Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

### Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Corfforaethol

**Sicrhau bod tai o ansawdd ar gael sy'n diwallu anghenion pobl ddiamddiffyn, a'u helpu i fyw bywydau annibynnol mewn llety priodol am gyn hired â phosibl.**

Mae cyflawni Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Tai a Digartrefedd yn rhaglen o waith pwysig ar gyfer y Cyngor ac yn un sy'n integreiddio gyda nifer o gamau gweithredu ar draws sawl gwasanaeth. Mae'r prosiect yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn yr amcanion ac 'Ar y Trywydd Iawn'. Ym mis Medi, adolygodd Pwyllgor Craffu Perfformiad y Strategaeth Tai a Digartrefedd, gan nodi'r cynnydd. Bydd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu yn destun craffu eto mewn 12 mis.

Mae prosiect Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun yn parhau i fod 'Ar y Trywydd Iawn' a bydd yn cyfrannu tuag at ddiwallu anghenion tai arbenigol pobl ddiamddiffyn yn Sir Ddinbych. Mae prosiect Gofal Ychwanegol Corwen yn y cam achos busnes a bydd yn gwella'r ddarpariaeth ymhellach.

**Atal digartrefedd, a sicrhau bod unrhyw achosion o ddigartrefedd yn brin, byr ac na chaiff ei ailadrodd**

Mae atal digartrefedd yn flaenoriaeth i'r Cyngor, ac mae nifer o linynnau mesur wedi dechrau cael eu monitro er mwyn llywio'r maes gwasanaeth hwn. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) digartrefedd o 43 ddiwedd mis Mehefin, i 64 erbyn diwedd mis Medi. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd cynnydd hefyd o 69.77% i 92.18% yng nghanran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Gynnar ac Atal a gafodd eu hatal rhag defnyddio'r gwasanaeth atal digartrefedd. Mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau ymgysylltiad cynnar â phobl mewn perygl o ddigartrefedd, a gallwn adrodd bod 39 o unigolion wedi cael eu cefnogi gan swyddog cyswllt o Dîm Atal Digartrefedd Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych erbyn diwedd mis Medi.

Bydd y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal, gan weithio mewn cydweithrediad â phartneriaid megis Byddin yr Iachawdwriaeth.  Mae prosiect i leihau dibyniaeth ar lety dros dro anaddas drwy sefydlu mwy o gyfleusterau tai brys mewnol ar gyfer dinasyddion digartref yn mynd rhagddo gyda chynlluniau ar waith i asesu addasrwydd safleoedd eraill.

Ym mis Awst, ar ôl gwrando ar adborth y cyhoedd, adroddwyd nad yw'r cynlluniau i greu llety digartref dros dro ym Maes Emlyn yn y Rhyl am barhau.  Mae'r Cyngor yn awr yn bwriadu ailddatblygu'r safle i gyflawni nod hirdymor o ddarparu mwy o dai cymdeithasol i ddiwallu'r galw.   Mae hyn yn dystiolaeth o ymrwymiad y Cyngor i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.  Drwy sicrhau bod dinasyddion yn ymwneud â gwneud penderfyniadau, mae'r Cyngor yn gobeithio meithrin perthnasoedd da hirdymor, atal problemau yn y dyfodol a  darparu ar gyfer y rhai dan anfantais economaidd-gymdeithasol.  Bydd ymgynghoriad cyn-cynllunio ar gyfer y datblygiad newydd yn cael ei gyhoeddi a bydd cyfle arall i breswylwyr gyfranogi a rhannu eu safbwyntiau ar y cynlluniau newydd.

### Uwchraddio stoc tai'r Cyngor

Ers y cyfnod adrodd diwethaf, mae un prosiect yn parhau 'Mewn Perygl', sef gwella effeithlonrwydd ynni tai Cyngor.  Credir y bydd y Safon Ansawdd Tai Cymru newydd sydd i'w weithredu'n fuan yn creu pwysau ariannol ychwanegol ar y gwasanaeth gan y bydd angen mesurau newydd i gydymffurfio â'r safon newydd.  Mae costau chwyddiant a diffyg gweithwyr cymwys yn y sector hefyd yn cyfrannu at statws y prosiect.  Fodd bynnag, mae cynnydd wedi'i wneud o ystyried bod sgôr cyfartalog y Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) yn parhau i gynyddu ar draws stoc tai'r Cyngor.

Ym mis Gorffennaf, nodwyd bod prosiect i wella effeithlonrwydd ynni Fflatiau Cyngor Aberadda yn Llangollen yn agos at eu cwblhau.  Mae Tai Sir Ddinbych wedi disodli'r to, gwella insiwleiddio a chynyddu effeithlonrwydd ynni'r adeilad.  Mae prosiectau tebyg wedi'u cynllunio ar draws Sir Ddinbych yn y dyfodol agos.

Ynghyd ag addo i uwchraddio effeithlonrwydd ynni tai Cyngor, mae gan y Cyngor ddyletswydd i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw, yn ddiogel ac yn addas at anghenion y preswylwyr.  Mae canran yr atgyweiriadau tai brys sydd wedi'u cwblhau o fewn y targed yn ystod y cyfnod wedi aros ar gyfradd 'Dderbyniol' o 96.90%.  Hefyd, mae 56 o addasiadau i bobl anabl wedi'u cyflawni ar gyfer tenantiaid tai Cyngor rhwng mis Gorffennaf a mis Medi.

Bu adolygiad o rai trothwyon perfformiad a oedd angen eu diweddaru o dan y thema hon. Mae'r rhain yn ymwneud ag Arolwg Tenantiaid Tai Sir Ddinbych, sy'n cael ei lansio bob dwy flynedd i hysbysu darpariaeth gwasanaeth.

### Cyfeirio trigolion at gyfleoedd i wella effeithlonrwydd eu cartrefi

Mae darlun cliriach o sut y gellir cefnogi pobl i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi yn dod i'r amlwg wrth ddechrau monitro llinynnau mesur newydd. Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023, gwyddom fod 143 o aelwydydd wedi'u cyfeirio a'u helpu trwy'r cynllun ECO4 - cynllun gan y Llywodraeth i ddarparu cyllid i berchnogion tai cymwys wneud gwelliannau ynni-effeithlon i'w cartrefi. Cyrhaeddodd nifer yr ymweliadau i'n tudalennau effeithlonrwydd ynni ar ein gwefan 357 hyd at fis Medi. Mae'r nifer yn debygol o fod yn uwch gan mai dim ond ymweliadau lle bo'r cwcis pori wedi'u derbyn y gellir eu cofnodi. Mae trafodaethau ar y gweill i oresgyn materion capasiti yn ymwneud â hyrwyddo'r dudalen effeithlonrwydd ynni ar ein gwefan drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Rydym 'Ar y trywydd iawn' i gyfeirio preswylwyr at gynllun Nyth Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogaeth gydag effeithlonrwydd ynni, gydag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth wedi'i gwblhau a chynllun anfon drwy'r post wedi'i drefnu ar gyfer y misoedd nesaf.

### Darparu mwy o gartrefi i ddiwallu'r angen a'r galw lleol

Roedd sawl prosiect sy'n ceisio darparu mwy o dai fforddiadwy, arbenigol a thai Cyngor 'Ar y Trywydd Iawn'. Mae hyn yn cynnwys y prosiect i ddarparu tai fforddiadwy yn Stryd Edward Henry a Phrosiect Datblygiadau Tai Cyngor Ychwanegol, sydd wedi gwella hyder mewn darpariaeth.

Mae gweithgaredd i 'Weithio gyda Bwrdd Rhaglen Adfywio'r Rhyl i gyfrannu at Strategaeth Breswyl y Rhyl' wedi'i ailenwi'n 'Bwrw Ymlaen â Strategaeth Breswyl y Rhyl'. Mae'r prosiect yn aros i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllaw er mwyn gallu cwblhau Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, ac felly mae'n parhau i 'Brofi Rhwystrau'.

Mae canran yr eiddo preifat gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd drwy gamau uniongyrchol gan y Cyngor wedi cynyddu o 2% yn ystod y chwarter diwethaf i 7% ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023, ac mae'r perfformiad nawr yn 'Rhagorol'.

Hefyd yn ystod y cyfnod, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus o ran a ddylid cynyddu premiwm treth y Cyngor a godir ar eiddo gwag hirdymor ac ailgartrefi, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion i godi tâl ychwanegol. Mae'r cynigion yn alinio ag

amcanion hirdymor y Cyngor i annog perchnogion tai i beidio â gadael eu heiddo'n wag a'u dod yn ôl i ddefnydd i ddiwallu anghenion a galw lleol.  Ym mis Gorffennaf, cyfarfu'r Cabinet i drafod canfyddiadau'r ymgynghoriad ac ystyried cynigion premiwm treth y Cyngor ar gyfer y cartrefi hyn, gan gytuno i symud ymlaen â'r mater drwy geisio cymeradwyaeth y Cyngor Sir.  Ym mis Medi, trafododd y Cyngor Sir y cynigion i gynyddu premiwm treth y Cyngor a thrwy bleidlais fwyafrifol, cytunwyd y dylid derbyn yr argymhellion, gydag un diwygiad ychwanegol.  Yr argymhelliad oedd i gadw'r premiwm ar 50% ar gyfer mis Ebrill 2023, ac yna cynyddu'r premiwm i 100% ym mis Ebrill 2024 ac i 150% ym mis Ebrill 2025.  Hefyd bod eiddo sydd heb eu meddiannu na'u dodrefnu ers 5 mlynedd neu fwy yn talu premiwm uwch o 50% yn fwy na'r premiwm safonol a bod y premiwm ar ail gartrefi safonol a'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor yr un fath, er mwyn lleihau nifer yr achosion o  drethdalwyr yn  osgoi talu.  Yr argymhelliad ychwanegol oedd bod unrhyw gyllid ychwanegol sy'n cael ei gynhyrchu yn sgil y cynigion yn cael ei ddyrannu i'w ddefnyddio gan gymunedau lleol ac i fynd i'r afael â digartrefedd.

**Sicrhau bod ein trigolion yn cael gwybod am yr opsiynau a'r llwybrau tai sydd ar gael, yn ogystal â cheisio lleihau rhestr aros Un Llwybr Mynediad at Dai.**

Mae datblygu fframwaith cyfranogiad tenantiaid ar gyfer Tai Sir Ddinbych 'Ar y Trywydd Iawn' gyda chynllun ar waith i hysbysu tenantiaid am faterion tai a chyflwyno ystod o weithgareddau.

Ar ddiwedd mis Medi 2023, roedd yna 1,760 o bobl ar y rhestr aros Un Llwybr Mynediad at Dai (ULIMaD).  Nid yw'r ffigur wedi cyrraedd trothwy 'Derbyniol' eto; fodd bynnag, mae'n adlewyrchu cynnydd da o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol (2,190).

Mae'r prosiect i ddod â system ULIMaD Sir Ddinbych yn fewnol wedi'i gwblhau yn awr. Mae'r system fewnol wedi bod yn weithredol ers pum mis ac yn y cyfnod hwnnw, mae sawl rhwystr wedi'u goresgyn yn llwyddiannus gan dîm y rhaglen.  Mae gweithgarwch i ddatblygu systemau perfformiad ac adrodd yn dilyn gweithrediad ULIMaD yn parhau i 'Brofi Rhwystrau'.  Mae gwaith ar y gweill yn awr gan ddisgwyl y bydd uwchraddiad system gydag adroddiad llawn ar gael erbyn diwedd Rhagfyr 2023.

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau yn ymwneud â'r gefnogaeth a gynigir i unigolion sy'n profi digartrefedd, gweler ein thema Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu ac ar gyfer cysylltiadau rhwng effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd, gweler ein thema am Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal.

### Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 | Chwarter 2 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yr atgyweiriadau tai brys a gwblhawyd o fewn yr amser targed - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 95.85% Derbyniol Gwell | 94.72% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 97.22% Derbyniol Gwell | 97.06% Derbyniol Gwaeth | 96.90% Derbyniol Gwaeth |
| Nifer yr addasiadau i bobl anabl a wnaed ar gyfer tenantiaid tai Cyngor – **Cyfrif yn Unig** | 66 | 64 | 56 | 53 | 56 |
| Nifer yr aelwydydd a dderbyniodd gymorth drwy'r cynllun ECO4 - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 85 | 143 |
| Nifer yr ymweliadau â'n tudalen effeithlonrwydd ynni ar ein gwefan - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 319 | 357 |
| Canran yr eiddo preifat gwag sy'n dod yn ôl i ddefnydd trwy weithred uniongyrchol gan yr awdurdod lleol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 8.5% Rhagorol Gwell | 6.4% Rhagorol Gwaeth | 6.1% Rhagorol Gwaeth | 2% Derbyniol Gwaeth | 7% Rhagorol Gwell |

| **Teitl** | **Chwarter 2 2022 - 2023** | **Chwarter 3 2022 - 2023** | **Chwarter 4 2022 - 2023** | **Chwarter 1 2023 - 2024** | **Chwarter 2 2023 - 2024** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl ar restr aros ULIMaD – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 2,190 Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 2,235 Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 1,734 Blaenoriaeth i Wella Gwell | 1,785 Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 1,760 Blaenoriaeth i Wella Gwell |
| Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd ar gyfer Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 80 | 43 | 64 |
| Canran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sydd wedi'u hatal rhag defnyddio'r gwasanaeth atal digartrefedd - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 89.36% Rhagorol | 69.77% Derbyniol Gwaeth | 92.18% Rhagorol Gwell |
| Canran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) ar gyfer pobl mewn cyflogaeth – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 22.5% | 13.04% | 7.81% |
| Canran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sy'n a) Rhentu'n Breifat – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 63.75% | 53.49% | 64.06% |
| Canran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sy'n b) Awdurdod Lleol – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 11.25% | 6.98% | 1.56% |

| **Teitl** | **Chwarter 2 2022 - 2023** | **Chwarter 3 2022 - 2023** | **Chwarter 4 2022 - 2023** | **Chwarter 1 2023 - 2024** | **Chwarter 2 2023 - 2024** |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sy'n c) Cymdeithas Dai – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 2.5% | 0% | 3.12% |
| Canran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sy'n d) Perchen-feddiannwr – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 5% | 4.65% | 6.25% |
| Canran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sy'n e) Anhysbys – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 17.5% | 34.88% | 25.01% |
| Nifer y bobl mewn perygl o ddigartrefedd a gefnogwyd gan y swyddog cyswllt CAD-HPT (Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych - Tîm Atal Digartrefedd) - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 28 | 39 |
| O'r bobl mewn perygl o ddigartrefedd a gefnogwyd gan y swyddog cyswllt CAD-HPT (Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych - Tîm Atal Digartrefedd), y % sydd mewn cyflogaeth - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 7% | 29% |

## Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Nifer yr anheddau sydd wedi'u gwella gyda grant cyfleusterau i'r anabl - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 106<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 66<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Nifer y bobl a oedd ar y Gofrestr Anghenion Tai Arbenigol Anableddau Cymhleth y sicrhawyd tai â chymorth ar eu cyfer - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 13<br>Rhagorol<br>Gwell | 16<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref (adran 66) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 41.97%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth | 38.35%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w rhyddhau o ddigartrefedd (adran 73) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 21.55%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth | 15.96%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Canran yr aelwydydd a ryddhawyd yn gadarnhaol o ddigartrefedd (adran 75) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 44.75%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth | 50.22%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Cyfanswm nifer y bobl sy'n gadael gofal ac yn profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014) o fewn 12 mis i adael gofal - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 9<br>Da<br>Gwell | 3<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Canran eiddo'r Cyngor sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 100%<br>Rhagorol<br>Yr un fath | 100%<br>Rhagorol<br>Yr un fath |
| Canran y tenantiaid Tai Cyngor a oedd yn fodlon gydag ansawdd eu cartref - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 84%<br>Da<br>Gwell | Dim data: nid yw'n berthnasol |
| Canran y tenantiaid a oedd yn fodlon â'r modd y mae Tai Sir Ddinbych yn ymdrin â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 77%<br>Derbyniol<br>Gwaeth | Dim data: nid yw'n berthnasol |

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran stoc dai presennol ac wedi'i gaffael gan y Cyngor sy'n cyflawni graddfa EPC (Ynni) C neu well - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 35.44% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 41.89% Derbyniol Gwell |
| Y cyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy, gan gynnwys tai cymdeithasol, a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 271 Rhagorol Gwell | 139 Rhagorol Gwaeth |
| Y cyflenwad ychwanegol o Dai Cyngor a ddarparwyd - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 13 Derbyniol Gwell | 15 Derbyniol Gwell |

## Arolwg Budd-ddeiliaid 2022 i 2023

Rydym wedi diwygio sut yr ydym yn dadansoddi ymatebion i'r Arolwg Budd-ddeiliaid i gynnwys statws ar gyfer y rhai sydd wedi mynegi safbwynt ac sy'n cytuno (yn flaenorol roeddem yn cynnwys ymatebion "Ddim yn gwybod" a "Dim barn neu'n ansicr" yn ein dadansoddiad).

| Teitl | Cytuno | Anghytuno | Dim barn neu'n ansicr | Gyda barn, a chytuno |
|---|---|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod yna ddigon o dai o ansawdd da yn Sir Ddinbych, sy'n diwallu anghenion pobl - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 31% | 47% | 22% | 40% Blaenoriaeth i Wella |

## Llinynnau Mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi'n anaml - bob pedair i bum mlynedd - gyda'r data diweddaraf sydd ar gael yn deillio o 2019. Oni bai bod data newydd yn cael ei gyhoeddi, ni fyddwn yn gwneud sylwadau ar ddata MALIC, ond byddwn yn cadw'r llinynnau mesur yn yr adroddiad hwn gan eu bod nhw'n rhoi cyd-destun pwysig ac yn helpu i lywio statws cyffredinol ein llinynnau mesur ar gyfer pob thema. Disgwylir y wybodaeth ddiweddaraf am MALIC gan Lywodraeth Cymru ddiwedd 2025 neu yn gynnar yn 2026.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Tai (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 14%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 16%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiectau

Mae 17 o brosiectau wedi'u rhestru o dan y thema hon yn y Cynllun Corfforaethol. Mae nifer y rhain sydd 'Ar y trywydd iawn' wedi cynyddu i un ar ddeg ers ein hadroddiad diwethaf. Mae un wedi'i gwblhau, tri yn 'Profi Rhwystrau', un 'Mewn Perygl', ac un yn y cam achos busnes.

### Prosiectau neu Weithgareddau

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Darparu a monitro Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Tai a Digartrefedd | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun (Cam 2) | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gofal Ychwanegol Corwen | Ar y cam achos busnes | Dim eithriad |
| Lleihau dibyniaeth ar lety dros dro anaddas drwy sefydlu mwy o gyfleusterau tai brys mewnol ar gyfer dinasyddion digartref | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Gwella Effeithlonrwydd Ynni Tai Cyngor | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Mae sgôr cyfartalog Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) yn parhau i gynyddu ar draws ein stoc o dai. Ond, disgwylir y bydd y Safon Ansawdd Tai Cymru newydd sydd i'w weithredu'n fuan yn creu pwysau ariannol ychwanegol ar y gwasanaeth gan y bydd angen mesurau newydd i gydymffurfio â'r safon newydd. Mae costau chwyddiant, cyllid cyfyngedig ar gyfer y Rhaglen ôl-osod, a diffyg gweithwyr cymwys yn y sector oll yn cyfrannu at statws 'Mewn Perygl' y prosiect. |
| Cydweithio gyda Chyngor Sir y Fflint, gan ddarparu manylion cyswllt a chyfeirio at effeithlonrwydd ynni cartrefi ar ein gwefan | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Hyrwyddo'r dudalen Effeithlonrwydd Ynni ar ein gwefan trwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol | Profi Rhwystrau<br>Gwaeth | Mae trafodaethau ar y gweill i sefydlu pa dimau sydd fwyaf addas ac sydd â chapasiti i ddarparu'r gweithgaredd hwn. |
| Cyfeirio at gynllun NYTH Llywodraeth Cymru drwy'r post | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) | Ar y trywydd iawn<br>Gwell | Dim eithriad |
| Cynllun Datblygu Lleol newydd Sir Ddinbych | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Stryd Edward Henry | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Datblygu Tai Cyngor Ychwanegol | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Archwilio sut y gallwn ddiogelu tai drwy ddeddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru i reoli effaith ail gartrefi | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Bwrw ymlaen â Strategaeth Breswyl y Rhyl | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae'r tîm yn dal i aros i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 diwygiedig, er mwyn gallu cwblhau'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd. Disgwylir y bydd TAN15 yn cael ei gyhoeddi ddiwedd 2023 neu yn gynnar yn 2024. |
| Datblygu systemau perfformiad ac adrodd yn dilyn cyflwyno'r ULIMaD a'r gwasanaeth brysbennu Un Pwynt Mynediad presennol er mwyn deall mwy ar ddinasyddion sy'n cyrchu gwybodaeth am dai ac ULIMaD. | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae problemau ar y system wedi parhau ac nid oedd adroddiadau llawn ar gael. Nid yw unigolion wedi'u heffeithio gan fod y tîm wedi defnyddio prosesau papur ac maent wedi cysylltu'n rheolaidd â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae gwaith ar y gweill yn awr gyda'r nod o gwblhau'r uwchraddiad system gydag adroddiadau llawn ar gael erbyn diwedd Rhagfyr 2023. |
| Datblygu fframwaith cyfranogiad tenantiaid ar gyfer Tai Sir Ddinbych | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| ULIMaD: Ei gwneud yn broses fewnol | Wedi'i gwblhau | Gan fod hyn yn weithredol ers pum mis yn awr gyda mwyafrif y materion wedi'u datrys, mae'r prosiect wedi'i gwblhau yn awr. |

## Sir Ddinbych ffyniannus

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

### Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Corfforaethol

#### Cydweithio gyda chymunedau a phartneriaid i ddarparu prosiectau a mentrau sy'n ysgogi twf economaidd

Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar ddarparu nifer o fentrau i annog twf economaidd. Y cyntaf o'r rhain y dylid sôn amdanynt yw y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae'r rhaglen gyffredinol 'ar y Trywydd Iawn'. Tynnwyd sylw at hyn y newyddion gan nodi bod 20 o brosiectau Sir Ddinbych wedi derbyn grantiau o ddyraniad cyllid y sir. Mae naw prosiect sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn brosiectau rhanbarthol neu isranbarthol, a byddant yn symud ymlaen i gam nesaf y broses ymgeisio pan fydd holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru wedi gwneud eu penderfyniadau buddsoddi terfynol. Mae modd canfod gwybodaeth am y prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo hyd yma yn https://www.denbighshire.gov.uk/cy/cymunedau-a-byw/cronfa-ffyniant-gyffredin-y-du/prosiectau/prosiectau.aspx.

Ymgysylltodd y Cyngor â Chronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU hefyd ac mae dwy o raglenni cyffredinol sy'n goruchwylio nifer o is-brosiectau ar draws y meysydd gwasanaeth. Y rhaglen gyntaf yw Cronfa Ffyniant Bro De Clwyd, sydd wedi'i ddylunio i wella cysylltedd a gwneud y mwyaf o economi ymwelwyr sy'n deillio o'r cynnig a geir mewn asedau treftadaeth a diwylliannol unigryw mewn ardaloedd o amgylch Dyffryn Dyfrdwy. Rydym yn adrodd ar gynnydd y rhaglen gyffredinol o dan y thema hon, ynghyd ag is-brosiect adfywio Stryd Fawr Corwen. Mae'r rhaglen yn gyffredinol yn 'Profi Rhwystrau'. Mae Cais Diwygio Prosiect wedi'i gyflwyno i Lywodraeth y DU, sy'n cynnwys estyniad o ran amser, cywiriadau i rai o'r targedau allbwn a newid i flaenoriaethu camau'r prosiect Llwybr Teithio Llesol. Disgwylir ateb maes o law a phan gaiff ei gymeradwyo byddai'n newid statws darparu i 'Ar y Trywydd Iawn'. Gellir canfod manylion sawl is-brosiect mewn thema arall yn ymwneud â gwell cysylltedd a diwylliant. O ran y prosiect i wella Stryd Fawr Corwen, mae gwaith ar isadeiledd canol y dref wedi dechrau ac 'Ar y Trywydd Iawn'. Mae gan ail rownd rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro drosolwg o brosiectau Gorllewin Clwyd gyda'r bwriad o ddiogelu treftadaeth unigryw ardaloedd yn Rhuthun a'r dalgylch, a lles ei ddinasyddion, ynghyd â'r cymunedau gwledig cyfagos. Mae'r rhaglen yn gyffredinol yn 'Profi Rhwystrau'.

Ar gais Llywodraeth y DU, mae'r prosiectau wedi cynnal adolygiad llawn o'u proffiliau darparu ac ariannol.  Mae hyn wedi nodi rhai prosiectau a fyddai'n elwa o estyniad o ran amser.  Mae Bwrdd Rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ffurfioli'r newidiadau. Gellir canfod manylion nifer o is-brosiectau yn ein themâu  cysylltedd gwell,  gwyrddach a diwylliant. Cynhaliwyd digwyddiad gwybodaeth  yng Ngharchar Rhuthun ym mis Gorffennaf i roi gwybodaeth am y prosiectau sydd wedi bod yn llwyddiannus o ran derbyn cyllid trwy raglen Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd. Yn ogystal â'r rhaglenni gwaith presennol, mae'r Cyngor yn datblygu cynigion cyllid ar gyfer mentrau economaidd lle bynnag y bo modd.  Rydym yn aros am y wybodaeth ddiweddaraf o ran trydedd rownd cyllid Ffyniant Bro.

Ym mis Gorffennaf, ystyriodd Pwyllgor Craffu Partneriaethau waith a chynnydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2022 i 2023. Cyflwynodd cynrychiolwyr y Bwrdd eu Hadroddiad Chwarter 4 ac Adroddiad Blynyddol ac ateb cwestiynau'r aelodau.  Adroddwyd bod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a ffurfiwyd yn 2016, wedi sicrhau buddsoddiad o £240 miliwn yng Ngogledd Cymru a gyda tharged buddsoddi o £1 biliwn dros gyfnod o 15 mlynedd, gan greu 4,200 o swyddi newydd.  Eglurwyd rhai o'r heriau yr oedd y bwrdd wedi'u hwynebu dros y 12 mis blaenorol, gan gynnwys tynnu ac ailgwmpasu tri phrosiect ac effaith gyffredinol costau chwyddiant.  Felly mae'r gweithgarwch i alluogi a chefnogi prosiectau Bargen Dwf Gogledd Cymru mewn partneriaeth gydag Uchelgais Gogledd Cymru yn 'Profi Rhwystrau'.  Mae cyfran o'r arian a ryddhawyd wedi'i arallgyfeirio i fwrw ymlaen â phrosiectau eraill sy'n cael eu hariannu gan y Fargen Dwf, megis Hen Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych.  Bu rhywfaint o gynnydd yn y prosiectau eraill, gan dderbyn cymeradwyaeth ar gyfer y tri achos busnes amlinellol, yn cynnwys y Prosiect "Yr Ychydig % Olaf" i ddarparu band eang cyflym iawn mewn cymunedau sydd â chysylltiad gwael ar draws Gogledd Cymru.

Mae prosiect Hen Ysbyty Gogledd Cymru yn parhau i fod  'Mewn Perygl' nes y ceir cytundeb cyfreithiol adran 106, a nes y ceir y cyllid llawn.  Mae'r tîm prosiect yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i symud ymlaen â materion sy'n ymwneud â chynllunio a chyllid hyfywedd.

Mae prosiect Adeiladau'r Frenhines yn y Rhyl yn parhau i 'Brofi Rhwystrau'.  Mae oedi yng ngwaith yr is-orsaf sydd wedi gohirio dyddiad trosglwyddo ar gyfer adeiladu. Ond, ni ddisgwylir i hyn effeithio ar weithrediad yn y dyfodol.  Bydd y datblygiad yn darparu neuadd defnydd cymysg, a fydd yn cynnwys casgliad o leoedd bwyta artisan a gofod ar gyfer manwerthu a digwyddiadau.

Fel rhan o Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn cydlynu ffrydiau cyllid ac yn datblygu crynodebau adfywio trefi (y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel Cynllun Creu Lleoedd Canol Trefi). Mae'r gweithgareddau hyn 'Ar y trywydd iawn'.

Fel dangosydd gweithgarwch economaidd, mae canran yr hawlwyr budd-daliadau ceisio gwaith wedi dangos ychydig o welliant hyd at fis Awst 2023 (nid yw data mis Medi wedi'i gyhoeddi eto), er bod hyn yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru ac yn 'Flaenoriaeth i wella' yn 3.5%.

### Datblygu strategaeth economaidd

Bu i ni adrodd yn flaenorol bod datblygu Strategaeth Economaidd newydd y Cyngor yn weithgaredd pwysig ar gyfer y dyfodol o ran y thema hon. Mae'n galonogol gweld bod y gweithgaredd hwn 'Ar y Trywydd Iawn' gyda manylion yn cael eu datblygu i gaffael ymgynghorydd. Bydd y Strategaeth yn canolbwyntio ar feysydd megis tyfu'r economi werdd, cefnogi busnesau gwledig, adfywio canol trefi a gwella twristiaeth.

Mae datblygiad Canol Tref y Rhyl yn rhaglen barhaus o waith ar gyfer y Cyngor, ac mae nifer o brosiectau'n cael eu rheoli yn y maes. Mae'r cynlluniau i ailddatblygu'r Swyddfa Bost Fictoraidd 'Ar y Trywydd Iawn'. Mae'r prosiect i ailgysylltu pen uchaf Stryd Fawr y Rhyl â'r traeth yn parhau i fod 'Mewn Perygl' oherwydd diffyg cyllid yn dilyn cais aflwyddiannus Cronfa Ffyniant Bro Dyffryn Clwyd. Byddwn yn sicrhau bod cynigion y dyfodol yn cael eu datblygu'n dda yn barod ar gyfer Cronfa Ffyniant Bro 3 a bod cyfathrebu parhaus gyda Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl. Mae dau brosiect pellach i ddatblygu Strategaeth Parth Cyhoeddus y Rhyl a gwella edrychiad eiddo gwael yng Nghanol Tref y Rhyl yn 'Profi Rhwystrau'. Mae'r rhwystrau ar gyfer y cyntaf yn ymwneud â diffyg cyllid, ac ar gyfer yr olaf, mae problemau recriwtio wedi arwain at oedi. Mae dau brosiect yn cael eu datblygu ac yn y cam briff prosiect neu achos busnes, fel y nodwyd yn y tablau isod.

Cyflwynwyd Rhybudd o Gynnig i'r Cyngor Sir ym mis Gorffennaf, mewn perthynas ag ailsefydlu Ciosgau Promenâd y Rhyl, a fydd yn cael eu dymchwel fel rhan o Gynllun Amddiffyn rhag Llifogydd y Rhyl. Cytunwyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu yn y gwanwyn 2025 i ystyried uwchgynllun newydd ar gyfer Promenâd y Rhyl gan gynnwys y dewis o greu ciosgau newydd.

Mae'r cynnig twristiaeth yn Sir Ddinbych yn agwedd bwysig ar gyfer yr economi. Mae darpariaeth Strategaeth Twristiaeth a Chynllun Gweithredu Sir Ddinbych 'Ar y Trywydd

Iawn', ynghyd â datblygiad Cynllun Twristiaeth Cynaliadwy'r AHNE, sydd wedi'i ddrafftio. Mae data STEAM (Monitor Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough) yn gwerthuso effaith economaidd twristiaeth yn Sir Ddinbych wedi'i gyhoeddi yn dangos y cynhyrchwyd £628 miliwn yn 2022, sy'n 'Rhagorol' ac yn gynnydd sylweddol o'r £432 miliwn yn 2021.

Mae'r ffigurau ym mis Gorffennaf ar gyfer nifer ymwelwyr canol tref y Rhyl yn nodi gwelliant yn nifer yr ymwelwyr i siopau'r dref. Cofnodwyd cynnydd o dros 110,000 o ymweliadau ar gyfer 2022, o gymharu â'r ffigurau yn 2021. Cyfanswm ffigur y Rhyl oedd 850,663 gyda'r cyfnod prysuraf rhwng mis Gorffennaf a mis Medi.

### Darparu cyngor a chefnogaeth

Mae'r Cyngor yn cefnogi twf busnes yn Sir Ddinbych mewn sawl ffordd. Drwy'r gwasanaeth Sir Ddinbych yn gweithio, mae'r Cyngor yn rhedeg prosiect sy'n gweithio gyda chyflogwyr i nodi'r swyddi sy'n anodd eu llenwi a datblygu llwybrau penodol i sector i lenwi'r bylchau. Mae'r prosiect wedi bod yn 'Profi Rhwystrau' ond disgwylir o fis Hydref, y bydd y tîm mewn sefyllfa i weithredu llwybrau sector, yn enwedig gan y penodwyd ar gyfer swydd cydlynydd hyfforddiant. Nifer y lleoliadau profiad gwaith di-dâl a gyda thâl a gynigiwyd drwy Sir Ddinbych yn Gweithio ar gyfer y chwarter yw 33, sy'n gynnydd o'r cyfnod adrodd diwethaf, ac yn cynrychioli perfformiad 'Rhagorol'.

Ym mis Medi, cynigodd gwasanaeth cyflogadwyedd Sir Ddinbych yn Gweithio gefnogaeth a chymorth yn rhad ac am ddim i rai a oedd yn gadael yr ysgol uwchradd a'r chweched dosbarth. Roedd gwasanaethau'n cynnwys gweithgareddau lles a chefnogaeth i wella hyder a sgiliau, ynghyd ag arweiniad i ddatblygu gyrfa megis ysgrifennu CV. Mae hyn yn dystiolaeth o ymrwymiad y Cyngor i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Trwy gefnogi pobl ifanc i gynllunio ar gyfer eu dyfodol, mae'r Cyngor yn cymryd camau er budd ei ddinasyddion yn hirdymor, gan atal problemau yn y dyfodol a chyflwyno buddion ar gyfer rhai o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae cymuned fusnes Sir Ddinbych yn derbyn cyngor a chefnogaeth yn rheolaidd drwy newyddlen Datblygu Economaidd a Busnes y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd ar y 'Trywydd Iawn' i gymryd camau i godi ymwybyddiaeth o ddarpariaeth hyfforddiant Cymraeg ar gyfer oedolion sy'n gweithio yn y gymuned fusnes.

Rydym yn parhau i aros am ddata cenedlaethol a fydd yn dangos cyfraddau sefydlu a therfynu busnesau yn Sir Ddinbych ar gyfer 2022 i 2023. Ar ôl i'r ffigurau gael eu cyhoeddi, byddant yn cael eu hadrodd o dan y thema hon.

Ym mis Medi, cymeradwyodd y Cabinet Gynllun Busnes Ardaloedd Gwella Busnes y Rhyl. Craffwyd cynigion ail dymor yr Ardaloedd Gwella Busnes gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ym mis Gorffennaf. Gan gefnogi Rhanbarthau Gwella Busnes y Rhyl, cadarnhaodd y Cabinet y byddai'n defnyddio un bleidlais i gefnogi ail dymor. Y rheswm dros gefnogi hyn yw y gobeithir y bydd yn cyfrannu at adfywio'r dref.

Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau buddion i gymunedau lleol lle bynnag y bo modd. Mae'r gweithgarwch i ddatblygu Fframwaith Buddion Cymunedol wedi'i uwchraddio o ran statws ac yn awr ar y 'Trywydd Iawn'. Mae canran y gwariant gyda chyflenwyr o Sir Ddinbych wedi gostwng o 33% i 15.9% ('Blaenoriaeth i Wella') yn ystod y cyfnod. Mae canran contractau Sir Ddinbych dros £25,000 ac o dan £1m sy'n cynnwys buddion cymunedol hefyd wedi gostwng o 66% i 53.3%, sy'n awr yn cael ei ystyried yn 'Dda'.

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau sy'n cefnogi sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth, gweler ein thema Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu; ar gyfer datblygiadau a buddion cymunedol, gweler ein thema Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well. Yn olaf, am ragor o themâu sy'n gysylltiedig â'r economi leol, gweler Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad.

### Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 | Chwarter 2 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y bobl oedran gwaith sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Cynhwysol - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 3.5% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath | 3.7% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 3.8% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 3.6% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 3.5% Blaenoriaeth i Wella Gwell |
| Nifer y lleoliadau profiad gwaith gyda thâl a di-dâl a gynigir drwy Sir Ddinbych yn Gweithio - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 19 Derbyniol Gwell | 38 Rhagorol Gwell | 16 Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 26 Da Gwell | 33 Rhagorol Gwell |
| Canran y gwariant gyda chyflenwyr o fewn Sir Ddinbych - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 35% Da Gwaeth | 35% Da Yr un fath | 35% Da Yr un fath | 33% Da Gwaeth | 15.9% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth |
| Canran cronnus o gontractau Sir Ddinbych dros £25,000 ac o dan £1 miliwn sy'n cynnwys buddion cymunedol – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 64% Rhagorol Gwaeth | 64% Rhagorol Yr un fath | 66 % Rhagorol Gwell | 66 % Rhagorol Yr un fath | 53.3% Da Gwaeth |

### Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Cyflog gros blynyddol cyfartalog unigolion sy'n byw yn yr ardal ac yn gweithio'n llawn amser (£) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 26,780 Blaenoriaeth i Wella Gwell | 27,121 Blaenoriaeth i Wella Gwell |
| Cyllid allanol (mewn punnoedd) a sicrhawyd ar gyfer datblygu economaidd - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 |
| Canran y cyllid sydd ar gael a ddyfarnwyd gan Ddatblygu Busnes Economaidd ar gyfer | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 |

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| grantiau eiddo masnachol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | | |
| STEAM - Cyfanswm Effaith Economaidd Twristiaeth (£ miliwn) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | £432m<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | £628m<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Nifer y busnesau sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Gohiriwyd oherwydd y pandemig | 390<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Nifer y busnesau sy'n cael eu sefydlu fesul 10,000 o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 78<br>Da<br>Gwell | Aros am ddata cenedlaethol |
| Nifer y busnesau sy'n cau fesul 10,000 o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 89<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth | Aros am ddata cenedlaethol |

### Arolwg Budd-ddeiliaid 2022 i 2023

Rydym wedi diwygio sut yr ydym yn dadansoddi ymatebion i'r Arolwg Budd-ddeiliaid i gynnwys statws ar gyfer y rhai sydd wedi mynegi safbwynt ac yn cytuno (yn flaenorol roeddem yn cynnwys ymatebion "Ddim yn gwybod" a "Dim barn neu'n ansicr" yn ein dadansoddiad).

| Teitl | Cytuno | Anghytuno | Dim barn neu'n ansicr | Gyda barn, a chytuno |
|---|---|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod gan Sir Ddinbych economi ffyniannus sy'n cynnig mynediad i'r sgiliau, swyddi ac incwm cywir – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 32% | 49% | 19% | 40%<br>Blaenoriaeth i Wella |

### Llinynnau Mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi'n anaml - bob pedair i bum mlynedd - gyda'r data diweddaraf sydd ar gael yn deillio o 2019. Oni bai bod data

newydd yn cael ei gyhoeddi, ni fyddwn yn gwneud sylwadau ar ddata MALIC, ond byddwn yn cadw'r llinynnau mesur yn yr adroddiad hwn gan eu bod nhw'n rhoi cyd-destun pwysig ac yn helpu i lywio statws cyffredinol ein llinynnau mesur ar gyfer pob thema. Disgwylir y wybodaeth ddiweddaraf am MALIC gan Lywodraeth Cymru ddiwedd 2025 neu yn gynnar yn 2026.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Incwm (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 14%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yr un fath | 12%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiectau

Ar y cyfan, mae cynnydd da wedi'i wneud gyda'r 23 o brosiectau a gweithgareddau a nodwyd ar gyfer cefnogi'r thema hon. Mae deuddeg prosiect 'Ar y trywydd iawn' ac mae saith ohonynt yn 'Profi Rhwystrau'. Mae dau brosiect wrthi'n cael eu datblygu: mae un ar y cam achos busnes ac mae'r llall ar y cam briff prosiect. Mae dau brosiect 'Mewn Perygl'.

### Prosiectau neu Weithgareddau

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Rhaglen: Y Gronfa Ffyniant Gyffredin | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Rhaglen: Cronfa Ffyniant Bro – De Clwyd | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Ar y cyfan, mae prosiectau Rownd 1 Cronfa Ffyniant Bro De Clwyd yn gwneud cynnydd da. Nodwyd rhai heriau o ran darpariaeth gan 3 partner (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel yr ymgeisydd arweiniol a Glandŵr Cymru) sydd wedi arwain at wahoddiad gan Lywodraeth y DU i gyflwyno Cais Diwygio Prosiect. Mae hyn yn cynnwys estyniad o ran |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| | | amser, cywiriadau i rai o'r targedau allbwn a newid i flaenoriaethu camau'r prosiect Llwybr Teithio Llesol. Disgwylir ateb maes o law a phan gaiff ei gymeradwyo byddai'n newid y statws darparu i 'Ar y Trywydd Iawn'. |
| Prosiect Stryd Fawr Corwen (Cronfa Ffyniant Bro De Clwyd) | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Rhaglen: Cronfa Ffyniant Bro - Gorllewin Clwyd | Profi Rhwystrau<br>Gwaeth | Ar y cyfan, mae prosiectau rownd 2 Cronfa Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd yn cyflawni cynnydd da. Ar ôl cais ffurfiol gan Lywodraeth y DU, roedd gofyn i bob prosiect gynnal adolygiad llawn o'u darpariaeth a'u proffiliau ariannol. Mae hyn wedi nodi rhai prosiectau a fyddai'n elwa o estyniad o ran amser. Mae Bwrdd Rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gadarnhau'r newidiadau. Ni nodwyd unrhyw broblemau pellach o ran darpariaeth ar hyn o bryd. |
| Datblygu ceisiadau am gyllid ar gyfer rowndiau cyllid Ffyniant Bro a'r Fargen Dwf yn y dyfodol | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Hwyluso a chefnogi prosiectau Bargen Dwf Gogledd Cymru mewn partneriaeth ag Uchelgais Gogledd Cymru | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae'r materion a wynebwyd yn cynnwys atal a newid cwmpas tri phrosiect ac effaith gyffredinol costau chwyddiant. Mae cyfran o'r arian a ryddhawyd wedi'u dargyfeirio i ddatblygu prosiect Hen Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych. Cafwyd |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| | | cymeradwyaeth ar gyfer tri achos busnes amlinellol, yn cynnwys y Prosiect "Yr Ychydig % Olaf" i ddarparu band eang cyflym iawn mewn cymunedau sydd â chysylltiad gwael ar draws Gogledd Cymru. |
| Hen Ysbyty Gogledd Cymru | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Nes bydd y cytundeb adran 106 wedi'i sicrhau, mae'r prosiect yn parhau 'Mewn Perygl'. Mae'r Grŵp Darparu Prosiect yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i symud ymlaen â materion sy'n ymwneud â chynllunio a chyllid hyfywedd. |
| Adeiladau'r Frenhines, Y Rhyl | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae oedi yng ngwaith yr is-orsaf sydd wedi gohirio dyddiad trosglwyddo ar gyfer adeiladu. Ond, ni ddisgwylir i hyn effeithio ar weithrediad yn y dyfodol. |
| Cydlynu ffrydiau ariannu rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu Crynodebau Adfywio Tref | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Llunio Strategaeth Economaidd newydd y Cyngor | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Adeilad Fictoraidd Swyddfa'r Post (Y Rhyl) | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu Strategaeth Parth Cyhoeddus y Rhyl | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae trafodaethau'n parhau gyda'r Bwrdd Rhaglen perthnasol i gytuno ar ffordd ymlaen yn sgil cais aflwyddiannus i'r Gronfa Ffyniant Bro. |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Ailgysylltu pen uchaf Stryd Fawr y Rhyl â'r traeth (promenâd y Rhyl) | Mewn Perygl<br>Gwaeth | Mae'r cynnydd wedi peidio ac mae'r tîm yn ystyried sut i ariannu'r gwaith cyn adeiladu a fyddai wedi'i ariannu drwy'r cais i'r Gronfa Ffyniant Bro. |
| Ceisio gwella edrychiad eiddo sydd mewn cyflwr gwael yng Nghanol Tref y Rhyl | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae oedi wedi bod gyda'r prosiect hwn, o ganlyniad i broblemau recriwtio. Mae swyddi dros dro newydd wedi'u cymeradwyo ac yn aros am gyllid. Mae dau brif safle yn ganolbwynt i'r gwaith gwella yn y cyfamser. |
| Porth y Rhyl | Ar y cam briff prosiect | Dim eithriad |
| Adleoli Canolfan Groeso'r Rhyl ac Amgueddfa'r Rhyl ar y cyd | Ar y cam achos busnes | Dim eithriad |
| Datblygu Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a'i integreiddio i Gynlluniau Twristiaeth Lleol | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Cyflawni Strategaeth a Chynllun Gweithredu Twristiaeth Sir Ddinbych 2022 - 2027 | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gweithio gyda chyflogwyr i nodi swyddi sy'n anodd recriwtio ar eu cyfer a datblygu llwybrau sector i lenwi'r bylchau | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae cydlynwyr cyflogaeth wedi bod yn gweithio gyda chyflogwyr i sicrhau ein bod ar y trywydd iawn ar gyfer lleoliadau dechrau gwaith. Nid yw llwybrau sector newydd wedi'u datblygu oherwydd bod swydd wag ar gyfer Cydlynydd Hyfforddiant a chadarnhad hwyr ar gyfer cyllid gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer Blwyddyn 2 a 3. Mae'r gwaith gyda'r cyflogwyr yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i weithredu llwybrau sector o fis Hydref 2023, nawr bod y Cydlynydd |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| | | Hyfforddiant yn y swydd ac wedi dechrau ar y gwaith. |
| Codi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth hyfforddiant Cymraeg i oedolion sy'n gweithio yn y gymuned fusnes. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Llunio adroddiad dichonoldeb ar gyfer llety symud ymlaen ym Mharc Busnes Llanelwy | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu Fframwaith Buddion Cymunedol i gyd-fynd â Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) | Ar y trywydd iawn<br>Gwell | Dim eithriad |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Ym mis Gorffennaf eleni, cyhoeddodd y Cyngor ei fod yn barod ar gyfer y cynnydd mewn nifer yr ymwelwyr yn y sir yn ystod gwyliau'r haf, gyda mwy o geidwaid parc a mwy o ddarpariaeth glanhau strydoedd mewn ardaloedd twristiaeth allweddol a digwyddiadau. Ym mis Awst, atgoffodd y Cyngor yr ymwelwyr dros ŵyl y banc i barchu cefn gwlad ac ymddwyn yn gyfrifol. Cyflwynwyd cyfres o fesurau gan y Cyngor i leihau tagfeydd mewn safleoedd poblogaidd fel Moel Famau a Rhaeadr y Bedol.

## Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

### Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Corfforaethol

#### Sicrhau bod arlwy gofal cymdeithasol y Cyngor o safon uchel

Yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf, derbyniodd Pwyllgor Craffu Partneriaethau Adroddiad Blynyddol Drafft Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn adolygu effeithiolrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod ar gyfer oedolion a phlant yn ystod blwyddyn ariannol 2022 i 2023. Nodwyd bod y galw ar wasanaethau gofal cymdeithasol wedi cynyddu, ac nad yw'r perfformiad wedi datblygu cymaint ag yr hoffai'r gwasanaethau oherwydd heriau cenedlaethol a chyfyngiadau yn y gyllideb. Roedd recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn her o fewn y sector gofal cymdeithasol.

Mae'r Cyngor yn ceisio hyrwyddo diwylliant cryf o ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion yn y sir. Ym mis Gorffennaf, cyflwynwyd adroddiad perfformiad blynyddol ar gyfer diogelu oedolion yn Sir Ddinbych i Bwyllgor Craffu Partneriaethau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022 i 2023. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y lefel uchel o ymholiadau diogelu a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod. Y ffigur chwarterol ar gyfer y cyfnod o fis Gorffennaf i fis Medi 2023 oedd 99% ac mae hyn yn cael ei ystyried yn 'Rhagorol'. Maes o bryder yn yr adroddiad oedd y cynnydd yn yr atgyfeiriadau a wnaed o dan Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru (honiadau am ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi cyfrifol). Cynyddodd y ceisiadau ar gyfer Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (o 11%) o'r flwyddyn flaenorol. Mae achosion llys wedi parhau i gynyddu a nodwyd eu bod yn cael effaith ar gapasiti timau gweithredol ynghyd â'r tîm cyfreithiol.

Mae prosiect i gynnal adolygiad o eiriolaeth proffesiynol annibynnol ar gyfer yr holl ddarpariaeth gwasanaeth yn parhau ac 'Ar y trywydd iawn'. Mae canran y bobl ifanc sydd wedi cael cynnig y dewis gweithredol o eiriolaeth gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant yn ystod y cyfnod yn llinyn mesur yr ydym yn ei ddatblygu, ac nid yw data ar gael ar gyfer y cyfnod adrodd ar hyn o bryd.

Mae darparu gofal a chefnogaeth drwy'r rôl rhianta corfforaethol yn faes pwysig o waith y Cyngor. Ar ddiwedd mis Medi, roedd 206 o blant yn derbyn gofal yn Sir Ddinbych. Roedd canran y plant sy'n profi tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn yn parhau'n isel yn

1.94% sydd o fewn y trothwy ‘Rhagorol’. Mae’r cynnydd yn parhau i fod ‘Ar y Trywydd Iawn’ o ran gweithredu gofynion Maethu Cymru, rhwydwaith cenedlaethol gwasanaethau maethu Awdurdod Lleol.

Mae’r Cyngor yn bwriadu gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu canolfan asesu ar y cyd ar gyfer plant yn y rhanbarth ag anghenion cymhleth. Mae gennym nifer o brosiectau sydd wedi’u dylunio i gefnogi y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol neu gymhleth, ac mae’r wybodaeth ddiweddaraf am y rhain yn y tabl isod.

I gydnabod pwysigrwydd cefnogi gofalwyr di-dâl, mae’r Cyngor yn gweithio gyda’i bartneriaid i ddarparu cyfleoedd seibiant gwell a chyngor a chefnogaeth cyffredinol. Mae gweithgaredd i gefnogi’r nod yn ‘Profi Rhwystrau’. Mae data cyfanswm yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer gofalwyr ifanc yn ystod y cyfnod yn cael ei ddarparu gan drydydd parti ac rydym yn aros am y wybodaeth ddiweddaraf. Cyfanswm nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr sy’n oedolion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn oedd 203.

O edrych ar gofnodion ein Storfa Cyfarpar Cymunedol, gallwn adrodd bod 31 o unigolion wedi derbyn cyfarpar arbenigol rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023, er mwyn galluogi gofal unigol. Rydym wedi cadarnhau o gofnodion costau gofal sydd ar gael bod 11 o’r unigolion hyn yn derbyn gofal unigol llawn neu’n rhannol, gydag arbedion costau posibl o £1,500 yr wythnos. Mae’n bosibl bod pecynnau gofal ar gyfer rhai o’r unigolion hyn yn dal i gael eu newid neu eu hadolygu.

## Cefnogi lles, iechyd meddwl a gwytnwch unigolion o fewn cymunedau

Ym mis Awst, trefnodd Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae Cyngor Sir Ddinbych ddigwyddiad yn rhad ac am ddim fel rhan o’r Diwrnod Chwarae Cenedlaethol. Cynhaliodd Canolfan y Dderwen y Rhyl y digwyddiad, a daeth dros 2,800 o bobl. Mae’r Ceidwaid Chwarae yn cynnal dau brosiect i wella lles plant a’u mynediad at gyfleoedd chwarae. Mae’r prosiectau yn parhau i fod ‘Mewn Perygl’ oherwydd diffyg cyllid, ond mae ymdrechion ar y gweill i geisio cyllid amgen. Roedd canran yr ysgolion sy’n ymgorffori ‘Dull Ysgol Gyfan’ ar gyfer iechyd meddwl a lles ar gyfer mis Ebrill i fis Mehefin 2023 yn ‘Flaenoriaeth i Wella’ yn 27%. Nid yw’r wybodaeth ddiweddaraf am y llinyn mesur hwn ar gael eto a bydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad perfformiad nesaf.

Mae’r Cyngor yn darparu cefnogaeth lles i’r holl ddinasyddion yn Sir Ddinbych. Roedd nifer y cysylltiadau gyda’r Un Pwynt Mynediad i dderbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth

wedi gostwng ychydig yn ystod y cyfnod i 4,911. Roedd canran y dinasyddion sy'n derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth gan Bwyntiau Siarad nad oedd angen cael eu hatgyfeirio at Ofal Cymdeithasol i Oedolion yn parhau i fod yn uchel yn 87%. Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â phlant, mae nifer yr atgyfeiriadau ac ymholiadau a gofnodwyd ar Borth Cefnogaeth Teuluoedd a Phlant yn ystod y cyfnod yn cael ei gyfrifo a bydd yn cael ei adrodd yn yr adroddiad perfformiad nesaf.

Ym mis Gorffennaf, cynhaliodd y Cyngor ddigwyddiad galw heibio yn Neuadd y Dref Dinbych i hyrwyddo'r ystod eang o wasanaethau cefnogaeth sydd ar gael i'r holl ddinasyddion, o gefnogaeth iechyd meddwl i les cyffuriau ac alcohol. Mae nifer o brosiectau a gweithgareddau'n cefnogi'r addewid - megis gweithio tuag at Sir Ddinbych Oed-gyfeillgar; darparu gweithgareddau rhyng-genhedlaeth drwy brosiect Story Pals; a Rhaglen Natur er budd Iechyd er enghraifft - sydd oll 'Ar y Trywydd Iawn'.

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau sy'n cefnogi tai a digartrefedd, gweler ein themâu Tai a Sir Ddinbych Ffyniannus yn y drefn honno. I gael gwybodaeth ynglŷn â chydraddoldeb ac amddifadedd, ac amgylcheddau diogel, gweler ein thema Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal. Yn olaf, am ragor o fanylion ynglŷn â'n gwaith i gefnogi addysg a lles, gweler ein thema Sir Ddinbych sy'n Dysgu a Thyfu .

### Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 | Chwarter 2 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yr ymholiadau diogelu gan oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith i dderbyn adroddiad am gamdriniaeth honedig - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 98.85% Rhagorol Gwell | 98.84% Rhagorol Gwaeth | 98.8% Rhagorol Gwaeth | 100% Rhagorol Gwell | 99% Rhagorol Gwaeth |

| **Teitl** | **Chwarter 2 2022 - 2023** | **Chwarter 3 2022 - 2023** | **Chwarter 4 2022 - 2023** | **Chwarter 1 2023 - 2024** | **Chwarter 2 2023 - 2024** |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y bobl ifanc a gafodd ddewis y cynnig gweithredol o eiriolaeth gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Aros am ddata | Aros am ddata |
| Nifer y plant sy'n derbyn gofal yn Sir Ddinbych – **Cyfrif yn Unig** | Aros am ddata | Aros am ddata | 200 | 203 | 206 |
| Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi bod mewn tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 3% Rhagorol Gwell | 4% Rhagorol Gwaeth | 1% Rhagorol Gwell | 2.46% Rhagorol Gwaeth | 1.94% Rhagorol Gwell |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Aros am ddata | Aros am ddata |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr sy'n oedolion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn (cronnus) - **Cyfrif yn Unig** | 197 | 303 | 401 | 92 | 203 |
| Nifer y pecynnau gofal a chefnogaeth a fu'n ddigonol ar gyfer gofal unigol gyda'r math cywir o gyfarpar arbenigol – **Blwyddyn Sylfaen** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 48 | 11 |

| Teitl | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 | Chwarter 2 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr entrepreneuriaid posibl a dderbyniodd gymorth i fod yn barod am fusnes ar gyfer anghenion gofal a chefnogaeth dinasyddion – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 20 | 22 | 25 |
| Canran yr ysgolion yn y sir sy'n defnyddio Dull Ysgol Gyfan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 27% Blaenoriaeth i Wella | Aros am ddata |
| Nifer yr atgyfeiriadau/ ymholiadau a gofnodwyd ar y Porth Cefnogi Plant a Theuluoedd - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 4,350 | Aros am ddata |
| Nifer y cysylltiadau gyda'r Un Pwynt Mynediad ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth – **Cyfrif yn Unig** | 4,988 | 4,586 | 5,134 | 5,307 | 4,911 |
| Nifer y cysylltiadau gyda'r Pwyntiau Siarad ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth (llyfrgelloedd, Siopau Un Alwad, ac a gynhelir gan Lyw-wyr Cymunedol ac ati) - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 231 | 218 |

| Teitl | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 | Chwarter 2 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y dinasyddion sy'n derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth gan Bwyntiau Siarad nad oedd angen cael eu hatgyfeirio at Ofal Cymdeithasol i Oedolion -**Blwyddyn Sylfaen** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 87.5% | 87% |
| Nifer y prosiectau / grwpiau chwaraeon a hamdden a gefnogir gan y Tîm Gwydnwch Cymunedol – **Blwyddyn Sylfaen** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 42 | 34 |

**Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol**

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn yr amserlenni statudol - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 76.59%<br>Blaenoriaeth i Wella | 76.7%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Canran y cynadleddau amddiffyn plant a gynhaliwyd o fewn yr amserlenni statudol - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 90.63%<br>Blaenoriaeth i Wella | 95%<br>Da<br>Gwell |
| Canran yr oedolion lle darparwyd eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar ôl asesu'r angen – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 72.5%<br>Da |
| Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan ofalwyr sy'n oedolion trwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn, lle rhoddwyd cyngor neu gymorth - **Cyfrif yn Unig** | 1,037 | 1,159 |
| Nifer cronnus y busnesau meicro-ddarparwyr newydd a grëwyd ar gyfer anghenion gofal a chefnogaeth dinasyddion – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 30<br>Rhagorol |

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Nifer yr ysgolion sydd wedi cyflawni statws Ysgol sy'n Deall Trawma erbyn 2027 -**wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 1<br>Rhagorol |
| Nifer y bobl ifanc sydd wedi derbyn gwasanaeth cwnsela yn ysgolion Sir Ddinbych – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 330<br>Derbyniol | 338<br>Derbyniol<br>Gwell |
| Y gwelliant cyfartalog yn sgôr craidd pobl ifanc ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth cwnsela yn ysgolion Sir Ddinbych – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 8.5<br>Rhagorol |
| Nifer y prosiectau a gefnogwyd gan y Tîm Datblygu Cymunedol ac a ariannwyd, gan gynnig effaith gadarnhaol ar gyfer unigrwydd ac arwahanrwydd - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 |
| Nifer y Grwpiau Cymunedol yn y Sir sy'n defnyddio cyfleusterau o fewn cwmpas Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 137<br>Rhagorol | 134<br>Rhagorol<br>Gwaeth |
| Nifer y cyfleusterau/lleoliadau amgen (y tu hwnt i'r cwmpas) a ddefnyddiwyd ar gyfer darparu gwasanaethau i breswylwyr CSDd - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 107<br>Rhagorol | 96<br>Rhagorol<br>Gwaeth |

## Arolwg Budd-ddeiliaid 2022 i 2023

Rydym wedi diwygio sut yr ydym yn dadansoddi ymatebion i'r Arolwg Budd-ddeiliaid i gynnwys statws ar gyfer y rhai sydd wedi mynegi safbwynt ac yn cytuno (yn flaenorol roeddem yn cynnwys ymatebion "Ddim yn gwybod" a "Dim barn neu'n ansicr" yn ein dadansoddiad).

| Teitl | Cytuno | Anghytuno | Dim barn neu'n ansicr | Gyda barn, a chytuno |
|---|---|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno y gallant fyw yn ddiogel, hapus ac annibynnol yn Sir Ddinbych, yn ogystal â derbyn cefnogaeth dda pan fo angen i | 48% | 39% | 13% | 55%<br>Derbyniol |

| Teitl | Cytuno | Anghytuno | Dim barn neu'n ansicr | Gyda barn, a chytuno |
|---|---|---|---|---|
| hybu gwydnwch a lles - **wedi'i feincnodi'n lleol** | | | | |

### Llinynnau Mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi'n anaml - bob pedair i bum mlynedd - gyda'r data diweddaraf sydd ar gael yn deillio o 2019. Oni bai bod data newydd yn cael ei gyhoeddi, ni fyddwn yn gwneud sylwadau ar ddata MALIC, ond byddwn yn cadw'r llinynnau mesur yn yr adroddiad hwn gan eu bod nhw'n rhoi cyd-destun pwysig ac yn helpu i lywio statws cyffredinol ein llinynnau mesur ar gyfer pob thema. Disgwylir y wybodaeth ddiweddaraf am MALIC gan Lywodraeth Cymru ddiwedd 2025 neu yn gynnar yn 2026.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Iechyd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 10%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yr un fath | 17%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

O'r un ar hugain o brosiectau a gweithgareddau sydd wedi'u rhestru o dan y thema hon, mae pymtheg ohonynt 'Ar y trywydd iawn', tri yn 'Profi Rhwystrau', dau 'Mewn Perygl', ac un yn y cam briff prosiect.

### Prosiectau neu Weithgareddau

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Sefydlu Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ym mhob agwedd o Wasanaethau Plant ac Oedolion. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |

| **Teitl** | **Statws** | **Eithriadau** |
|---|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno'r cynllun strategol blynyddol ar y cyd ar gyfer Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Cynnal adolygiad o eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer yr holl wasanaethau sy'n cael eu darparu. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Monitro a gweithredu gofynion Maethu Cymru a monitro effeithiolrwydd y dull cenedlaethol. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gweithredu gwaith Anghenion Dysgu Ychwanegol ôl-16 | Profi Rhwystrau | Mae gwaith wedi dechrau ar hyn. Mae trafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol yn parhau er mwyn gweithredu'r Ddeddf o safbwynt Anghenion Dysgu Ychwanegol a phobl ifanc ôl 16. |
| Datblygu gwyliau preswyl byr yn y sir a darpariaeth gofal brys i blant ag anghenion ac anableddau cymhleth yn Sir Ddinbych. | Disgwylir y wybodaeth ddiweddaraf. | Dim eithriad |
| Adolygu Seibiant Preswyl yn y Sir | Ar y cam briff prosiect | Dim eithriad |
| Gweithredu ac ymgorffori gofynion y Cod Ymarfer Awtistiaeth yn yr awdurdod lleol ar draws y Gwasanaethau Plant. | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae Cod Ymarfer Awtistiaeth yn parhau i gael ei ddatblygu. Mae'r rheolwr arweiniol yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i gefnogi'r cynllun gweithredu. Mae Gweithgor Rhanbarthol Gogledd Cymru, ac mae tîm Sir Ddinbych yn aelod o'r Gweithgor. |
| Cam 2 Bwthyn y Ddôl (Gweithgaredd) Datblygu a gweithredu, yn cynnwys staffio, Canolfan Asesu Plant newydd ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Ysgol Tir Morfa - pwll hydrotherapi | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gwella'r gwaith ymyrraeth ym Mhlas Brondyffryn a Thir Morfa o ran cyfleoedd chwarae gan Geidwaid Chwarae. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gweithio gyda gofalwyr di-dâl lleol i nodi'r cyfleoedd seibiant sydd eu hangen arnynt, a sut mae rhwystrau'n cael eu goresgyn i alluogi hyn. | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Cynhaliwyd cyfarfodydd Melin Drafod Gofalwyr bob 6 wythnos ac maent wedi galluogi ystod eang o weithwyr proffesiynol i ystyried datrysiadau. Roedd enghreifftiau o wirfoddolwyr sydd wedi llwyddo i gefnogi gofalwyr a darparwyr micro yn darparu seibiant i ofalwyr. |
| Gweithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol i sefydlu Llwybr Safonau Dementia Cymru Gyfan. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Ymgorffori gwaith y Tîm Byw'n Annibynnol i gefnogi unigolion drwy daliadau uniongyrchol neu gardiau wedi'u rhagdalu, er mwyn gwella effeithlonrwydd | Ar y trywydd iawn<br>Gwell | Dim eithriad |
| Gwaith i ddatblygu ac ymestyn y prosiect Mynediad at Gyfleoedd Chwarae ledled y sir. | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Mae prinder cyllid sylweddol yn golygu bod y prosiect yn parhau i fod mewn perygl. Mae rhagor o grantiau allanol yn cael eu harchwilio wrth i'r galw am y gwasanaeth barhau i gynyddu. |
| Ymestyn cynnig Ceidwaid Chwarae ar gyfer y Rhaglen Gadewch i Ni Chwarae Allan ledled y sir. | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Mae prinder cyllid sylweddol yn golygu bod y prosiect yn parhau i fod mewn perygl. Mae rhagor o grantiau allanol yn cael eu harchwilio wrth i'r galw am y gwasanaeth barhau i gynyddu. |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Gwneud gwaith i leihau rhestr aros am gymorth gan y Gwasanaethau Ieuenctid yn Sir Ddinbych. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gweithio tuag at Sir Ddinbych Oed-gyfeillgar, gyda Sefydliad Iechyd y Byd, mewn partneriaeth â grŵp amlasiantaeth Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gwella'r Prosiect Story Pals a'r rhaglen Gelfyddydau i ddarparu gweithgareddau pontio'r cenedlaethau (darperir drwy Strategaeth Gelfyddydau Sir Ddinbych). | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Darparu rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau i annog plant a phobl ifanc i ailgysylltu â'u llyfrgell leol, er mwyn cefnogi ymgysylltiad a lles ac i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gwella'r Rhaglen Natur er Budd Iechyd yn Sir Ddinbych, sy'n cynnig amryw o fanteision – lleihau arwahanrwydd, gwella iechyd, sgiliau gwledig, teithiau cerdded natur ac iechyd, celf a chrefft. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Cynhaliwyd Diwrnod Cenedlaethol Gweithwyr y GIG, Gofal Cymdeithasol a'r Rheng Flaen ar 5 Gorffennaf, a dathlodd y Cyngor yr achlysur drwy godi'r faner yn Neuadd y Sir Rhuthun i nodi'r holl staff perthnasol.

Yn ystod yr haf, bu i breswylwyr Cartref Gofal Dolwen yn Ninbych greu gardd goffa i gofio am y trigolion a fu farw yn ystod pandemig Covid-19.

Yn ystod gwyliau'r haf, lansiodd llyfrgelloedd Cyngor Sir Ddinbych raglen benthyg offer am ddim gydag ystod o offer chwaraeon ar gael gan Hamdden Sir Ddinbych Cyf.

Yn y cyfarfod ym mis Medi, derbyniodd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau adroddiad llafar i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar gynnydd Prosiect Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych. Hysbysodd cynrychiolydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr y Pwyllgor bod ailddatblygiad Ysbyty Brenhinol Alexandra yn brosiect blaenoriaethol sydd wedi derbyn achos busnes cymeradwy sydd heb ei newid ers ei ddatblygu. Byddai cymeradwyaeth ar gyfer 20% o'r cyllid yn cael ei geisio drwy Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Llywodraeth Cymru gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o'u Cynlluniau Cyfalaf ym mis Hydref 2023. Nid oedd terfyn amser ar gael ar gyfer derbyn ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2022 i 2023 yng nghyfarfod Craffu Partneriaethau ym mis Medi, cymeradwyodd y Cabinet Cynllun Cyfalaf Strategol 10 Mlynedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a chytuno ar flaenoriaethau cyfalaf Sir Ddinbych er mwyn gwella iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.

Yng nghyfarfod mis Medi, derbyniodd Pwyllgor Craffu Cymunedau'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Gwasanaethau Digartrefedd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion ynghylch eu hymgysylltiad â Fforwm Gofal Cymru a Darparwyr Gofal yn Sir Ddinbych. Darparodd yr adroddiad gofnod o'r ymdrechion a wnaed i hyrwyddo dialog cadarnhaol ac annog ailymgysylltu â Fforwm Gofal Cymru gyda'r broses o osod ffioedd rhanbarthol. Mae'r Gwasanaeth yn trefnu cyfres o ymweliadau â chartrefi gofal, er mwyn mynd ati i'w cynnwys yn y broses o osod ffioedd gofal ar gyfer 2024 – 2025.

Ym mis Medi, cynhaliwyd digwyddiad yn Neuadd y Farchnad Rhuthun i annog y cyhoedd i ddod i gael sgwrs gyda Thîm Adnoddau Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r tîm yn cynnwys staff iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.

Ym mis Medi, cynhaliodd y Cyngor, mewn cydweithrediad â CGG Sir Ddinbych a Chymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed Sir Ddinbych, berfformiad o 'Over the Garden Fence' yn Theatr Twm o'r Nant Dinbych. Dyluniwyd y digwyddiad i godi ymwybyddiaeth o ddementia

a hyrwyddo dealltwriaeth.

## Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

### Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Cynllun Corfforaethol

#### Hyrwyddo dysgu a datblygiad ein plant a phobl ifanc

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn canolbwyntio ar gefnogaeth ar gyfer datblygiad yn y blynyddoedd cynnar gyda nifer o linynnau mesur allweddol yn y maes. Mae nifer y plant sy'n derbyn y Cynnig Gofal Plant yn Sir Ddinbych wedi parhau i gynyddu i 624. Agorwyd cyfleuster gofal plant newydd yn Ysgol Penmorfa, Prestatyn, ym mis Medi. Roedd yr estyniad wedi'i ariannu gan Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru ac mae wedi cynyddu capasiti'r ddarpariaeth yn yr ardal, gan alluogi mwy o deuluoedd lleol i elwa o ofal plant o'r radd flaenaf.

Bydd gweithwyr Cyswllt Teulu yn parhau i weithio i gefnogi teuluoedd ledled y sir, gan gyflwyno sesiynau iaith a chwarae a darparu canllawiau i rieni. Mae nifer y rhieni sy'n adrodd gwahaniaeth cadarnhaol ar ôl gweithio gyda'r tîm wedi gostwng o 96% i 86% yn y chwarter yma, ond mae hyn o ganlyniad i gynnal gweithgareddau yn ystod y tymor yn unig ac nid yn ystod gwyliau'r haf.

Nid yw nifer yr ysgolion, yn dilyn adolygiad Estyn, sydd yng nghategorïau Gwelliant Sylweddol neu Fesurau Arbennig wedi newid ers y cyfnod blaenorol (dwy ysgol). Yn dilyn ymweliad monitro Estyn ym mis Mehefin, mae Ysgol Uwchradd Dinbych wedi'u tynnu o Fesurau Arbennig, ar ôl gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn yr argymhellion. Mae uchafbwyntiau'r adroddiad yn cynnwys bod yr ysgol wedi adnewyddu eu hymagwedd o ran gwobrwyo a dathlu ymddygiad cadarnhaol; mae'r athrawon yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda'u dosbarth; a strategaeth well er mwyn gwella sgiliau llythrennedd. Ym mis Medi, ystyriodd Pwyllgor Craffu Perfformiad adroddiad ar gynnydd a wnaed gan Ysgol Crist y Gair ers eu rhoi o dan Fesurau Arbennig, yn dilyn arolwg Estyn ym mis Mai 2022. Penderfynodd y Pwyllgor y dylid derbyn y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd o ran cynnydd.

Yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf a mis Medi, mae'r Pwyllgor Craffu Perfformiad hefyd wedi derbyn sawl adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Addysg yn ymwneud â darnau allweddol o waith sy'n ceisio diddymu rhwystrau dysgu.

- Y Cwricwlwm i Gymru - cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a wnaed gan ysgolion o ran gweithredu'r cwricwlwm newydd ers iddo ddod yn statudol ym mis Medi 2022.
- Anghenion Dysgu Ychwanegol - adroddiad yn cyflwyno gwybodaeth am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod ysgolion yn barod i ddiwallu'r gofynion statudol o dan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).
- Dull Ysgol Gyfan tuag at Les Emosiynol a Meddyliol - Trosolwg o sut mae ysgolion yn gweithredu fframwaith statudol Llywodraeth Cymru.

Ar ôl ystyried a derbyn yr adroddiadau hyn, gofynnodd yr Aelodau bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei gyflwyno iddynt yn ail hanner 2024.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae un prosiect o fewn ein thema Dysgu a Thyfu sydd 'Mewn Perygl' ar hyn o bryd. Mae Rhaglen Moderneiddio Addysg yn profi oedi am sawl rheswm, ond yn bennaf oherwydd materion o ran dichonoldeb safle (fel y nodir yn fanylach yn y tabl isod). Cymeradwyodd yr Aelodau Cabinet safle ar gyfer adeilad newydd Ysgol Plas Brondyffryn yn eu cyfarfod ym mis Medi, gyda'r aelodau'n cytuno i gefnogi cynnydd y prosiect drwy'r broses gynllunio.

Ym mis Awst, llongyfarchodd y Cyngor ddisgyblion ledled Sir Ddinbych ar eu canlyniadau TGAU a Lefel A.

### Cefnogi ysgolion i drosglwyddo i fod yn Ysgolion Bro, gan ddarparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau i helpu i fodloni anghenion disgyblion, eu teuluoedd, a'r gymuned ehangach

Cynhaliwyd arolwg yn ystod yr haf i gadarnhau faint o ysgolion o fewn yr ystâd sy'n gallu darparu gofodau ar gyfer digwyddiadau yn y gymuned. O'r 25 o ysgolion a ymatebodd, nododd 15 eu bod yn gallu cynnal gweithgareddau. Bydd rhagor o waith yn cael ei gyflawni gyda'r ysgolion a oedd heb ymateb i sicrhau y ceir darlun llawn mewn perthynas â gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Yn y cyfamser, mae Cynllun Peilot Ysgol Uwchradd Prestatyn ar gyfer Ysgolion Bro 'Ar y trywydd iawn' ac fe gynhelir cyfarfodydd i symud ymlaen â'r gwaith bob tymor. Mae nifer cynyddol o brosiectau wedi'u cynnal yn ystod y cynllun peilot, gan gynnwys prosiectau amgylcheddol i ddatblygu gofodau gwyrdd ac eco, grwpiau cefnogi iechyd meddwl oedolion, a darpariaeth yn ystod gwyliau'r haf i ddarparu gweithgareddau yn rhad ac am ddim ar gyfer plant dros 12 oed ym Mhrestatyn.

Roedd sawl ysgol yn Sir Ddinbych yn rhan o brosiect ymchwil Cymru gyfan, sy'n cynnwys datblygu partneriaeth ryngwladol gyda'r Ganolfan ar gyfer Ysgolion Cymunedol yn Florida. Mae cyllid wedi'i sicrhau i ddarparu prosiectau yn y dyfodol i gefnogi ymgysylltiad cymunedol ar safleoedd ysgolion a bydd gwaith yn parhau drwy gydol y flwyddyn ysgol.

### Gweithio gyda phartneriaid (gan gynnwys colegau a phrifysgolion) i sicrhau bod pobl o bob oedran, gan gynnwys y rhai diamddiffyn a'r rhai dan ein gofal ni, yn gadarn ac yn barod am gyflogaeth, addysg bellach, neu hyfforddiant

Rydym yn dechrau derbyn data calonogol yn awr wrth i'n prosiect Llwybrau fynd rhagddo. Cynyddodd y cyfleoedd gwirfoddoli / profiad gwaith yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf i 13, sy'n rhagorol ar gyfer yr adeg yma o'r flwyddyn academaidd. Cafwyd adborth cadarnhaol gan ddysgwyr ac mae gwaith ar y gweill i sicrhau cyllid ar gyfer y ddarpariaeth yn y dyfodol. Ond, dim ond tri chyfle a gynigiwyd gan y Cyngor drwy'r wefan gorfforaethol; ac ni sicrhawyd unrhyw gyfleoedd cyflogaeth na diogelu unrhyw swyddi drwy ein Polisi Buddion Cymunedol yn ystod y cyfnod gan na fu unrhyw gontractau dilys. Mae canran y busnesau sydd wedi ymrwymo i weithio â Gyrfa Cymru er budd ein hysgolion a cholegau lleol yn parhau i fod yn sero, ar y sail nad oedd unrhyw gontractau perthnasol h.y. nid oes yr un ohonynt dros £1 miliwn.

Mae nifer yr unigolion gydag anableddau dysgu sydd wedi cyflawni canlyniad cadarnhaol o ganlyniad i gefnogaeth gan wasanaethau Cyfleoedd Gwaith y Cyngor wedi gostwng ychydig o 43 i 40 rhwng mis Gorffennaf a mis Medi. Mae un person hefyd wedi'u cyflogi i dderbyn cyflogaeth gynaliadwy yn ystod y cyfnod o ganlyniad i Wasanaeth Canfod Swyddi Cyfleoedd Gwaith y Cyngor.

Mae 90% o'r unigolion sy'n derbyn cefnogaeth drwy Sir Ddinbych yn Gweithio wedi teithio pellter cadarnhaol ar eu taith tuag at neu i dderbyn cyflogaeth rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, cynnydd o'r 82% yn y cyfnod diwethaf. Mae'r tîm wedi bod yn cynnal cyfres o sesiynau galw heibio wythnosol yn rhad ac am ddim ar draws y sir, i gynnig cefnogaeth ac

arweiniad ar gyflogaeth. Roedd y gefnogaeth yn cynnwys sgiliau CV, paratoi ar gyfer cyfweliad, sgiliau TG sylfaenol a chefnogaeth i lenwi ceisiadau. Cynhaliwyd ffair swyddi am ddim yn arddangos ystod eang o gyfleoedd gwaith ym mis Medi ym Mwyty a Bar 1891, yn dilyn llwyddiant tri digwyddiad arall yno eleni. Roedd dros 40 yn arddangos yn y lleoliad, gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Clwyd Alyn, Wynne Construction a'r Lluoedd Arfog.

Mae canran cronnus yr unigolion ifanc sydd wedi derbyn ymyraethau gan y gwasanaeth ieuenctid wedi cynyddu i 4.4% yn ystod y cyfnod, ychydig yn is na'r 5.1% ar gyfer yr un cyfnod adrodd yn y flwyddyn flaenorol.

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau sy'n cefnogi lles, gweler ein thema Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus; ar gyfer tegwch mewn addysg, gan gynnwys cymorth prydau ysgol am ddim, gweler ein thema Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal. Yn olaf, am ragor o fanylion ynglŷn â'n gwaith i gefnogi gwirfoddoli a chyflogaeth, gweler ein themâu Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well a Sir Ddinbych ffyniannus yn y drefn honno.

### Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 | Chwarter 2 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant sy'n manteisio ar y cynnig gofal plant – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 477 Derbyniol Gwaeth | 521 Derbyniol Gwell | 570 Derbyniol Gwell | 570 Derbyniol Yr un fath | 624 Da Gwell |
| Canran y rhieni a gefnogwyd trwy waith y Gwasanaeth Cyswllt Teulu sy'n adrodd am wahaniaeth cadarnhaol – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | 95% Rhagorol | 96% Rhagorol Gwell | 86% Rhagorol Gwaeth |

| Teitl | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 | Chwarter 2 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ysgolion sydd naill ai dan Adolygiad Estyn, angen Gwelliant Sylweddol neu mewn Mesurau Arbennig – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 2<br>Da<br>Yr un fath | 3<br>Derbyniol<br>Gwaeth | 3<br>Derbyniol<br>Yr un fath | 2<br>Da<br>Gwell | 2<br>Da<br>Yr un fath |
| Canran y disgyblion (yn defnyddio Agweddau Disgyblion atynt eu Hunain a'r Ysgol - PASS) sy'n ymateb yn gadarnhaol o ran eu teimladau am yr ysgol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Dim Arolwg | 81.8%<br>Da<br>Gwaeth | Dim data. Dim Arolwg | 82%<br>Da<br>Gwell | Dim data. Dim Arolwg |
| Nifer y lleoliadau gwirfoddol / profiad gwaith a gynigiwyd trwy 'Llwybrau' – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 1<br>Blaenoriaeth i Wella | 13<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a gynigiwyd gan y Cyngor drwy ei wefan gorfforaethol – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 8 | 9 | 3 |
| Canran y bobl ifanc yn Sir Ddinbych a gefnogwyd gan y Gwasanaethau Ieuenctid (Cronnus) – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 5.12%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 6.39%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 20.93%<br>Derbyniol<br>Gwell | 2.82%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth | 4.36%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |

| Teitl | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 | Chwarter 2 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl ag anableddau dysgu sydd wedi cyflawni canlyniad cadarnhaol o ganlyniad i gefnogaeth a ddarparwyd drwy wasanaethau Cyfleoedd Gwaith y Cyngor (Y Bont, Popty, Meifod, Rheoli Gerddi a'r Grŵp Aur) – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | 34 | 43 | 40 |
| Nifer y bobl ag anableddau dysgu sydd mewn cyflogaeth gynaliadwy â thâl o ganlyniad i Wasanaeth Canfod Swyddi Cyfleoedd Gwaith y Cyngor –**Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | 3 | 2 | 1 |
| Canran y busnesau a dderbyniodd gontractau o dros £1 miliwn sydd wedi ymrwymo i weithio â Gyrfa Cymru er budd ein hysgolion a cholegau lleol (trwy ein Polisi Buddion Cymunedol) – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | 100% Rhagorol | Ddim yn berthnasol: dim contractau dros £1m | Ddim yn berthnasol: dim contractau dros £1m |
| Nifer y cyfleoedd cyflogaeth a sicrhawyd/ swyddi a ddiogelwyd trwy ein Polisi Buddion Cymunedol ar brosiectau o dros £1 miliwn – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024. | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024. | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024. | Ddim yn berthnasol: dim contractau dros £1m | Ddim yn berthnasol: dim contractau dros £1m |

| Teitl | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 | Chwarter 2 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y bobl sydd, trwy Sir Ddinbych yn Gweithio, wedi cymryd camau cadarnhaol ar eu siwrnai tuag at neu i gyflogaeth – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 81%<br>Da<br>Gwaeth | 82%<br>Da<br>Gwell | 82%<br>Da<br>Yr un fath | 82%<br>Da<br>Yr un fath | 90%<br>Rhagorol<br>Gwell |

## Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran y plant sy'n mynd i'r feithrinfa sydd wedi derbyn proffil 'Me in a Nutshell' gan Weithwyr Cyswllt Teulu, er mwyn cefnogi pontio effeithiol – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 81%<br>Rhagorol | 82%<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Canran y rhieni sydd wedi adrodd am effaith gadarnhaol mynychu Dechrau Da / Amser Rhigwm – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 99%<br>Rhagorol |
| Canran y rhieni sy'n cymryd camau cadarnhaol gan fynychu digwyddiadau dysgu strwythuredig trwy Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 53%<br>Derbyniol | 58%<br>Da<br>Gwell |
| *Llinyn(nau) mesur cyrhaeddiad i'w pennu* | *Dim data* | *Dim data* |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Covid-19 | 90.8%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth (na 2019) |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Covid-19 | 86%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth (na 2019) |
| Canran y disgyblion sydd wedi ymgysylltu trwy 'Llwybrau' sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys cymwysterau lefel 1 neu lefel 2 – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 88%<br>Derbyniol |
| Nifer yr ysgolion sy'n darparu addysg drwy addasrwydd a chategorïau cyflwr C a D – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 27<br>Rhagorol<br>Yr un fath | 27<br>Rhagorol<br>Yr un fath |

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran yr ysgolion sy’n gallu cynnal gweithgareddau sy’n canolbwyntio ar y gymuned – **wedi’i feincnodi’n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | Aros am ddata |
| Canran y Disgyblion sy’n Gadael Blwyddyn 11 mewn ysgolion, nad ydynt mewn Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant (NEET), ar y 31 Awst blaenorol yn Sir Ddinbych – **wedi’i feincnodi’n genedlaethol** | 1.7% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath | 2.3% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth |
| Canran y disgyblion Blwyddyn 11 nad oes ganddynt lwybr ôl-16 penodol yn ei le – **wedi’i feincnodi’n lleol** | 4.14% Blaenoriaeth i Wella | 10.50% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth |
| Canran y plant neu’r bobl ifanc sy’n derbyn gofal sydd â Chynllun Addysg Personol ar waith – **wedi’i feincnodi’n lleol** | 100% Rhagorol | 96% Da Gwaeth |
| Canran y Cynlluniau Llwybr Gadael Gofal cychwynnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn o fewn yr amserlenni statudol, ble mae gan y person ifanc statws gadael gofal - **wedi’i feincnodi yn lleol** | 20% Blaenoriaeth i Wella | 71% Blaenoriaeth i Wella Gwell |
| Cyfanswm nifer y bobl sy’n gadael gofal yng nghategorïau 2, 3 a 4 sydd wedi bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth am 3 mis yn olynol yn y 13-24 mis ers gadael gofal - **Cyfrif yn Unig** | 5 | 7 |

## Arolwg Budd-ddeiliaid 2022 i 2023

Rydym wedi diwygio sut yr ydym yn dadansoddi ymatebion i’r Arolwg Budd-ddeiliaid i gynnwys statws ar gyfer y rhai sydd wedi mynegi safbwynt ac yn cytuno (yn flaenorol roeddem yn cynnwys ymatebion “Ddim yn gwybod” a “Dim barn neu’n ansicr” yn ein dadansoddiad).

| Teitl | Cytuno | Anghytuno | Dim barn neu’n ansicr | Gyda barn, a chytuno |
|---|---|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy’n cytuno bod dysgu a hyfforddiant o ansawdd da ar gael yn Sir Ddinbych, gan ganiatáu i bobl o | 48% | 30% | 22% | 62% Derbyniol |

| Teitl | Cytuno | Anghytuno | Dim barn neu'n ansicr | Gyda barn, a chytuno |
|---|---|---|---|---|
| bob oed gyrraedd eu potensial personol a phroffesiynol – **wedi'i feincnodi'n lleol** | | | | |

**Llinynnau Mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru**

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi'n anaml - bob pedair i bum mlynedd - gyda'r data diweddaraf sydd ar gael yn deillio o 2019. Oni bai bod data newydd yn cael ei gyhoeddi, ni fyddwn yn gwneud sylwadau ar ddata MALIC, ond byddwn yn cadw'r llinynnau mesur yn yr adroddiad hwn gan eu bod nhw'n rhoi cyd-destun pwysig ac yn helpu i lywio statws cyffredinol ein llinynnau mesur ar gyfer pob thema. Disgwylir y wybodaeth ddiweddaraf am MALIC gan Lywodraeth Cymru ddiwedd 2025 neu yn gynnar yn 2026.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Addysg (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 9%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 9%<br>Derbyniol<br>Yr un fath |
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Cyflogaeth (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 12%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth | 12%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yr un fath |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiectau

Mae yna un ar bymtheg o brosiectau a gweithgareddau o dan y thema hon. Mae wyth ohonynt 'Ar y trywydd iawn' ac mae pump ohonynt yn 'Profi Rhwystrau'. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Rhaglen Moderneiddio Addysg 'Mewn Perygl'. Mae prosiect newydd ar gyfer Rhaglen Strategol Sir Ddinbych yn Gweithio (Prosiect Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU) ar y cam briff prosiect ar hyn o bryd.

**Prosiectau neu Weithgareddau**

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Gweithredu Platfform Digidol Cynnig Gofal Plant Cymru | Wedi'i gwblhau | Dim eithriad |
| Ehangu Dechrau'n Deg | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Ail-gomisiynu Teuluoedd yn Gyntaf | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Cefnogi'r prosiect rhanbarthol ar y fframwaith Iechyd Emosiynol, Lles a Gwydnwch, a fydd yn darparu adnoddau i rieni | Profi Rhwystrau | Mater o ran capasiti – i'w drafod â'r prif reolwr addysg newydd. |
| Adolygu'r ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar yng nghyd-destun cyllid Trawsnewid Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru a'r rhaglen Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Nid oes unrhyw gynnydd o hyd oherwydd y galw presennol a diffyg capasiti staff. |
| Creu swyddi newydd yn Nhimau Gofal Plant a Datblygiad Iaith Cynnar Dechrau'n Deg o fis Ionawr 2023, er mwyn cefnogi'r gwaith o ehangu Gofal Plant Dechrau'n Deg | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Mewn partneriaeth â GwE, cefnogi ysgolion a lleoliadau nas cynhelir i gyflwyno'r Cwricwlwm Newydd i Gymru, er mwyn sicrhau bod ein dysgwyr yn datblygu i fod yn oedolion galluog, uchelgeisiol, mentrus, moesegol, iach a hyderus. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gweithredu gofynion y Ddeddf Diwygio ADY o fewn y Gwasanaethau Plant ac Addysg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Cyflwyno Canllawiau Gwella Ysgol: Fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Cefnogi ysgolion i ddatblygu cymhwysedd digidol trwy arweinyddiaeth addysgol y prosiect EdTech | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |

| | | |
|---|---|---|
| Rhaglen Moderneiddio Addysg | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Mae sawl peth wedi effeithio ar ddatblygiad prosiectau Band B. Mae gwaith dichonoldeb helaeth wedi parhau ar safleoedd ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn (sydd hefyd wedi gohirio prosiect Ysgol Uwchradd Dinbych) ac ar gyfer Ysgol Pendref. Mae trafodaethau ar safleoedd a ffefrir wedi symud ymlaen yn awr er mwyn gallu parhau â'r prosiectau hyn. Roedd cynllun Ysgol Bryn Collen ac Ysgol Gwernant ar y rhestr fer ond yn aflwyddiannus yn eu cais i Lywodraeth Cymru fel rhan o Her Ysgolion Cynaliadwy. Mae briff dylunio diwygiedig yn seiliedig ar gapasiti llai wedi'i baratoi a bydd yn cael ei ddatblygu yn yr hydref.<br><br>Mae rhan fewnol Canolfan y Dderwen wedi'i gwblhau'n awr gyda'r gwaith allanol i'w gwblhau erbyn diwedd mis Medi.<br><br>Derbyniwyd cymeradwyaeth ar gyfer trosglwyddiad i symud ymlaen â phrosiect Twm o'r Nant, ac mae contractwr wedi'i benodi, gyda'r gwaith yn dechrau yn yr hydref.<br><br>Mae'r prosiect yn Ysgol Dewi Sant wedi'i ohirio o hyd oherwydd problemau draeniau. Y terfyn amser er mwyn cwblhau'r gwaith draenio yw oddeutu 30 mis, gan olygu nad oes modd symud ymlaen o fewn y rownd nesaf o gyllid. |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| | | Mae achosion busnes yn cael eu paratoi ar gyfer tri phrosiect gofal plant newydd (Ysgol y Llys, Clawdd Offa, Rhuthun) a phum prosiect cyfalaf cyfrwng Cymraeg. |
| Ysgolion Bro: Peilot Ysgol Uwchradd Prestatyn | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Ymgysylltu â Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod y sgiliau a'r hyfforddiant sydd ar gael trwy ein Polisi Buddion Cymunedol yn addas ar gyfer y dyfodol a / neu'n drosglwyddadwy. | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Bu peth oedi gan nad yw'r canllawiau statudol a'r cymalau cymdeithasol ar waith eto. Rydym yn gweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r canllawiau statudol a fydd yn llywio'r Offeryn Statudol ac yn cefnogi'r Ddeddf newydd. Mae'r Strategaeth Gaffael newydd wedi'i chymeradwyo a'r cynlluniau yn eu lle i gynnwys caffael yn ymgyrch Mis Mawrth Menter 2024. |
| Trwy ein Polisi Buddion Cymunedol, sicrhau gweithdai strategaeth dan arweiniad busnes er budd preswylwyr sy'n ceisio datblygu eu sgiliau | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Effeithir ar hyn hefyd gan ganllawiau statudol a chymalau cymdeithasol nad ydynt ar waith eto. Mae Balfour Beatty wedi cytuno i ddarparu gweithdai. Gellir canfod yr holl wybodaeth ddiweddaraf yn ein hadran llywodraethu ar gaffael. |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Datblygu systemau perfformiad a monitro ar gyfer y contract cefnogi Llety Brys Dros Dro wrth iddo ddatblygu, a fydd yn cynnwys sgiliau a buddion bywyd, hamdden a chyflogadwyedd amrywiol. | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae'r ystadegau yn cael eu hadolygu ond mae rhai dangosyddion perfformiad allweddol nad oes modd eu mesur.<br>Rydym yn gweithio'n agos gyda'r prosiect i sicrhau y gallwn fonitro perfformiad drwy grwpiau llywio a grwpiau gweithredol.<br>Mae dangosfwrdd perfformiad y Tîm Atal Digartrefedd yn parhau i fonitro ystadegau ar draws y gwasanaeth i sicrhau y gallwn ddeall lle y mae prosiectau'n cael effaith a lle y mae angen mwy o ffocws yn unol ag Ailgartrefu Cyflym. |
| Newydd: Rhaglen Strategol Sir Ddinbych yn Gweithio (Darpariaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU) | Ar y cam briff prosiect | Mae hyn wedi'i effeithio gan yr oedi o ran cadarnhau arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae hyn yn golygu nad oedd staff yn eu lle ac nad oedd cyllidebau ar gael yn ystod 2 chwarter cyntaf y flwyddyn, gan effeithio ar ddarpariaeth. Yn y cyfnod adrodd nesaf, byddwn yn gallu rhoi asesiad i weld a oes modd parhau i ddarparu'r prosiect gan mai dim ond am oddeutu hanner yr amser a gynlluniwyd yn wreiddiol y bydd y cyllid ar gael. |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Ym mis Medi, cadarnhaodd Cyngor Sir Ddinbych i staff ysgolion, rhieni a llywodraethwyr eu bod wedi cymryd camau i gadarnhau cadernid strwythurol yr adeiladau yn sgil pryder cenedlaethol ynglŷn â'r defnydd o Goncrit Awyredig Awtoclafiedig Cydnerth (RAAC) mewn

adeiladau cyhoeddus. Roedd arolygon wedi'u cwblhau yn 2021 mewn ymateb i'r mater a godwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol. Ar ôl adolygu'r rhain, yr unig safle ysgol a nodwyd oedd gyda phlanciau RAAC oedd Ysgol Trefnant. Ond, mae'r syrfewyr wedi nodi eu bod mewn cyflwr sefydlog a derbyniol. Caewyd yr ysgol am ddiwrnod ym mis Medi i gynnal archwiliadau pellach. Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cynnal adolygiad o'r wybodaeth sydd ganddo eisoes i benderfynu a oes angen adolygiad pellach ac i hysbysu unrhyw brosesau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Gweler ein hadran lywodraethu am ein hasedau.

Lansiwyd ymgyrch newydd i annog pobl i wneud cais am rôl llywodraethwr ysgol ym mis Gorffennaf. Mae ysgolion ar draws y sir yn chwilio am wirfoddolwyr i fod yn rhan o'r tîm llywodraethu gydag ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cyfle i ddefnyddio eu sgiliau a'u profiad i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl ifanc. Bydd cyflwyniad sefydlu a hyfforddiant ar-lein yn cael eu darparu. Gellir canfod rhagor o wybodaeth a chanllawiau ar sut i wneud cais i fod yn llywodraethwyr ysgol ar wefan y Cyngor.

Dros yr Haf, creodd Tîm Sir Ddinbych yn Gweithio, Cyngor Sir Ddinbych ffilm fer newydd yn dathlu'r unigolion y maent yn eu cefnogi a gwaith y sefydliad. Darparwyd offer ffilmio a golygu proffesiynol gan elusen celfyddydau a chyfryngau, TAPE. Roedd y prosiect yn rhoi cyfle i ddarpar wneuthurwyr ffilmiau rannu eu syniadau a chymryd rhan mewn cyfle cyffrous i gael profiad o weithio yn y diwydiannau creadigol, a allai arwain at gyfleoedd eraill yn y dyfodol. Bydd y ffilm yn cael ei defnyddio yn ddiweddarach yn neunyddiau hyrwyddo Sir Ddinbych yn Gweithio yn y dyfodol.

## Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

### Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Corfforaethol

#### Cynnal rhwydwaith ffyrdd o ansawdd uchel

Cyhoeddwyd ein data cyflwr ffyrdd blynyddol ar gyfer 2022 i 2023 ar gyfer ffyrdd dosbarth A, B a C yn ein hadroddiad o fis Ebrill i fis Gorffennaf. Rydym wedi cwblhau ein rhaglen Gwella Arwynebau Ffyrdd flynyddol ar gyfer nifer o ffyrdd blaenoriaeth uchel, lle bo hyn yn cynrychioli'r dull mwyaf cost effeithlon o ymestyn oes y ffordd. Mae ein Rhaglen Gwella Arwynebau Ffyrdd flynyddol arall ar nifer o ffyrdd ar draws y sir lle bo'r arwyneb wedi dod i ddiwedd ei oes yn parhau ac rydym ar y trywydd cywir i ddarparu'r rhaglen 2023-2024 sy'n weddill.

Drwy gydol mis Medi cynhaliwyd gwaith cynnal a chadw cylchol ar nifer o'n ffyrdd a oedd yn cynnwys torri gwair, codi sbwriel, glanhau draeniau a gwaith goleuadau stryd. Gosodwyd arwyddion i roi rhybudd ymlaen llaw ac anfonwyd llythyrau i'r eiddo cyfagos i roi gwybod i'r preswylwyr am y gwaith.

Cyfartaledd canran y ffyrdd a phalmentydd a ddifrodwyd a wnaed yn ddiogel o fewn y cyfnod targed (CAT1 – Diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn y terfynau amser) rhwng mis Gorffennaf a mis Medi oedd 23.33% ac mae'n parhau i fod yn 'Flaenoriaeth i wella' ac yn faes sy'n peri pryder. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n galed i wella perfformiad yn y maes.

Mae trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid i ddarparu'r dewis mwyaf hyfyw ar gyfer ailosod Pont Llannerch. Maent eisoes yn ein cefnogi i gyllido dyluniad manwl y broses, sydd wedi dechrau yn awr, ond bydd angen ceisio rhagor o gyllid ar gyfer y cam adeiladu.

Gyda therfyn cyflymder 20mya Llywodraeth Cymru yn dod i rym o 17 Medi, ymgynghorwyd â'r cyhoedd ehangach gyda'r cynnig i gadw 5 ffordd yn y sir yn 30mya.

**Drwy weithio drwy'r corff rhanbarthol, ac o fewn cyd-destun Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, byddwn yn galluogi pobl i gael mynediad at addysg, cyflogaeth, gwasanaethau a gweithgareddau.**

Mae'r prosiect i Ddatblygu Cynllun Cludiant Cynaliadwy wedi datblygu llinynnau mesur blynyddol a chwarterol i'w cynnwys o dan y thema hon, mae'r Tîm yn casglu data gwaelodlin ar gyfer y llinynnau mesur hyn, ac fe fyddant yn cael eu cynnwys pan fyddant ar gael.

Ym mis Gorffennaf 2023, mewn partneriaeth gyda Thrafnidiaeth Cymru rydym wedi ymestyn y cynllun Fflecsi presennol (cludiant cyhoeddus yn ymateb i'r galw) ar draws Dinbych drwy gyflwyno ail gerbyd trydan, bws micro EV E-NV200 Nissan Dynamo sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Bydd hyn yn rhoi gwell ystod o leoliadau casglu a gollwng ar draws llwybr 77 Dinbych ac yn ymestyn cwmpas cludiant cyhoeddus ar gyfer cymunedau Sir Ddinbych yn ardal Nantglyn, Prion, Peniel, Saron, Tremeirchion a Rhuallt.

Roeddem eisiau i bobl fwynhau atyniadau gwych Llangollen a'r ardal gyfagos ac yn ystod yr haf bu i ni gydweithio gyda'r heddlu i reoli a hyrwyddo parcio'n ddiogel a chyfrifol. Roeddem hefyd yn annog ymwelwyr i arbed lleoedd parcio ar ddyddiau Sadwrn drwy ddefnyddio gwasanaeth Bws Darluniadwy Dyffryn Dyfrdwy (a fydd yn teithio tan 4 Tachwedd, 2023) sy'n darparu llwybr cylchol, yn cysylltu Llangollen a'r pentrefi cyfagos â Rhaeadr y Bedol ac atyniadau poblogaidd lleol gan gynnwys Traphont Ddŵr Pontcysyllte, Gwarchodfa Natur Wenffrwd, Abaty Glyn y Groes, Tŷ Hanesyddol Plas Newydd a Bwlch yr Oernant.

Rydym yn gweithio gyda Sustrans Cymru i ddeall sut i wneud teithio llesol yn yr ardal leol yn fwy hygyrch, diogel a rhoi mwy o fwynhad i'r gymuned gyfan, gan annog mwy o deithiau ar droed neu ar feic yn lle mewn ceir. Ar 26 Medi, lansiwyd arolwg ar welliannau yn y dyfodol ar gyfer cerdded, beicio a theithio ar olwynion o amgylch Ysgol y Castell yn Rhuddlan.

Bydd tri phrosiect Cronfa Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd yn cefnogi'r addewid, ac mae'r Timau Prosiect yn cael eu sefydlu ar hyn o bryd- gyda dyddiad cyflawni disgwyliedig ym mis Mawrth 2025. Bydd prosiect Sgwâr Sant Pedr yn darparu cynllun o welliannau i'r parth cyhoeddus i wella llif cerddwyr a thraffig o amgylch y sgwâr a hwyluso lle canolog mwy hyblyg i gynnal digwyddiadau. Bydd prosiect Cae Ddôl Rhuthun yn gwella cysylltedd drwy'r parc a rhwng y parc a chanol y dref. Bydd y prosiect i wella Llwybrau Beicio a

Chyfleusterau Moel Famau yn golygu y bydd gwell cyfleusterau toiled a lluniaeth, gyda llwybrau beicio hirach ac sy'n cael eu rheoli'n gynaliadwy.

**Cefnogi isadeiledd gwyrdd ein sir.**

O ganlyniad i gyllid gan Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, bydd gwelliannau i faes parcio Lôn Las Corwen o fantais i breswylwyr ac ymwelwyr drwy osod pum pwynt gwefru cerbydau trydan ar y safle. Bydd rhagor o welliannau'n cael eu gwneud ar y safle gan ddechrau'n mis Medi gan gynnwys adnewyddu'r bloc toiledau, gwaith arwyddion, cilfan fysiau newydd a marciau cysylltiedig. Roedd hyn yn cynyddu nifer ein pwyntiau gwefru ar draws y sir i 80.

Cafwyd cyfle hefyd i dynnu sylw at y cynnydd mewn rhwydwaith o wefrwyr cyn Gŵyl y Banc mis Awst i berchnogion cerbydau trydan lleol a thu hwnt o ran eu hargaeledd ar draws y sir i gefnogi ymweliadau i atyniadau twristaidd, digwyddiadau a busnesau.

Ym mis Awst, yn dilyn proses ymgynghori cyhoeddus helaeth i sicrhau bod y cynlluniau terfynol ar gyfer prosiect 4 Priffordd Fawr Llangollen ( sydd hefyd wedi'i ariannu gan y gronfa Ffyniant Bro), yn adlewyrchu syniadaeth leol, roeddem yn falch o fod wedi dechrau'r broses dendro i ganfod contractwr i gwblhau'r gwaith gyda'r nod o benodi un ar ddechrau neu ganol mis Medi. Nod y prosiect yw gwella'r dirwedd a gwella hygyrchedd, dehongliad ac arwyddion yn Llangollen. Mae'n bwysig i ni sicrhau bod yr arwyddion yn yr ardal yn adlewyrchu sut mae pobl leol yn dymuno portreadu'r ardal ac fe geisir adborth pobl ar y dewis a ffefrir o ran dewisiadau dylunio ar gyfer dehongliad ac arwyddion cyfeirio newydd a fydd yn cael eu gosod gyda'r dyddiad cau o 8 Hydref.

**Cefnogi cymunedau gyda gwell sgiliau a rhwydweithiau digidol.**

Gyda mynediad at y rhyngrwyd yn rhan allweddol o fywyd bob dydd erbyn hyn, gyda sawl gwasanaeth a chynllun allweddol yn symud i fod ar-lein, roeddem yn annog unrhyw un a oedd angen cefnogaeth gyda hyn i gysylltu neu ymweld â'u llyfrgell leol i gael rhagor o wybodaeth. Rydym wedi bod yn gweithio gyda Good Things Foundation, i ddosbarthu cardiau SIM a data symudol am ddim i bobl leol sy'n byw mewn tlodi data drwy'r Cynllun Banc Data Cenedlaethol yn Llyfrgelloedd Sir Ddinbych.

Mae gwasanaethau teleofal yn cael eu digideiddio i baratoi at ddiwedd gwasanaethau analog yn 2025. Mae'r thema'n cynnwys gweithgaredd sy'n adrodd cynnydd tuag at gyflawni digideiddio, ac roeddem wedi bwriadu cyflwyno llinyn mesur ar gyfer y

gwasanaeth digidol newydd.  Ond nid yw'r llinyn mesur yn ofynnol mwyach ac mae wedi'i ddiddymu.

Ar gyfer rhagor o linynnau mesur a gweithgareddau i gefnogi sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth, ewch i'n thema dysgu a thyfu.

### Hyrwyddo lles personol a chymunedol

Mae'r thema hon hefyd yn cynnwys llinynnau mesur sy'n ymwneud â lles personol a chymunedol.  Mae ein Tîm Gwydnwch Cymunedol wedi gweld cynnydd graddol yn nifer y prosiectau neu grwpiau a gefnogir.  Yn y cyfnod hwn cefnogwyd 73 o grwpiau a phrosiectau a oedd yn cynnwys 36 ymholiad newydd a 37 yn derbyn cefnogaeth barhaus o'r cyfnod adrodd blaenorol.

Mae prosiect Ffyniant Bro Canolbwynt Cymunedol Gwyddelwern wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.  Bydd y prosiect, gyda dyddiad cwblhau disgwyliedig o fis Mawrth 2025, yn darparu canolbwynt cymunedol effeithlon o ran ynni i gynyddu'r ystod o gyfleusterau sydd ar gael yn y pentref.

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol:  Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

O fewn y thema hon, mae nifer o linynnau mesur wedi'u meincnodi'n genedlaethol sy'n rhoi syniad o berfformiad o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.  Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau sy'n cefnogi lles, gweler ein thema Sir Ddinbych Iachach, Hapusach a Gofalus; am weithgarwch ysgolion bro a datblygu cymhwysedd digidol, gweler ein thema Sir Ddinbych sy'n Dysgu a Thyfu.

### Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 | Chwarter 2 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ar gyfartaledd, canran y ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi a wnaed yn ddiogel o fewn yr amser targed yn y flwyddyn hyd yma (CAT1 - diffygion Categori 1 a gafodd eu | 18% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath | 16% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 16% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath | 29% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 23.33% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth |

| Teitl | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 | Chwarter 2 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| trin o fewn y terfynau amser) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | | | | | |
| Nifer y projectau neu grwpiau a gefnogwyd gan y Tîm Gwydnwch Cymunedol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 55<br>Da<br>Gwell | 53<br>Da<br>Gwaeth | 61<br>Rhagorol<br>Gwell | 78<br>Rhagorol<br>Gwell | 73<br>Rhagorol<br>Gwaeth |
| Nifer y tenantiaid sy'n cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol –**Cyfrif yn Unig** | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 |
| Nifer y teithiau yn defnyddio gwasanaethau bws Fflecsi | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Aros am ddata |
| Nifer y teithiau ar fysiau gwasanaeth | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Aros am ddata |
| Nifer y teithiau consesiwn ar fysiau gwasanaeth | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Aros am ddata |

### Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Nifer y teithiau beic y flwyddyn ar lwybrau Teithio Llesol (Sampl) | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | Data gwaelodlin yn cael ei sefydlu |
| Nifer y teithiau ar droed y flwyddyn ar lwybrau Teithio Llesol (Sampl) | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | Data gwaelodlin yn cael ei sefydlu |
| Canran y prif ffyrdd dosbarth A sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 2.6%<br>Rhagorol<br>Gwell | 2.2%<br>Rhagorol<br>Gwell |

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran y ffyrdd llai/ dosbarth B sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 3.8%<br>Rhagorol<br>Gwell | 3.5%<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Canran y ffyrdd llai/ dosbarth C sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 7.5%<br>Rhagorol<br>Gwell | 16.4%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Canran yr eiddo sy'n derbyn llai na 30Mbps - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. | 4.57% |
| Canran yr eiddo sy'n derbyn llai na 10Mbps - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. | 2.88% |
| Canran y defnyddwyr llyfrgell sy'n dweud bod defnyddio'r llyfrgell wedi cael effaith gadarnhaol ar eu sgiliau digidol a'u hyder - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 65%<br>Da |
| Canran y bobl a wnaeth fenthyg dyfais ddigidol o lyfrgell a ddywedodd ei bod wedi cael effaith gadarnhaol ar eu sgiliau digidol a'u hyder - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 |
| Nifer y prosiectau cymunedol a grëwyd ar y cyd â'r gymuned a'r trydydd sector - **Cyfrif yn Unig** | 7 | 7 |
| Nifer yr oriau gwirfoddol yn cefnogi gweithgarwch datblygu a gwydnwch cymunedol - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. | 700 (amcangyfrif) |
| Nifer y cysylltiadau a ddarparwyd trwy wasanaeth gwirfoddol Ar Ymyl Gofal y Cyngor - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 795 |

### Arolwg Budd-ddeiliaid 2022 i 2023

Rydym wedi diwygio sut yr ydym yn dadansoddi ymatebion i'r Arolwg Budd-ddeiliaid i gynnwys statws ar gyfer y rhai sydd wedi mynegi safbwynt ac yn cytuno (yn flaenorol roeddem yn cynnwys ymatebion "Ddim yn gwybod" a "Dim barn neu'n ansicr" yn ein dadansoddiad).

| **Teitl** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Dim barn neu'n ansicr** | **Gyda barn, a chytuno** |
|---|---|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod gan Sir Ddinbych isadeiledd cludiant a ffyrdd i gefnogi cymunedau ffyniannus, cydlynol, sydd wedi cysylltu'n dda – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 30% | 65% | 5% | 31% Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n credu bod gan Sir Ddinbych seilwaith digidol (megis cysylltedd band eang da, signal ffôn symudol neu ryngrwyd symudol da) i gefnogi cymunedau ffyniannus, cydlynol, sydd wedi cysylltu'n dda – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 49% | 45% | 6% | 52.2% Derbyniol |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n credu bod gan Sir Ddinbych yr isadeiledd cymdeithasol sydd ei angen i gefnogi lles personol a chymunedol – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 56% | 34% | 10% | 62% Derbyniol |

## Llinynnau Mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi'n anaml - bob pedair i bum mlynedd - gyda'r data diweddaraf sydd ar gael yn deillio o 2019. Oni bai bod data newydd yn cael ei gyhoeddi, ni fyddwn yn gwneud sylwadau ar ddata MALIC, ond byddwn yn cadw'r llinynnau mesur yn yr adroddiad hwn gan eu bod nhw'n rhoi cyd-destun pwysig ac yn helpu i lywio statws cyffredinol ein llinynnau mesur ar gyfer pob thema. Disgwylir y wybodaeth ddiweddaraf am MALIC gan Lywodraeth Cymru ddiwedd 2025 neu yn gynnar yn 2026.

| **Teitl** | **2014** | **2019** |
|---|---|---|
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Mynediad at Wasanaethau (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 14% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath | 14% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol:  Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiectau

### Prosiectau neu Weithgareddau

Mae'r thema hon yn cynnwys 18 o brosiectau a gweithgareddau.  Mae wyth ohonynt 'Ar y trywydd iawn', tri yn 'Profi rhwystrau', pump yn cael eu datblygu a dau wedi'u cwblhau yn awr.

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Gweithredu rhaglen flynyddol ar gyfer rhoi wyneb newydd ar nifer o ffyrdd ar draws y sir sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Gweithredu rhaglen Gwella Arwynebau Ffyrdd flynyddol ar gyfer nifer o ffyrdd blaenoriaeth uchel, lle bo hyn yn cynrychioli'r dull mwyaf cost effeithlon o ymestyn oes y ffordd. | Cwblhawyd | Dim eithriad |
| Anelu i gyflawni'r dull mwyaf hyfyw ar gyfer ailosod Pont Llannerch. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol newydd | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn canolbwyntio ar sefydlu trefniadau llywodraethu priodol cyn symud ymlaen i'w cyflwyno. |
| Adolygu, datblygu a moderneiddio gwasanaethau cludiant gwledig, trefol a rhyng-drefol, lle bo'n briodol, gan weithio gyda phartneriaid ar y prosiect Metro ac ochr yn ochr â'r gwaith sydd ar y gweill i ddiwygio gwasanaethau bws. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Llunio Cynllun Cludiant Cynaliadwy (yn cynnwys Teithio Llesol) | Ar y cam achos busnes | Dim eithriad |
| Pedair Priffordd Fawr (Rownd 2 Ffyniant Bro De Clwyd) | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Wenffrwd (Rownd 2 Ffyniant Bro De Clwyd) | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Llwybr Teithio Llesol Corwen i Gynwyd. Cam 1 (Rownd 2 Ffyniant Bro De Clwyd) | Ar y cam briff prosiect | Dim eithriad |
| 2a cyfleusterau ymwelwyr a llwybrau beicio newydd parc gwledig Moel Famau (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Ar y cam briff prosiect | Dim eithriad |
| 1a Sgwâr Sant Pedr (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Ar y cam briff prosiect | Dim eithriad |
| Maes Parcio Lôn Las Corwen (Rownd 2 Ffyniant Bro De Clwyd) | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| 2d Canolbwynt Cymunedol Gwyddelwern (Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Ar y cam achos busnes | Dim eithriad |
| Gwaith modelu traffig a dylunio gwaith gwella traffig | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae'r prosiect wedi'i ohirio wrth geisio cyllid i symud ymlaen neu ddatblygu ymhellach. |
| Isadeiledd Cerbydau Trydan - Pwyntiau Gwefru Cyhoeddus | Cwblhawyd | Nid yw dau safle ar agor eto. |
| Symud ymlaen at ddigideiddio gwasanaethau teleofal cyn y terfyn amser yn 2025 ar gyfer dod â gwasanaethau ffôn analog i ben. | Profi Rhwystrau | Bydd gwerthusiad clir o'r dewisiadau yn caniatáu gwneud penderfyniadau er mwyn symud ymlaen. |
| Llunio cynllun gweithredu gwydnwch cymunedol | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Disodli ein seilwaith wrth gefn presennol i ddileu dibyniaeth ar dechnoleg o'r gorffennol a gwella gwydnwch. | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |

## Sir Ddinbych mwy gwyrdd

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

### Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Corfforaethol

**Cyflawni ein Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol i ddod yn gyngor ecolegol gadarnhaol a di-garbon net erbyn 2030.**

Bydd Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych (2021-2022 a 2029-2030) yn cael ei hadolygu a'i hadnewyddu bob tair blynedd. Cynhelir yr adnewyddiad a'r adolygiad swyddogol cyntaf o'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol eleni, 2023-2024. Ni fydd y gwaith o gyflwyno'r strategaeth yn cael ei atal tra cynhelir yr adolygiad hwn; mae'r gwaith yn parhau ochr yn ochr â'r adolygiad i gyflawni Cyngor Ecolegol Gadarnhaol a Di-garbon Net a lleihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi.

Mae sicrhau bod y strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol, yn gyfredol ac yn cael ei defnyddio, yn allweddol o ran cefnogi datganiad Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol y Cyngor (2019) a oedd yn ymrwymo'r Cyngor i ddod yn Ddi-garbon Net erbyn 2030 a gwella bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych.

Mae yna nifer o fesuryddion perfformiad blynyddol allweddol yn cael eu defnyddio i farnu perfformiad y Cyngor o ran cyflawni ei nodau ar gyfer 2030, gan gynnwys: lleihau'r allyriadau carbon mae'r Cyngor yn eu rhyddhau o ffynonellau amrywiol; cynyddu'r carbon sy'n cael ei ddal a'i storio o dir y mae'r Cyngor yn berchen arno, yn ei brydlesu ac yn ei reoli; a chynyddu cyfoeth y rhywogaethau ar y tir y mae'r Cyngor yn berchen arno, yn ei brydlesu ac yn ei reoli, ac mae pob un ohonynt wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad ar gyfer mis Ionawr i fis Mawrth 2023.

Mae data ar gyfer lleihau tunelli carbon o'n cadwyni cyflenwi ar gyfer 2022 i 2023 i ddod (fel yn y blynyddoedd blaenorol). Mae'r dull o gasglu data yn cael ei ailystyried er mwyn darparu ffigurau blynyddol cywir. Bydd y ffigurau hyn yn cael eu hadrodd cyn gynted ag y byddent ar gael.

Mae modd canfod crynodeb o'r holl waith prosiect a gweithgareddau a ddatblygwyd yn ystod mis Gorffennaf i fis Medi yn ein hadran 'Crynodeb o newyddion'.

## Gwella cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff

Drwy gydol mis Medi, gwahoddwyd plant ysgol i gyflwyno eu henwau creadigol ar gyfer ein 21 o gerbydau ailgylchu newydd, gan gynnwys tri cherbyd trydan yn Gymraeg neu Saesneg. Mae'r fflyd newydd yn disodli'r hen fflyd fel rhan o'r ystod o fesurau yr ydym yn eu cymryd i gyflawni targed ailgylchu'r sir o 70%. Rydym hefyd wedi chwilio am fwy o luniau i'w cynnwys ar y cynllun lliwiau ar gyfer cerbydau yn ein fflyd gwastraff ac ailgylchu gan ffotograffwyr lleol. Rydym eisiau i'n cerbydau newydd ddangos ein balchder yn y sir.

## Cefnogi cymunedau i liniaru ac ymdopi ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd

Mae'r ddau Gynllun Gwella Amddiffynfeydd Arfordirol ar gyfer Canol y Rhyl a Chanol Prestatyn yn parhau 'Ar y trywydd iawn'. Mae'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd ar gyfer Sir Ddinbych yn y camau cynnar ar hyn o bryd, gyda chyfarfod y Grŵp Tasg a Gorffen gydag Aelodau enwebedig i ddod ddiwedd mis Hydref i drafod drafft cychwynnol y strategaeth.

Ar ddechrau mis Gorffennaf, yn dilyn gosod y giatiau diogelwch newydd, ail-agorwyd rhan o'r promenâd a oedd ar gau rhwng Maes Parcio'r Pafiliwn a'r Old Golf Road er mwyn cyflawni gwaith amddiffyn yr arfordir, ar benwythnosau. Mae hyn yn caniatáu mynediad heb rwystr i feicwyr a cherddwyr rhwng Splash Point a'r Seaquarium. Ond, bydd angen mynediad i gerbydau trwm ar y promenâd yn ystod yr wythnos, gan gynnwys oriau gweithio yn unol â'r llanw, ac felly bydd y giatiau ar gau o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Bydd prosiect Cronfa Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd yn Loggerheads yn cyflwyno gwelliannau mewnol i'r adeilad presennol, gydag ardal dan do allanol mwy a mesurau rheoli llifogydd naturiol ychwanegol. Dyddiad cwblhau disgwyliedig y prosiect yw mis Mawrth 2025.

Mae'r addewid hefyd yn cynnwys cefnogi cymunedau i liniaru ac ymdopi ag effaith newid hinsawdd drwy gynyddu nifer y rhandiroedd a chyfleoedd tyfu bwyd cymunedol. Yn ystod y cyfnod, mae staff y Gwasanaethau Cefn Gwlad a gwirfoddolwyr wedi ymuno â Bwyd Bendigedig Dinbych er mwyn helpu i baratoi rhandiroedd sydd wedi cael eu rhoi i'r grŵp ar gyfer plannu a thyfu. Mae'r grŵp yn anelu i dyfu bwyd gyda chymorth gan y gymuned leol, gan ganiatáu i bobl gael mynediad i ffrwythau a llysiau a gynhyrchir yn lleol.

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau sy'n cefnogi mentrau mwy gwyrdd, gweler ein thema Tai ar gyfer effeithlonrwydd ynni ac ein thema Sir Ddinbych sydd wedi Cysylltu'n Well ar gyfer teithio cynaliadwy a phwyntiau gwefru cerbydau trydan.

### Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Di-garbon Net - Cyfanswm y tunelli o garbon sy'n cael ei allyrru a'i amsugno gan y Cyngor (ac eithrio cadwyni cyflenwi) –**wedi'i feincnodi'n lleol** | 12,205<br>Derbyniol<br>Gwaeth | 11,832<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Canran y tir y mae CSDd yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categorïau uchaf o ran cyfoeth rhywogaethau – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 40.62%<br>Derbyniol<br>Gwell | 42.00%<br>Derbyniol<br>Gwell |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru (Corfforaethol) oherwydd y fflyd – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 2,699<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth | 2,302<br>Derbyniol<br>Gwell |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru (Corfforaethol) oherwydd teithio busnes– **wedi'i feincnodi'n lleol** | 163<br>Rhagorol<br>Gwell | 251<br>Rhagorol<br>Gwaeth |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru (Corfforaethol) oherwydd cadwyni cyflenwi– **wedi'i feincnodi'n lleol** | Aros am ddata | Aros am ddata |
| Gallu (mewn MW) y cyfarpar ynni adnewyddadwy a osodwyd yn ein hadeiladau (sy'n eiddo i'r Cyngor ac a weithredir ganddo) - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 1MW |
| Canran y gwastraff trefol a gafodd ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio- **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 67.67%<br>Rhagorol | 65.91%<br>Da<br>Gwaeth |
| Nifer yr eiddo â risg uchel neu ganolig o lifogydd (ar draws CSDd) - **Cyfrif yn Unig** | 1,171 | 1,171 |

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Ardal o rostir (grug, eithin a rhedyn) a reolir yn flynyddol – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 20 hectar | 80 hectar<br>Rhagorol<br>Gwell |

### Arolwg Budd-ddeiliaid 2022 i 2023

Rydym wedi diwygio sut yr ydym yn dadansoddi ymatebion i'r Arolwg Budd-ddeiliaid i gynnwys statws ar gyfer y rhai sydd wedi mynegi safbwynt ac yn cytuno (yn flaenorol roeddem yn cynnwys ymatebion "Ddim yn gwybod" a "Dim barn neu'n ansicr" yn ein dadansoddiad).

| Teitl | Cytuno | Anghytuno | Dim barn neu'n ansicr | Gyda barn, a chytuno |
|---|---|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod Sir Ddinbych yn wydn yn erbyn effeithiau newid hinsawdd a dirywiad natur – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 44% | 40% | 16% | 52%<br>Derbyniol |

### Llinynnau Mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi'n anaml - bob pedair i bum mlynedd - gyda'r data diweddaraf sydd ar gael yn deillio o 2019. Oni bai bod data newydd yn cael ei gyhoeddi, ni fyddwn yn gwneud sylwadau ar ddata MALIC, ond byddwn yn cadw'r llinynnau mesur yn yr adroddiad hwn gan eu bod nhw'n rhoi cyd-destun pwysig ac yn helpu i lywio statws cyffredinol ein llinynnau mesur ar gyfer pob thema. Disgwylir y wybodaeth ddiweddaraf am MALIC gan Lywodraeth Cymru ddiwedd 2025 neu yn gynnar yn 2026.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Amgylchedd Ffisegol (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 2%<br>Da<br>Gwell | 2%<br>Da<br>Yr un fath |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiectau

Mae'r thema hon yn cael ei chefnogi gan y Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol drosfwaol 2021-2030 ac 18 o brosiectau a gweithgareddau eraill. Mae wyth 'Ar y Trywydd Iawn', wyth yn 'Profi Rhwystrau' ac un yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae un prosiect 'Mewn Perygl': Ffrwd Gwaith Newid Ymddygiad - Gweithredu ar Newid Hinsawdd ac Adfer Natur. Mae hyn oherwydd adnoddau a chapasiti staff, sy'n effeithio ar gynnydd a darpariaeth y prosiect.

### Prosiectau neu Weithgareddau

| Teitl | Statws | Eithriad |
|---|---|---|
| Rhaglen: Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2021 – 2030 | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Y wybodaeth ddiweddaraf o ran statws yn ystod y flwyddyn 2023-2024: Bydd oedi â chyflawni'r prosiect, gan olygu y bydd oedi o ran gwireddu'r buddion hefyd. |
| Lleihau carbon o adeiladau | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae prosiectau 2023 i 2024 yn debygol o arbed oddeutu 300 tunnell o garbon sy'n llai na'r ffigur targed o oddeutu 660 tunnell y flwyddyn (i ddiwallu 60% o ostyngiad o adeiladau erbyn 2030). O'r prosiectau sydd wedi'u cynllunio, mae paratoadau yn parhau i symud i'r cam darparu. Bu oedi o ran dechrau prosiectau er bod gwaith wedi'i gyflawni yn ystod gwyliau'r ysgol. |
| Cam 2 Cerbydau Trydan y Fflyd Gorfforaethol | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Atafaelu carbon ar ddaliadau tir presennol | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Bydd oedi â'r broses o brynu Moel y Plas a Llys Brenig yn effeithio ar greu coetir. |

| Teitl | Statws | Eithriad |
|---|---|---|
| Prosiect Dolydd Blodau Gwyllt | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae angen cadarnhau dyfodol y prosiect a'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf. |
| Gwarchodfa Natur yn Fferm Green Gates, Llanelwy | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Gallai amcangyfrifon cost newydd, capasiti adnoddau a chyfyngiadau argaeledd, effeithio ar gerrig milltir y prosiect, cyllideb, cwmpas y gwaith ac o bosibl cyllid. |
| Newid ymddygiad er mwyn gweithredu ar newid hinsawdd ac adfer natur | Mewn Perygl<br>Gwaeth | Mae adnoddau a chapasiti staff yn effeithio ar gynnydd a darpariaeth y prosiect. |
| Lleihau carbon trwy gaffael | Ar y trywydd iawn<br>Gwell | Dim eithriad |
| Caffael tir at ddibenion carbon ac ecolegol 2023 i 2024 | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae tri safle yn cael eu prynu ar hyn o bryd ac un safle newydd yn cael ei ystyried fel cyfle posibl. |
| Gwneud gwaith i fynd i'r afael â chlefyd coed ynn, yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar draws y sir. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau yn holl feysydd gwasanaeth ein Cyngor | Profi Rhwystrau | Mae ein Tîm Ecolegol a Bioamrywiaeth yn gweithio'n galed ar draws gwasanaethau'r Cyngor i wella bioamrywiaeth, ond, mae gweithredu unrhyw newid yn cymryd amser. |
| Isadeiledd Gwyrdd yn y Rhyl | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Ailfodelu Gweithrediadau'r Gwasanaeth Gwastraff | Profi Rhwystrau<br>Gwell | Mae gweithrediadau yn yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff Newydd yn amodol ar gymeradwyo trwydded bwrpasol, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2023 i Gyfoeth Naturiol |

| Teitl | Statws | Eithriad |
|---|---|---|
| | | Cymru. Mae'n rhaid cymeradwyo'r drwydded hon cyn gallu newid y gwasanaeth. |
| Byddwn yn gweithio tuag at leihau'r defnydd o blastig o fewn Cyngor Sir Ddinbych, gan gynnwys Arlwyo mewn ysgolion a Chaffael, ynghyd ag unrhyw waith yn y dyfodol (gan gynnwys ei Fodelau Cyflawni Amgen (MCA) megis Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig). | Profi Rhwystrau<br><br>Yr un fath | Rydym yn parhau i chwilio am ddarpariaeth amgen ar gyfer diodydd er mwyn rhoi terfyn i'r defnydd o blastigion defnydd untro. Bu'r cyfnod prawf o werthu diodydd mewn cwpanau ailddefnydd yn aflwyddiannus. |
| Cyflawni prosiectau gwella ac ehangu ar gyfer rhandiroedd Cyngor Sir Ddinbych | Ar y trywydd iawn<br><br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu Strategaeth Llifogydd newydd ar gyfer y sir | Ar y trywydd iawn<br><br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Cynllun Gwella Amddiffyniad Arfordirol Canol Prestatyn | Ar y trywydd iawn<br><br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Cynllun Gwella Amddiffyniad Arfordirol Canol y Rhyl | Ar y trywydd iawn<br><br>Yr un fath | Dim eithriad |
| 2b Cyfleusterau newydd i ymwelwyr a rheoli llifogydd ym mharc gwledig Loggerheads (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Ar y cam briff prosiect | Dim eithriad |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Mae Tîm Ynni Adain Eiddo Cyngor Sir Ddinbych wedi cwblhau dros 90 o fesurau ymarferol mewn 47 o adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor mewn ymgyrch i leihau allyriadau adeiladau. Hyd yma rydym wedi gwella effeithlonrwydd ystod o adeiladau, o ysgolion i ganolfannau hamdden ledled y sir, sydd wedi cynnwys ailosod systemau mecanyddol, gwresogi ac awyru'n gyfan gwbl, addasu rheolyddion gwresogi, systemau adfer gwres,

pympiau gwres, paneli solar, goleuadau LED, storfeydd batri, insiwleiddio atigau a waliau a gostwng allyriadau drwy newid arferion pobl a thrwy'r isadeiledd TGCh. Soniwyd am y gwaith yn Ysgol Dinas Brân yn Nhŷ'r Cyffredin a'i enwebu ar gyfer gwobr genedlaethol.

Yn gynharach eleni bu i'r Tîm Ynni oruchwylio gosod dau bwmp gwres yr awyr yn Ysgol Tir Morfa ac yn ystod gwyliau'r haf cwblhawyd cam 2 drwy osod 2 arae PV solar a storfa batris i'w cynorthwyo i gynhyrchu trydan i bweru'r pympiau a storio unrhyw drydan ychwanegol. Mae'r gwaith yn gostwng biliau tanwydd ond hefyd yn arbed chwe thunnell o allyriadau carbon y flwyddyn. Bydd mwy o waith mewn mwy o ysgolion yn 2023, ynghyd â chynlluniau i gyflwyno newidiadau i adeiladau eraill y Cyngor.

Ym mis Medi, cwblhawyd cam dau'r gwaith i wella effeithlonrwydd ynni yng nghartref gofal Cysgod y Gaer yng Nghorwen. Mae hyn wedi arwain at ddefnyddio llai na thri chwarter o'r ynni a ddefnyddiwyd i gynhesu dŵr yn y gorffennol. Yn ogystal ag effaith y gwaith blaenorol, mae'r defnydd o nwy wedi lleihau o gyfartaledd o 750kwh i 200kwh y dydd. Mae hyn yn ostyngiad pellach o 5 i 6 thunnell o allyriadau carbon y flwyddyn. Mae cyfanswm allyriadau'r cartref gofal ar ôl yr holl waith lleihau carbon yn oddeutu 10 tunnell y flwyddyn yn llai nag oedd.

Ym mis Awst, bu i'r Marine Lake yn y Rhyl gyflawni Gwobr Gymunedol y Faner Werdd am y 12fed flwyddyn yn olynol. Mae Gwobr Gymunedol y Faner Werdd yn cael ei gyflwyno gan yr elusen amgylcheddol Cadwch Gymru'n Daclus a dyma'r meincnod i barciau a mannau gwyrdd sy'n cael eu rheoli gyda chymorth gwirfoddolwyr.

Mae gwirfoddolwyr wedi'u cefnogi gan Natur er Budd Iechyd ynghyd â staff y Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi cwblhau pont newydd yng Ngwarchodfa Natur Pwll Brickfield i alluogi cynefin bywyd gwyllt sydd mawr angen ei ddatblygu. Mae'r bont yn cynorthwyo i fynd â'r llwybr a'r ymwelwyr dros gynefin newydd llygod pengrwn y dŵr, anifail ar restr anifeiliaid mewn perygl y DU. Bu staff Cefn Gwlad a'r gwirfoddolwyr yn gwneud gwaith i adnabod gwyfynod yn y rhandiroedd ger Coed y Morfa, Prestatyn. Mae datblygiadau ar y tir ym Mharc Bodnant ym Mhrestatyn wedi arwain at greu pwll newydd a dosbarth awyr agored newydd, sydd â tho ar gyfer ystlumod i roi gofod i'r mamolyn nosol glwydo. Mae staff cefn gwlad wedi parhau i weithio'n agos gyda Grŵp Ymgynghorol Rheoli Gwarchodfa Natur Rhuddlan ac yn ystod y cyfnod, bu i Warchodfa Natur Rhuddlan ddathlu derbyn Gwobr Ragorol 'Eich Cymdogaeth' eto yn 2023, ochr yn ochr â Thystysgrif Rhagoriaeth

Genedlaethol RHS. Mae gwaith newydd hanfodol ar y gweill i helpu i amddiffyn a chefnogi poblogaeth y gylfinir yn Sir Ddinbych.

Ar ddechrau mis Gorffennaf, bu i ni atgoffa preswylwyr y dylent fod yn ymwybodol o reolau Gorchymyn Diogelu Coed. Mae Gorchmynion Diogelu Coed yn amddiffyn coed rhag cael eu tocio neu eu torri heb awdurdod, ac mae unrhyw un sy'n gwneud gwaith o'r fath ar goeden sydd wedi ei diogelu gan Orchymyn Diogelu Coed yn cyflawni trosedd. Ym mis Awst, lansiwyd apêl i helpu i warchod llinach coed hynafol Sir Ddinbych. Ym mis Gorffennaf, bu i ni ddiolch i gymuned o wirfoddolwyr bywiog sy'n cefnogi y Blanhigfa Goed yn Fferm Green Gates, Llanelwy. Mae'r Blanhigfa Goed wedi rhagori ar ganlyniadau'r llynedd : gan gynhyrchu bron i 8,000 o blanhigion yn ystod y tymor tyfu cyntaf y llynedd; tyfu 13,000 o flodau gwyllt eleni; a chynyddu nifer y coed sydd wedi'u tyfu o 1,000 yn y tymor diwethaf i 11,500 ar gyfer 2023. Ym mis Medi, derbyniodd y Blanhigfa Goed lwythwr Avant trydan a fan drydan i gynorthwyo gyda gwaith llafur yn y blanhigfa a chefnogi darpariaeth allyriadau isel coed a phlanhigion.

Ym mis Awst, cafodd ein Gwasanaethau Cefn Gwlad gefnogaeth gan Gob Sipsi 15 mlwydd oed, Bill, fel dull traddodiadol o ddefnyddio ceffylau i gael coed i'w ddefnyddio yn dilyn gwaith atal clefyd coed ynn ym Mharc Gwledig Loggerheads. Mae'r math yma o reoli coedwigoedd, lle bo ceffylau yn symud coed sydd wedi'u torri i leoliad casglu, yn well o ran carbon ac yn well ar gyfer ecoleg y goedwig. Torrwyd y coed a oedd mewn perygl oherwydd y clefyd yn y parc a bydd y pren dros bren yn cael ei ailddefnyddio i greu meinciau.

Bu i ni ddechrau ar y paratoadau i gyflwyno proses naturiol ar draws wyth o ddolydd blodau gwyllt i reoli hyd glaswellt drwy baratoi'r dolydd er mwyn hadu hadau'r gribell felen. Gyda'r tymor blodau yn dod i ben, dechreuodd ein gwaith cynnal a chadw tymhorol ar gyfer safleoedd dolydd blodau gwyllt ym mis Awst ar draws y sir gydag offer torri gwair arbenigol ar gyfer yr ail doriad, cynhelir y cyntaf ar y dolydd rhwng mis Chwefror a Mawrth bob blwyddyn. Dechreuodd tîm Bioamrywiaeth y Cyngor, gan weithio gyda gwirfoddolwyr a grwpiau ledled y sir, ar raglen o waith plannu a gwella ar draws deg o ddolydd. Yn ddiweddar, ym mis Medi daeth gwirfoddolwyr o grŵp sydd wedi ennill gwobrau, Dinbych yn ei Blodau, i gynorthwyo i ychwanegu mwy o liw ac amrywiaeth i gylchfan yn Ninbych. Rhoddwyd planhigion gan dîm Bioamrywiaeth y Cyngor, sy'n cynnal y blanhigfa goed, gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr Cyfeillion y Ffrith i ddatblygu eu cynwysyddion blodau gwyllt.

Bu i ysgolion barhau â'u rôl bwysig o ofalu am fioamrywiaeth a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, rhwng mis Gorffennaf a mis Medi. Bu i ni dynnu sylw at waith disgyblion yn Ysgol Penmorfa wrth greu amrywiaeth o ardaloedd awyr agored er mwyn i fywyd gwyllt ffynnu. Bu i ddisgyblion Ysgol Caer Drewyn, Corwen a'n tîm Bioamrywiaeth greu dôl blodau gwyllt newydd yng nghornel tir yr ysgol i gynorthwyo natur yn lleol. Bu i'r tîm Cefn Gwlad gefnogi Ysgol Stryd y Rhos drwy gynnal gwaith gosod gwrychoedd traddodiadol ar eu safle. Ym mis Medi, bu i aelodau'r Gwasanaethau Stryd ymuno â Maer Rhuthun ar ymweliad i Ysgol Borthyn.

Ym mis Medi, cynhaliodd Grŵp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwyllt Cymru ynghyd ag Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE) daith gerdded o amgylch ffermydd yng Nghefn-y-fedw, Pen-y-bryn, Pen-y-cae, Wrecsam i dynnu sylw at thema integreiddio cadwraeth o fewn menter ffermio fasnachol.

Ym mis Medi, bu i ni gyflwyno Rhybudd Cosb Benodedig o £250 i unigolyn am dipio anghyfreithlon ar y stryd, gan dorri Adran 33 Deddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990. Mae hyn yn dangos na fyddwn yn goddef ymddygiad o'r fath ac y byddwn yn gweithredu pan fydd yn digwydd.

## Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer Gwella

Prosiectau: Profi Rhwystrau

### Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Corfforaethol

#### Meithrin cydlyniant cymunedol drwy sicrhau fod pobl yn cael eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth a chamfantesio

Adroddodd Heddlu Gogledd Cymru 368 o ddioddefwyr sy'n profi cam-drin domestig yn gyson ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023 (i fyny o 99 rhwng mis Ebrill i fis Mehefin), o gymharu â 266 ar gyfer yr un cyfnod y llynedd. O ran nifer y bobl sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig dro ar ôl tro rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, cofnodwyd 73 troseddwr - i fyny o 6 rhwng mis Ebrill a mis Mehefin. Mae'r cynnydd sylweddol mewn nifer hefyd i'w weld yng ngweddill Gogledd Cymru. Mae angen rhagor o waith i ddeall beth sydd wedi achosi'r newid hwn. Mae'n bwysig nodi bod y modd y cyfrifir data dioddefwyr a throseddwyr dro ar ôl tro yn golygu bod y niferoedd yn debygol o newid gan fod troseddau newydd yn cael eu hychwanegu at y niferoedd, neu wrth i droseddau symud allan o'r cyfnod amser '12 mis diwethaf'. Mae Heddlu Gogledd Cymru hefyd wedi adolygu'r safonau adrodd ar gyfer y data, a'r tueddiadau yr ydym yn eu gweld (h.y. mwy o droseddwyr / dioddefwyr cyson), yn adlewyrchu'r gwelliannau hyn.

Bydd gan ganol tref Dinbych 5 camera TCC newydd ac yn uwchraddio'r rhai presennol fel rhan o gynlluniau i wella diogelwch, gyda chyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. Bydd camerâu ar draws Partneriaeth TCC Sir Ddinbych, cydweithrediad gyda Heddlu Gogledd Cymru a chynghorau tref Prestatyn, Rhuddlan a'r Rhyl, a Dinbych yn fuan, yn elwa o fonitro adweithiol 24 awr.

Mae tîm Safonau Masnach Sir Ddinbych wedi bod yn cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â chynnyrch fêpio nad ydynt yn cydymffurfio yn y sir. Mae'r Cyngor wedi annog perchnogion busnes i fod yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol sydd yn eu lle i ddiogelu iechyd a diogelwch defnyddwyr gan mai cyfrifoldeb perchnogion busnes yw cydymffurfio â'r gyfraith. Mae cyngor ar gael gan y tîm Safonau Masnach. Ym mis Medi, bu i'r tîm rybuddio preswylwyr am fasnachwyr ffug a throseddau stepen drws. Mae gwybodaeth am arferion masnachu cyfreithlon ar stepen drws ar gael yma ar wefan y Cyngor.

## Lleihau anghydraddoldebau

Mae 87% o staff wedi cwblhau modiwl e-ddysgu trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol (nad yw'n orfodol), sy'n 'Dda'.  Mae ein mesurydd o ran canran y staff sydd wedi cwblhau ein modiwl e-ddysgu caethwasiaeth fodern (nad yw'n ofynnol) yn flynyddol, ac rydym wedi adrodd arno'n flaenorol fel 'Blaenoriaeth i Wella'.  Er y bu ychydig o welliant ers mis Mehefin, mae'n parhau i fod yn 'Flaenoriaeth i Wella'.  Mae'r modiwl e-ddysgu'n fwy perthnasol i rai rolau nag eraill, ac mae angen i ni sicrhau bod y staff sydd angen yr hyfforddiant yn derbyn mynediad iddo.  Mae hyn yr un fath ar gyfer e-ddysgu troseddau casineb hefyd.

Mae un gweithgaredd, sef 'Cefnogi amrywiaeth ac ymgysylltiad drwy ymgorffori'r fframwaith ar ddull ysgol gyfan ar gyfer lles emosiynol a meddyliol' yn parhau i fod 'Mewn Perygl'.  Yn dilyn hysbysiad o ostyngiad mewn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith hwn, mae'r tîm yn dilyn dull sydd wedi'i dargedu'n well.  Comisiynwyd nifer o gyrsiau hyfforddiant rhwng mis Gorffennaf a mis Medi er mwyn i ysgolion gael mynediad atynt yn nhymor yr hydref, ac rydym wedi cysylltu â dwy ysgol i dreialu 2 ddyfais benodol a byddwn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhain drwy adroddiadau yn y dyfodol.

Datblygwyd rhestr o gysylltiadau ar gyfer eiriolwyr grwpiau o bobl gyda nodweddion gwarchodedig gyda'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol a bydd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol y Cyngor, er gwybodaeth ac i ystyried sut y dylid hyrwyddo'r rhestr ar draws y sefydliad.

Mae'r Cyngor wedi darparu unedau arddangos cynnyrch mislif mewn argyfwng mewn 15 o leoliadau cyhoeddus ar draws Sir Ddinbych, y gall y cyhoedd gael mynediad iddynt am ddim, drwy gyllid Grant Urddas Mislif Llywodraeth Cymru.

Ym mis Medi, aeth Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol i ymweld â phrosiect Tŷ Pride yn y Rhyl, sy'n cefnogi pobl ifanc LHDTC+ sydd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.  Dyma'r unig le o'r fath yng Nghymru, mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ddinbych, elusen didgartrefedd Llamau, ac elusen Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl a VIVA LHDTC+.

**Lleddfu tlodi**

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, yn ôl y data diweddaraf gan Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd o amddifadedd materol wedi cynyddu o 9.1% yn 2019-2020 i 14.8% yn 2022-2023. Ar sail y dirywiad hwn - gan ddefnyddio ein dull safonol ar gyfer cyfrifo'r hyn a ystyrir fel perfformiad gwael a rhagorol - mae perfformiad yn 'Dderbyniol'. Yn ystod 2022-2023, Castell-nedd Port Talbot oedd â'r ganran uchaf o bobl sy'n byw mewn aelwydydd o amddifadedd materol, sef 21.5% a Sir Fynwy oedd â'r ganran isaf, sef 8.4%.

Roedd 19.3% o blant yn Sir Ddinbych yn byw mewn aelwydydd di-waith yn 2022 ac mae hyn yn 'Flaenoriaeth i wella'. Mae hyn wedi gwella ychydig ers 2021, pan yr oedd 21.1% o blant yn byw mewn aelwydydd di-waith.

Mae'r peilot incwm sylfaenol cenedlaethol wedi dechrau ac mae 100% o bobl ifanc cymwys Sir Ddinbych, sydd â phrofiad o ofal yn cymryd rhan yn y cynllun, a ystyrir yn 'Rhagorol'.

Bu i ni adrodd yn ein hadroddiad diwethaf ein bod wedi gwneud ymholiadau gyda chydweithwyr o Data Cymru am fesuryddion cenedlaethol addas o dlodi tanwydd ar lefel awdurdod lleol; ond, ymddengys nad yw data sy'n cael ei adrodd yn gyson yn bodoli. Rydym yn archwilio a oes unrhyw linynnau mesur lleol yn bodoli neu a allai gael eu casglu'n hawdd.

Ers mis Medi 2022, mae'r cynnig Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd wedi'i gyflwyno yn Sir Ddinbych i ddisgyblion Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Mae cynnig Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd wedi cael ei ymestyn i Flynyddoedd 3 a 4 o fis Medi 2023, a thrwy gyflwyno'r cynllun fesul cam, bydd yr holl ddisgyblion cynradd yn cael cynnig prydau ysgol am ddim erbyn 2024. Mewn ymateb i gyflwyno Cynllun Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Cynradd, mae ysgolion fel Ysgol Crist y Gair yn y Rhyl wedi uwchraddio eu cyfleusterau cinio. Roedd canran y disgyblion cynradd ac uwchradd cymwys a oedd yn cymryd Prydau Ysgol am Ddim yn ystod tymor yr haf 2023 yn 63% a 78% yn y drefn honno.

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi bod yn cydweithio gyda'r Cyngor Dylunio i 'ddylunio'n wahanol' ac i gymryd camau atal i fynd i'r afael â materion fel gwastraff. Fel rhan o'r prosiect, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda ReSource, sy'n gweithredu caffi cymunedol Rhuthun - Seconds. Mae'r caffi'n defnyddio bwyd dros ben lleol i atal gwastraff

bwyd a chadw’r costau’n isel ar gyfer y cwsmeriaid, gan ddangos ymagwedd integredig ar gyfer cefnogi pobl drwy’r argyfwng costau byw tra’n mynd i’r afael â materion hirdymor sy’n effeithio ar y blaned.

Ym mis Gorffennaf, atgoffodd y Cyngor y rhieni a’r gwarcheidwaid bod y Grant Hanfodion Ysgol yn derbyn ceisiadau. I gymhwyso, roedd angen i rieni dderbyn o leiaf un budd-dal, megis cymhorthdal incwm, ond ni ddylent fod yn derbyn Credyd Treth Gwaith yn barod. Roedd hyd at £200 ar gael yn dibynnu ar oedran y plentyn.

### Parhau i gefnogi ac adsefydlu ffoaduriaid drwy’r Cynllun Adsefydlu Byd-eang y DU, i gefnogi datganiad Cymru fel Cenedl o Noddfa.

Mae Sir Ddinbych yn Gweithio wedi parhau i gynnig cefnogaeth un i un ar gyfer ffoaduriaid o Syria, Afghanistan ac Wcráin, gan gynnwys cyflwyno grŵp cymdeithasol ar gyfer ymarfer sgiliau Saesneg gyda chyfranogwyr o Wcráin. Rydym hefyd wedi aseinio cydlynwyr cyflogaeth i weithio gyda chyflogwyr lleol ar gyfleoedd penodol ar gyfer y rhai gyda’r sgiliau Saesneg gwaethaf. Yn ogystal â hyn, rydym yn parhau i gynnal gweithdai sydd wedi’u dylunio i ddarparu gwybodaeth am ‘ddisgwyliadau cyflogwyr’ y DU ar gyfer ffoaduriaid.

Ym mis Awst, cynhaliwyd digwyddiad ar gyfer teuluoedd sydd wedi ailsefydlu yn Sir Ddinbych a drefnwyd gan Gyngor Sir Ddinbych, y Groes Goch Brydeinig a Gwasanaeth Cydlyniant Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru. Roedd y digwyddiad aml-ddiwylliannol am ddim yn cyflwyno gweithgareddau a pherfformiadau ar gyfer teuluoedd o wledydd fel Syria, Afghanistan ac Wcráin.

Rydym wedi ail-gyfrifo nifer y teuluoedd sydd wedi adsefydlu o fewn Sir Ddinbych yn ystod 2022 a 2023 ac wedi gwneud addasiad i’r cyfanswm (cronnus) o 75 i 41. Mae’r gwahaniaeth yn ymwneud â’r gwahanol gynlluniau cefnogaeth sydd ar gael. Er eglurder, nid yw’r ffigur diwygiedig yn cynnwys teuluoedd sy’n cael eu cynnal drwy’r Cynllun Uwch-Noddwyr.

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â’r Llinynnau Mesur

Mae’r rhan fwyaf o’r llinynnau mesur isod yn rhai newydd ar gyfer y Cynllun Corfforaethol hwn a blwyddyn ariannol 2023-2024. Rydym yn aros am rywfaint o ddata ar gyfer yr adroddiad hwn a bydd yn cael ei gasglu ar gyfer ein hadroddiad nesaf. Disgwylir

gwybodaeth arall, megis 'nifer yr achosion a adroddwyd o fwlio cysylltiedig â rhagfarn mewn ysgolion' erbyn mis Tachwedd 2023.

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau i gefnogi lles, gweler ein thema Sir Ddinbych Iachach, Hapusach a Gofalus . Mae gwybodaeth ychwanegol i gefnogi tai a digartrefedd yn ein thema Tai ; llinynnau mesur a gweithgareddau i gefnogi cyflogaeth ac amddifadedd yn ein thema Sir Ddinbych ffyniannus ac addysg a gwirfoddoli yn ein themâu Sir Ddinbych sy'n Dysgu a Thyfu a Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well .

### Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 | Chwarter 2 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer cronnus (yn y flwyddyn hyd yma) yr adroddiadau am bobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig dro ar ôl tro, gan gynnwys achosion nad oeddent yn droseddau (3 neu fwy mewn 12 mis, wedi'i fesur yn y flwyddyn hyd yma) - **Cyfrif yn Unig** | 266 | 386 | 537 | 99 | 368 |
| Nifer cronnus (yn y flwyddyn hyd yma) yr adroddiadau am bobl sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig dro ar ôl tro (3 neu fwy mewn 12 mis) - **Cyfrif yn Unig** | 28 | 42 | 56 | 6 | 73 |
| Nifer y bobl ifanc o Sir Ddinbych a gafodd eu hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ystod y flwyddyn - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 70 | Aros am ddata |
| Canran y disgyblion ysgol gynradd cymwys sy'n cymryd Prydau | Dim data: nid yw'n berthnasol | 68.3% | Aros am ddata | Aros am ddata | 63% |

| Teitl | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 | Chwarter 2 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol am Ddim (Sir Ddinbych) – **Cyfrif yn Unig** | | | | | |
| Canran y disgyblion ysgol uwchradd cymwys sy'n cymryd Prydau Ysgol am Ddim (Sir Ddinbych) - **Cyfrif yn Unig** | Dim data: nid yw'n berthnasol | 80.52% | Aros am ddata | Aros am ddata | 78% |

## Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

### Data 2019 - 2023

| Teitl | 2019 - 2020 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd o amddifadedd materol – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 9.1% | 14.8%<br>Derbyniol<br>Gwaeth |

### Data 2021 - 2023

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran y staff o fewn CSDd sydd wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu trosedd casineb (heb fod yn orfodol) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. | 7%<br>Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y staff o fewn CSDd sydd wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu caethwasiaeth fodern (heb fod yn orfodol) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. | 25%<br>Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y staff o fewn CSDd sydd wedi cwblhau'r modiwlau e-ddysgu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Newydd ar gyfer 2022-2023 | 87%<br>Da<br>Gwell |
| Nifer yr achosion o fwlio cysylltiedig â rhagfarn mewn ysgolion - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. | Aros am ddata. Disgwylir ym mis Tachwedd 2023 |

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu llyfrgell yn lle pleserus, diogel a chynhwysol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 93%<br>Rhagorol<br>Yr un fath | 93%<br>Rhagorol<br>Yr un fath |
| Canran y plant mewn tlodi yn Sir Ddinbych – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 34.9%<br>Blaenoriaeth i Wella | 28.1%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd di-waith – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 21.1%<br>Blaenoriaeth i Wella | 19.3%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Llinynnau mesur pob aelwyd ac aelwyd ddiamddiffyn sy'n byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru (daliwr lle) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | Aros am ddata | Aros am ddata |
| Canran y bobl ifanc cymwys sy'n gadael gofal ac yn derbyn y peilot incwm sylfaenol gan Lywodraeth Cymru - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | Dim data. Cynnal Cynllun Peilot ar draws Cymru | 100%<br>Rhagorol |
| Nifer y teuluoedd sydd wedi'u hadsefydlu yn Sir Ddinbych – **Cyfrif yn Unig** | 6 | 41 |
| Nifer y Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches yn Sir Ddinbych -**wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 |
| Nifer y cwynion a dderbyniodd y Cyngor gan gwsmeriaid yn ymwneud â hil – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Disgwylir data ym mis Ebrill 2024. |

## Arolwg Budd-ddeiliaid 2022 i 2023

Rydym wedi diwygio sut yr ydym yn dadansoddi ymatebion i'r Arolwg Budd-ddeiliaid i gynnwys statws ar gyfer y rhai sydd wedi mynegi safbwynt ac yn cytuno (yn flaenorol roeddem yn cynnwys ymatebion "Ddim yn gwybod" a "Dim barn neu'n ansicr" yn ein dadansoddiad).

| Teitl | Cytuno | Anghytuno | Dim barn neu'n ansicr | Gyda barn, a chytuno |
|---|---|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod pobl yn Sir Ddinbych yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal, a bod ganddynt fynediad at gyfleoedd i hyrwyddo eu lles a chydlyniant cymunedol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 36% | 44% | 20% | 46% Derbyniol |

### Llinynnau Mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi'n anaml - bob pedair i bum mlynedd - gyda'r data diweddaraf sydd ar gael yn deillio o 2019. Oni bai bod data newydd yn cael ei gyhoeddi, ni fyddwn yn gwneud sylwadau ar ddata MALIC, ond byddwn yn cadw'r llinynnau mesur yn yr adroddiad hwn gan eu bod nhw'n rhoi cyd-destun pwysig ac yn helpu i lywio statws cyffredinol ein llinynnau mesur ar gyfer pob thema. Disgwylir y wybodaeth ddiweddaraf am MALIC gan Lywodraeth Cymru ddiwedd 2025 neu yn gynnar yn 2026.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran **Diogelwch Cymunedol** (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 14% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 10% Blaenoriaeth i Wella Gwell |
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **wedi' feincnodi'n genedlaethol** | 14% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 12% Blaenoriaeth i Wella Gwell |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiectau

Mae 20 prosiect yn cefnogi'r thema hon yn y Cynllun Corfforaethol. Mae 15 'Ar y trywydd iawn', 3 yn 'Profi Rhwystrau' ac un 'Mewn Perygl', gyda disgwyliadau'r rhain wedi'u nodi isod. Mae un gweithgaredd yn cael ei ddatblygu.

## Prosiectau neu Weithgareddau

| Teitl | Statws | Eithriad |
|---|---|---|
| Ymgymryd â gwaith ataliol, mewn partneriaeth ag Adrannau Trwyddedu'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol, mewn perthynas ag eiddo busnes (gan gynnwys gwerthu i rai dan oed, alcohol, tybaco ac e-sigaréts). | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu a darparu digwyddiadau cymunedol codi ymwybyddiaeth o gymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Prynu camerâu ANPR - Prynu chwe chamera gwyliadwriaeth manyleb ANPR arbenigol y gellir eu hadleoli a fydd yn ein galluogi i fonitro a chasglu gwybodaeth mewn perthynas â mannau problemus o ran troseddau amgylcheddol. | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Ymrwymo i Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru drwy Gynlluniau Busnes Gwasanaethau | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae manylion rhai camau gweithredu a llinellau cyfrifoldeb yn y broses o gael eu cytuno gyda gwasanaethau o hyd. |
| Cyflawni'r addewid i hybu dim hiliaeth yn Sir Ddinbych | Profi Rhwystrau<br>Gwaeth | Pwysau capasiti yn arafu'r cynnydd. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth. |
| *Hyrwyddo Rhaglen Saesneg fel Iaith Ychwanegol i ysgolion, o ran mynd i'r afael â hiliaeth a sicrhau bod polisïau gwrth-hiliaeth ysgolion yn rhai cyfredol (mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth am y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol)* | Mae'r gweithgaredd hwn yn cael ei ddatblygu. | Dim eithriad |
| Cefnogi ac ymgysylltu â thenantiaid sydd fwyaf tebygol o brofi anghyfartaledd cymdeithasol i gael mynediad at wasanaethau a chymryd rhan weithredol yn eu cymuned. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Parc Bruton, y Rhyl (gweithio gyda phreswylwyr Parc Bruton i wneud y mwyaf o les cymunedol). | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu canolfannau Croeso Cynnes ledled y Sir. | Profi Rhwystrau | Dim gwybodaeth eto gan Lywodraeth Cymru o unrhyw gyllid sy'n cael ei |

| Teitl | Statws | Eithriad |
|---|---|---|
| | Gwaeth | ddyrannu eleni i gefnogi grwpiau lleol i sefydlu canolbwyntiau. Mae llyfrgelloedd wedi parhau i gynnig canolfannau clyd drwy gydol y flwyddyn gyda chyfleusterau te a choffi am ddim. Rydym yn parhau i weithio gyda'r grwpiau cymunedol lleol i gynorthwyo i sefydlu canolfannau newydd, cefnogi'r rhai presennol a hyrwyddo a brandio'r gofodau hyn. Rydym yn chwilio am ragor o gyllid i gefnogi'r gwaith. |
| Cefnogi amrywiaeth ac ymgysylltiad drwy gynnwys y fframwaith ar ddull ysgol gyfan ar gyfer lles emosiynol a meddyliol | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Comisiynwyd sawl cwrs hyfforddiant rhwng mis Gorffennaf a mis Medi er mwyn i ysgolion gael mynediad atynt yn nhymor yr Hydref, gan ddefnyddio'r Grant Lles. Dewisir ymyraethau ar sail eu sylfaen dystiolaeth ac effaith. Gan fod grant Lles LlC wedi'i leihau mae hyn wedi cael effaith ar yr ystod o hyfforddiant a gweithgareddau ysgol y gellir eu cynnig. Mae dau glwstwr o ysgolion wedi cael cynnig i brofi dwy ymyrraeth benodol. |
| Adolygu a diwygio Cyngor yr Ifanc ar gyfer Sir Ddinbych. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Ymgorffori Strategaeth Gwrth-fwlio CSDd ym mhob ysgol. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Urddas Mislif | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |

| Teitl | Statws | Eithriad |
|---|---|---|
| Datblygu rhwydwaith i gynnwys pobl a grwpiau â nodweddion gwarchodedig (drwy'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol) | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu a darparu Strategaeth Fwyd a Rhwydwaith Partneriaeth Bwyd ar gyfer y sir gyfan (gan gynnwys y prosiect archfarchnad gymdeithasol – Cogog) o amgylch Sir Ddinbych. | Ar y trywydd iawn<br>Gwell | Dim eithriad |
| Datblygu'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol i gefnogi plant i fwyta'n dda | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu'r cynnig, drwy Sir Ddinbych yn Gweithio, fel y gall yr holl ffoaduriaid sydd wedi ymgartrefu yn Sir Ddinbych, dderbyn cefnogaeth gan fentor cyflogaeth (mae pob oedolyn yn cymryd rhan weithredol mewn dosbarthiadau Saesneg fel Ail Iaith- ESOL) | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Mewn partneriaeth â Hamdden Sir Ddinbych Cyf a'r Trydydd Sector, sicrhau cyllid ar gyfer gweithgareddau creadigol a diwylliannol i weithio gyda theuluoedd sydd wedi'u hadsefydlu yn y sir | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Isadeiledd cymunedol mwy gwyrdd: Darparu Ardaloedd Chwarae Hygyrch er mwyn darparu ardaloedd chwarae mewn lleoliadau strategol ar draws y sir sy'n hygyrch i bawb drwy osod cyfarpar arbenigol a gwneud gwelliannau i lwybrau cerdded a dodrefn stryd yn y parth cyhoeddus a'r cyffiniau. | Wedi dechrau<br>Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol rhwng mis Gorffennaf a mis Medi i gefnogi'r thema hon:

Cynhaliwyd Diwrnod y Gwasanaethau Brys ar 9 Medi, a nododd y Cyngor yr achlysur drwy godi'r faner yn Neuadd y Sir yn Rhuthun.  Yn gynharach y mis hwn, dangosodd Cyngor Sir Ddinbych eu cefnogaeth ar gyfer Diwrnod y Llynges Fasnachol(1 Medi) drwy godi'r Lluman Coch.

## Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

### Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Corfforaethol

### Chwarae ein rhan i gyflawni miliwn o Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, drwy ddarparu'r Strategaeth Iaith Gymraeg gyda phartneriaid a chymunedau

Yn flaenorol bu i ni adrodd bod nifer yr unigolion a allai siarad Cymraeg (3 oed neu'n hŷn) ar ddiwedd Mawrth 2023 yn 35,000, sef 38%, ac er bod y canran wedi cynyddu'n gyffredinol ar gyfer Cymru gyfan, nid yw'r sefyllfa yr un fath yn Sir Ddinbych lle bo 900 yn llai o bobl yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg (gostyngiad o 0.9%) o gymharu â diwedd Mawrth 2022. Penderfynwyd mai'r ffordd orau ar gyfer y dyfodol yw canolbwyntio ar ganran y disgyblion blwyddyn un sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly bydd y dangosydd i hunan-adrodd ar y Gymraeg yn cael ei dynnu o'n Fframwaith Rheoli Perfformiad o hyn allan. At hynny, mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn dadansoddi data'r Cyfrifiad diweddaraf i benderfynu ar fywiogrwydd y Gymraeg mewn ardaloedd llai. Rydym hefyd yn awyddus i gasglu enghreifftiau o lle mae'r iaith yn ffynnu ac yn gysylltiedig â'n diwylliant a'n heconomi (er enghraifft, ffermio ac amaethyddiaeth), sy'n ffordd well o ddangos profiadau pobl o iaith sy'n ffynnu yn eu cymuned. Byddwn yn canfod ffyrdd o gofnodi'r profiadau hyn.

Derbyniodd 28.4% o ddisgyblion blwyddyn un eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023, cynnydd o 1% ers y flwyddyn flaenorol. Ein huchelgais, yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yw cynyddu hyn i 32% erbyn 2027 (diwedd y Cynllun Corfforaethol newydd), gan weithio tuag at 40% erbyn 2032. Roedd ein huchelgais yn seiliedig ar ragamcanion, a oedd yn cynnwys rhagdybiaethau yn ymwneud â thwf yn y galw mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a thrawsnewid ysgolion cyfrwng Saesneg presennol i gynnig cyfnod sylfaen cyfrwng Cymraeg. Y prif fater sy'n peri pryder yw gostyngiad yn nifer y dysgwyr a gafodd addysg ym mlwyddyn 2 yn 2022-23 yn rhannol o ganlyniad i bandemig Covid-19. Mae hyn wedi gostwng y gwaelodlin yn y cynllun o 28% o ddysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg

ym mis Medi 2020, i 26.4%. Bydd y gostyngiad hwn yn gwneud y targed uchelgeisiol yn y CSCA yn bellach fyth o'n cyrraedd.Roeddem wedi gobeithio cadarnhau ein trothwy ar gyfer ymyrraeth, h.y. beth fydd yn 'Flaenoriaeth i Wella', yn ein hadroddiad blaenorol ond mae newid y gwaelodlin wedi golygu ei bod yn anodd cadarnhau ein trothwyon. Problem ychwanegol yw'r disgwyl y bydd ysgolion yn newid categori iaith. Ar adeg datblygu'r cynllun, roedd mwy o ddisgwyliad o'r canlyniad iaith ar gyfer ysgolion oedd yn pontio o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg i Gymraeg ac mae'n annhebygol y bydd y disgyblion hyn yn cyfrannu at y targed hwn ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o'r sefyllfa bresennol a byddant yn parhau i adolygu hyn yn rheolaidd.Mae'r Cyngor hefyd wedi rhannu yr adroddiad cynnydd blynyddol gyda Llywodraeth Cymru ac rydym yn aros am eu hymateb. Mae gweledigaeth glir, ar draws y sir i ddatblygu'r Gymraeg mewn Addysg ac mae cydweithio effeithiol ar y gweill gyda phwyllgorau'n gweithio ar brosiectau a mentrau penodol. Mae Tîm Cefnogi y Gymraeg mewn Addysg yn cynnwys chwe aelod o staff sy'n cynnig cefnogaeth ac arweiniad i staff ac ysgolion ym mhob sector. Mae swyddogion y Cyngor wedi cyfarfod gydag arweinwyr ysgolion a rhannu cynlluniau datblygu gyda'r holl ysgolion cynradd i'w cynorthwyo i gynyddu eu darpariaeth drwy'r Gymraeg a datblygu sgiliau llafaredd Cymraeg. Trafodwyd y cynnydd o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion yn nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ym mis Medi. Trafodwyd y prif fater sy'n peri pryder (gostyngiad yn nifer y dysgwyr a gafodd addysg ym mlwyddyn 2 yn 2022-23). Ond, ar nodyn cadarnhaol, nodwyd bod addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn ffynnu ac yn ystod haf 2023, gwahoddwyd y Cyngor i gyflwyno achosion busnes am gyllid cyfalaf o £5.8m ar gyfer pum prosiect i gynorthwyo â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd y prosiectau mewn 4 ysgol gynradd ac i ddatblygu darpariaeth drochi yn Ysgol Brynhyfryd yn cyfrannu at wneud cynnydd ar y targedau hyn. Mae cadw niferoedd uchel o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg trwy gydol eu cyfnod mewn addysg yn allweddol i gyflawni'r cynllun ynghyd ag ehangu'r ddarpariaeth, un ai trwy ail-ddynodi categori iaith ysgolion neu ddatblygu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd lle bo hynny'n briodol. I ategu hyn, mae buddsoddi mewn rhaglenni hyfforddi i sicrhau bod digon o gapasiti ar gyfer darpariaeth addysgu cyfrwng Cymraeg, gan cynnwys gwella sgiliau Cymraeg staff ail iaith presennol, yn allweddol i gyflawni'r cynllun. Rydym mewn trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru a byddwn yn adolygu ein targedau'n rheolaidd. At hynny, rydym yn datblygu tudalen we newydd a fydd yn hyrwyddo buddion addysg cyfrwng Cymraeg a chynnig cefnogaeth ac adnoddau i deuluoedd, sy'n cynnwys rhestr o ysgolion o dan y categorïau newydd, chwalu'r myth o ran addysg cyfrwng Cymraeg, astudiaethau achos a fideos. Rydym yn datblygu gwefan gyda Fforwm y Gymraeg, a byddwn yn cynnwys dolenni at gyngor ac adnoddau gan sefydliadau eraill.

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych wedi cytuno i ariannu cynhyrchu cerdyn post gyda chod QR gyda dolen i'r wefan.  Mae hyn yn gam gweithredu o Strategaeth y Gymraeg.

Yn dilyn cymeradwyo Strategaeth y Gymraeg 2023 - 2028 ym mis Mehefin, mae swyddogion wedi bod yn datblygu syniadau a chanllawiau i hysbysu recriwtio staff gyda sgiliau Cymraeg yn hanfodol ac yn ddymunol.  Mae staff AD wedi mynychu gweithdy gyda Chomisiynydd y Gymraeg i gael cyngor ac arweiniad i'n cynorthwyo i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.  Rydym yn dymuno recriwtio mwy o staff sy'n medru'r Gymraeg, gan gynnwys mwy o staff sy'n fodlon nodi rhai sgiliau Cymraeg a magu hyder.  Y nod yw datblygu sefyllfa lle bo gan bob swydd ofyniad o sgiliau Lefel 1 yn y Gymraeg, fel isafswm (mae rhai swyddi sydd angen Lefel 5).  Mae canllawiau ar gyfer rheolwyr yn cael eu cynhyrchu ac rydym yn datblygu gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr yn amlinellu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer pob Lefel, a byddwn yn amlinellu'r cyfleoedd hyfforddiant a datblygu sydd gennym i gefnogi a galluogi eu datblygiad.  Bydd staff newydd a'r staff presennol yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau i gyflawni hyn.  Rydym eisiau staff sydd ar hyn o bryd yn dweud nad oes ganddynt yr hyder neu'r rhuglder, i gael rhagor o sgyrsiau anffurfiol yn y Gymraeg a magu digon o hyder i ysgrifennu e-byst byr yn y Gymraeg er enghraifft.  Mae aelodau etholedig a swyddogion sydd eisoes yn rhugl yn y Gymraeg yn trafod eitemau mewn Pwyllgorau drwy gyfrwng y Gymraeg ac rydym yn gweld mwy o aelodau a swyddogion sy'n dysgu Cymraeg yn gwneud ymrwymiad i gyflwyno eu hunain a'r eitem dan sylw yn y Gymraeg.  At hynny, mae mwy o staff wedi bod yn dysgu Cymraeg, lefel mynediad eleni nag unrhyw flwyddyn flaenorol, gyda 16 aelod o staff yn dysgu Cymraeg ar hyn o bryd.  Bydd cwrs arall yn dechrau ym mis Hydref.  Bydd cyfanswm o oddeutu 40 aelod o staff sydd wedi cofrestru ar gyfer y cwrs lefel mynediad.  Mae gennym gytundeb dysgwyr ar gyfer rheolwyr a staff, ac rydym yn gofyn bod y rhain yn cael eu llofnodi cyn i staff ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol.  Byddwn yn atgyfnerthu'r cytundeb i gynnwys mesurau i annog staff i sicrhau eu bod yn defnyddio'r hyn maent wedi'i ddysgu ar ôl cwblhau eu cwrs.

Erbyn diwedd Medi 2023, roedd 79.2% o staff wedi cwblhau modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth iaith (gostyngiad bach ers Mehefin 2023) ac yn 'Flaenoriaeth i Wella'. Mae gofyn i weithwyr newydd gwblhau y modiwl e-ddysgu o fewn eu cyfnod prawf o chwe mis.  Rydym wedi edrych ar ein data ac yn seiliedig ar y cyfnod o fis Ionawr i fis Gorffennaf 2023, roedd 499 o staff heb gwblhau'r modiwl e-ddysgu. Roedd 167 o'r rhain wedi ymuno rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2023 a'r 332 sy'n weddill wedi ymuno cyn 2023.  Mae hyn yn awgrymu bod angen i ni sicrhau bod yr holl staff yn cyflawni'r hyfforddiant yn ystod

eu cyfnod prawf a chefnogi'r staff sydd heb ei wneud, i'w gyflawni.  Mae atgyfnerthu'r broses gyflwyno o safbwynt y Gymraeg yn flaenoriaeth dros y misoedd nesaf.

Yn ystod y cyfnod, rydym wedi parhau i gynnal ein sesiynau 'Paned a Sgwrs', sy'n gyfarfodydd ar-lein agored ac anffurfiol i roi cyfle i bobl ymarfer defnyddio eu Cymraeg. Bydd y rhain yn dod i ben dros dro o fis Hydref, oherwydd staffio.  Ar 16 Hydref, Diwrnod Owain Glyndŵr, bu i ni greu cwis llawn hwyl am Owain Glyndŵr, y Gymraeg, diwylliant a threftadaeth a rhannu fideo a wnaethom am Owain Glyndŵr a'i gysylltiadau gyda Chorwen a Sir Ddinbych.  Yn ystod y cyfnod, cynhaliwyd cyfarfod Cefnogwyr y Gymraeg.  Mae'r Grŵp wedi cytuno i ddatblygu fideo o blant o ysgolion Sir Ddinbych gyda thema Cwpan Rygbi'r Byd ar gyfer Diwrnod Shwmae Su'mae ar 15 Hydref.

Mae gweithdy'n cael ei gynllunio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ar gyfer yr holl aelodau etholedig er mwyn eu briffio ar yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir, e.e. drwy Strategaeth y Gymraeg a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

### Datblygu strategaeth ddiwylliannol a rhaglen o ddigwyddiadau

Mae ein haddewid i 'Ddatblygu strategaeth ddiwylliannol a threftadaeth a rhaglen o ddigwyddiadau' yn parhau i aros.  Byddwn yn datblygu cynllun o ran sut y gallai strategaeth ddiwylliannol, yn yr ystyr ehangaf, gysylltu a chyfrannu at ganlyniadau ehangach o ran ein heconomi a'n lles personol er enghraifft.  Er bod yr addewid wedi'i ohirio, mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi a hyrwyddo ystod eang o brosiectau a digwyddiadau diwylliannol.  Er enghraifft, rydym yn parhau i ddatblygu cais cynllunio fel rhan o brosiect i ddatblygu Castell Bodelwyddan fel Parc Gwledig a phorth i Sir Ddinbych.

O fis Hydref, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwahodd adborth ar fap Ardal Chwilio cychwynnol ar gyfer Parc Cenedlaethol arfaethedig newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Bydd y cyfnod ymgysylltu yn cael ei gynnal o 9 Hydref tan 23:59 ar 27 Tachwedd, 2023.  Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr Awdurdod Dynodi yng Nghymru, i werthuso achos ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd yn seiliedig ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.  Bydd yr achos ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ystyried o fewn cyfnod y Senedd presennol (2021 i 2026).  Mae holiadur i gasglu adborth yn awr yn fyw ar wefan y prosiect.

Rydym hefyd yn symud ymlaen â Chynllun i'r Dyfodol Gwasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych ar gyfer 2023 i 2026 ac ar fin dechrau ymgynghoriad ehangach gyda'r staff ar y

Cynllun drafft.   Mae'r Cynllun yn nodi ein hamcanion, yr adnoddau yr ydym eu hangen, cysylltiadau gyda'r prosiectau treftadaeth presennol (gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cyllido gan y Gronfa Ffyniant Bro, y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chronfa Dreftadaeth y Loteri) a chostau prosiectau yn y dyfodol.  Mae canolbwynt ar gynaliadwyedd hirdymor ar gyfer ein holl safleoedd treftadaeth, yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.  Yn ystod y cyfnod, mae Nantclwyd y Dre wedi'i gadarnhau'n Atyniad i Ymwelwyr â Sicrwydd Ansawdd ac wedi ennill statws Trysor Cudd yn sgil asesiad gan Croeso Cymru unwaith eto.

Darparodd cynllun Llysgenhadon Twristiaeth Sir Ddinbych gyflwyniad i fyfyrwyr Croesawyr Eisteddfod Llangollen ym mis Gorffennaf ac mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer Wythnos Llysgenhadon Cymru, sydd i ddod rhwng 20 a 26 Tachwedd.  Bydd gweithgareddau'n cynnwys digwyddiad ar-lein a nawdd ar gyfer Gwobr Sgiliau yng Ngwobrau Twristiaeth Go North Wales 2023.  Mae 375 o Lysgenhadon Efydd, 290 o Lysgenhadon Arian a 265 o Lysgenhadon Aur. Daeth 6,030,000 o ymwelwyr i Sir Ddinbych yn 2022,  sy'n gynnydd sylweddol o ffigurau 2020 (yn adlewyrchiad o'r aflonyddwch yn sgil cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol Covid-19).  Dyma'r ffigur uchaf erioed, ers i ni ddechrau casglu data yn 2013.  Mae Carchar Rhuthun wedi derbyn llawer o ymwelwyr ers ail-agor yn gynharach eleni, gyda dros 7,000 o ymwelwyr hyd yma (ym mis Medi 2023).  Bu i'r Carchar ailagor ar 1 Ebrill ar ôl dwy flynedd o waith adnewyddu yn dilyn llifogydd.

Er bod gweithgareddau i "Ddatblygu Strategaeth Llyfrgelloedd newydd ar gyfer Sir Ddinbych sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ac uchelgeisiau'r Cynllun Corfforaethol a Strategaeth Ddiwylliant Llywodraeth Cymru" yn 'Profi Rhwystrau', mae Llyfrgelloedd Sir Ddinbych yn parhau i gefnogi'r thema hon.  Ar ddechrau'r haf, lansiodd Llyfrgelloedd Sir Ddinbych linell amser LHDTC+, yn dangos adegau pwysig o hanes o 1600au hyd heddiw. Datblygwyd y llinell amser yn dilyn hyfforddiant a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021 i annog dathlu straeon lleol yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd.  Mae'r llinell amser ar gael ar-lein yma. Yn ystod gwyliau'r haf, cynhaliodd Llyfrgelloedd Sir Ddinbych Sialens Ddarllen yr Haf a bu'n llwyddiant unwaith eto, gan ddilyn thema chwarae, chwaraeon, gemau a gweithgarwch corfforol. Mae Sialens Ddarllen yr Haf wedi bod yn cael ei chynnal ers 1999 ac mae'n helpu i wella sgiliau a hyder darllen plant dros wyliau'r haf.  Mae'r deunydd ar gael yn ddwyieithog ac roedd y Cyngor yn annog teuluoedd i gymryd rhan i helpu plant i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg dros wyliau'r haf.  Ym mis Medi, croesawodd Llyfrgelloedd Sir Ddinbych Llenor Plant Waterstones (2022-2024) Joseph Coelho i Lyfrgell Dinbych fel rhan o'i ymgyrch

genedlaethol 'Marathon Llyfrgelloedd'. Roedd y daith yn cynnwys digwyddiad arbennig yn Llyfrgell Dinbych lle y daeth Coelho yn aelod o Lyfrgelloedd Sir Ddinbych, benthyg llyfr, a darllen a pherfformio ei waith ar gyfer disgyblion Ysgol Pendref. Gall defnyddwyr y llyfrgell fenthyg pum ['Blwch Atgofion'] newydd, oll yn canolbwyntio ar 1950au, ac mae modd eu benthyg yn union fel benthyg llyfr. Wedi'u creu gan Gwmni Buddiannau Cymunedol Making Sense ac wedi'u hariannu gan gynllun Ymwybodol o Ddementia Sir Ddinbych, mae'r blychau'n cynnwys eitemau o'r 1950au sydd wedi'u dewis yn ofalus er mwyn dechrau sgwrs a hel atgofion.

Mae rhai o'r Prosiectau Cronfa Ffyniant Bro yn ymwneud â threftadaeth a diwylliant o bwysigrwydd o dan y thema hon. Mae prosiectau Rownd 1 De Clwyd ar y gweill. Mae mwyafrif y gwaith fel rhan o'r prosiect ym Mhlas Newydd, Llangollen i 'Wella profiad ymwelwyr gan gynnwys gwelliannau i'r tiroedd' wedi'i gwblhau. Mae rhywfaint o waith ar y llwybrau, plannu, arwyddion a dehongli ar y gweill. Bydd cyfnod caffael prosiect Rhaeadr y Bedol rhwng mis Medi a mis Hydref. Mae prosiect Gorllewin Clwyd yn parhau i gael ei ddatblygu ac yn parhau i fod yn y cam Briff Prosiect. Mae'r holl brosiectau wedi adolygu eu darpariaeth a phroffiliau ariannol, ac mae hyn wedi darparu terfynau amser sy'n fwy realistig ar gyfer y prosiectau fel y ceisiwyd gan Lywodraeth y DU. Mae gan fwyafrif y prosiectau dimau dylunio, mae'r arolygon cychwynnol ar y gweill ac, mewn rhai achosion, wedi'u cwblhau ac yn aros am yr adroddiadau terfynol. Mae Byrddau Prosiect yn eu lle ar gyfer pob un o'r prosiectau gyda'r cyfarfodydd cyntaf dros y chwarter nesaf. Mae ymgysylltiad â'r cyhoedd wedi'i ohirio ychydig a bydd yn dechrau ym mis Tachwedd i fis Rhagfyr. Mae'r dyddiadau dechrau disgwyliedig ar gyfer y gwaith adeiladu wedi'u nodi isod.

## Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaeth archifau gwell a chynaliadwy i Ogledd Cymru

Mae Prosiect Archif ar y Cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn parhau i fod mewn 'Mewn Perygl', ar y sail nad oes cyllid wedi'i sicrhau eto ac felly nid oes cyllid ar gael i symud ymlaen fel y bwriadwyd gyda'r datrysiad llety a'r cynllun gweithgaredd. Yn amodol ar gymeradwyaeth angenrheidiol gan y Cabinet, sydd hefyd bellach yn dymuno adolygu dewisiadau amgen yn Sir Ddinbych (mae Cabinet Cyngor Sir y Fflint wedi cymeradwyo'r prosiect yn yr Wyddgrug), cyflwynir cais am gyllid i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (cyllid grantiau cyfalaf Cymru) ym mis Tachwedd 2023, a dylai'r canlyniad fod yn hysbys o fewn tua phedwar mis. Yn y cyfamser, bydd y ddau wasanaeth archifau

yn parhau i gydweithio a datblygu'r gwasanaeth o dan frand Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru.

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau sy'n cefnogi'r Gymraeg a'r diwylliant (er enghraifft, ein haddewid i fod yn agos at ein cymunedau), gweler ein thema Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad.

### Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

| **Teitl** | **Chwarter 2 2022 - 2023** | **Chwarter 3 2022 - 2023** | **Chwarter 4 2022 - 2023** | **Chwarter 1 2023 - 2024** | **Chwarter 2 2023 - 2024** |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y staff sydd wedi cwblhau modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | 73% Blaenoriaeth i Wella | 80.3% Derbyniol Gwell | 79.26% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth |
| Llinyn Mesur: Nifer y Crefftwyr yn Sir Ddinbych a gefnogwyd (DPA Contract HSDd) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. | Dim data. | 55 (ffigur blynyddol) Rhagorol | 30 Rhagorol | 39 Rhagorol Gwell |

### Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

### Data 2019 - 2023

| **Teitl** | **2019 - 2020** | **2022 - 2023** |
|---|---|---|
| Incwm treftadaeth a gynhyrchwyd dros y flwyddyn (£) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 44,224 Cyfrif yn Unig | 12,861 Cyfrif yn Unig |

**Data 2021 - 2023**

| **Teitl** | **2021 - 2022** | **2022 - 2023** |
|---|---|---|
| Canran y disgyblion blwyddyn 1 sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg - **Cyfrif yn Unig** | 27.4% | 28.4%<br>Trothwyon i ddod |
| STEAM - Nifer y twristiaid sy'n ymweld â Sir Ddinbych - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 4,350,000<br>Derbyniol<br>Gwell | 6,030,000<br>Rhagorol<br>Gwell |

**Arolwg Budd-ddeiliaid 2022 i 2023**

Rydym wedi diwygio sut yr ydym yn dadansoddi ymatebion i'r Arolwg Budd-ddeiliaid i gynnwys statws ar gyfer y rhai sydd wedi mynegi safbwynt ac yn cytuno (yn flaenorol roeddem yn cynnwys ymatebion "Ddim yn gwybod" a "Dim barn neu'n ansicr" yn ein dadansoddiad).

| **Teitl** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Dim barn neu'n ansicr** | **Gyda barn, a chytuno** |
|---|---|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod Sir Ddinbych yn sir lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw, sy'n ffynnu -**wedi'i feincnodi'n lleol** | 55% | 33% | 12% | 62%<br>Derbyniol |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog ac asedau naturiol Sir Ddinbych yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 44% | 42% | 14% | 51%<br>Derbyniol |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiectau

Mae'r thema hon yn cynnwys 18 o brosiectau a gweithgareddau. Mae 4 sydd heb ddechrau eto ac yn y cam briff prosiect; un wedi'i ohirio; deg ar y 'Trywydd iawn'; dau yn 'Profi Rhwystrau' ac un 'Mewn Perygl'.

## Prosiectau neu Weithgareddau

| Teitl | Statws | Eithriad |
|---|---|---|
| Gweithredu'r CSCA i gefnogi miliwn o siaradwyr erbyn 2050 | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Darparu Strategaeth y Gymraeg 2023-2028 i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sir | Ar y trywydd iawn<br>Gwell | Dim eithriad |
| Darparu gwasanaethau, llunio polisïau a safonau gweithredu'r Polisi Iaith Gymraeg | Ar y trywydd iawn<br>Gwell | Dim eithriad |
| ***GWEITHGAREDD A AWGRYMIR:*** *Datblygu strategaeth ddiwylliannol a threftadaeth a rhaglen o ddigwyddiadau* | Wedi'i ohirio | I'w ddatblygu yn ystod 2023-2024. |
| Datblygu cam 1 Castell Bodelwyddan fel Parc Gwledig a phorth i Sir Ddinbych | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Derbyniodd y cais cynllunio gwreiddiol wrthwynebiadau gan CADW ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys oherwydd elfennau penodol o'r prosiect. Mae cais cynllunio diwygiedig yn cael ei ddatblygu cyn symud darpariaeth y prosiect o Gam 2 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) ymlaen i Gamau 3 a 4 RIBA. Mae'r camau hyn wedi'u trefnu gyda'r nod o'u cwblhau erbyn diwedd Mawrth 2024 er mwyn gallu dechrau ar y gwaith ym mis Ebrill 2024 a'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2024. |
| Gweithio â phartneriaid ar ddynodiad Parc Cenedlaethol arfaethedig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Ceisio dynodiad Cymuned Awyr Dywyll ar gyfer yr AHNE | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |

| Teitl | Statws | Eithriad |
|---|---|---|
| Datblygu a darparu Cynllun i'r Dyfodol ar gyfer Gwasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych 2023-2026 | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu a darparu'r Cynllun Llysgennad yn Sir Ddinbych ac ar draws Cymru mewn partneriaeth | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu Strategaeth Lyfrgelloedd newydd ar gyfer Sir Ddinbych, yn adlewyrchu blaenoriaethau ac uchelgeisiau Cynllun Corfforaethol a Strategaeth Ddiwylliant Llywodraeth Cymru. | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Nid yw Strategaeth Ddiwylliannol Llywodraeth Cymru wedi'i chyhoeddi eto a disgwylir y Strategaeth yn ystod 2024 i 2025. |
| Cefnogi a gweithredu'r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Plas Newydd, Llangollen: Gwella profiad ymwelwyr, gan gynnwys gwneud gwelliannau i'r tir (Rownd 1 Ffyniant Bro De Clwyd) | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Rhaeadr y Bedol (Rownd 2 Ffyniant Bro De Clwyd) | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Tŵr Cloc Rhuthun: Adnewyddu nodweddion allanol Tŵr Cloc Rhuthun (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Ar y cam briff prosiect | Disgwylir bydd y gwaith yn dechrau o fis Mai 2024. |
| Carchar Rhuthun/ 46 Stryd Clwyd, Rhuthun: Adnewyddu eiddo gan gynnwys mynedfa newydd a chyfleusterau cyhoeddus gwell (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Ar y cam briff prosiect | Disgwylir bydd y gwaith yn dechrau o fis Tachwedd 2024. |
| Nant Clwyd-y-Dre, Rhuthun: Adnewyddu'r adeilad rhestredig Gradd 1 (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Ar y cam briff prosiect | Disgwylir bydd y gwaith yn dechrau o fis Tachwedd 2024. |
| Cae Ddôl, Rhuthun: Uwchraddio'r parth cyhoeddus a chysylltu â'r thema treftadaeth (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Ar y cam briff prosiect | Disgwylir bydd y gwaith yn dechrau o fis Gorffennaf 2025. |
| Prosiect Archifau ar y Cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Mae angen cadarnhau cyllid. Nid yw'r arian mewn lle i symud ymlaen fel y |

| Teitl | Statws | Eithriad |
|---|---|---|
| | | bwriadwyd gyda'r datrysiad llety a'r cynllun gweithgaredd. |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol rhwng mis Gorffennaf a mis Medi i gefnogi'r thema hon:

Ym mis Awst, arddangosodd y Cyngor rai o'i ymgyrchoedd a gwasanaethau yn Sioe Dinbych a Fflint 2023. Roedd tîm y Rhaglen Newid Hinsawdd wrth law i drafod sut mae'r Cyngor yn mynd ati i fynd i'r afael ag effaith newid hinsawdd ac ecolegol. Hyrwyddodd y timau twristiaeth eu gwaith cynaliadwy yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy; bu i Sir Ddinbych yn Gweithio hyrwyddo eu rôl i gynorthwyo pobl ifanc i gael gwaith; a bu i staff yr Archifau gynnig cyfle i bobl weld sut yr oedd y sir wedi newid dros amser. Roedd staff Cyngor Sir y Fflint hefyd wrth law i hyrwyddo maethu, cymorth blynyddoedd cynnar a chefnogaeth ar gyfer pobl gydag anableddau.

Ym mis Awst, gwahoddwyd teuluoedd i fynychu digwyddiad yn rhad ac am ddim i droi sbwriel o'r môr yn waith celf. Arweiniwyd y sesiwn gan yr artist Tim Pugh, artist amgylcheddol yn Sir y Fflint sy'n gweithio gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau a chyfryngau cymysg i greu darluniau a gosodiadau dros dro.

Agorodd arddangosfa, fel rhan o Brosiect Ein Tirlun Darluniadwy wedi'i ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn Oriel Dory yn Llangollen fis Medi. Yn dilyn traddodiad cyfoethog Dyffryn Dyfrdwy yn ysbrydoli artistiaid, beirdd a thwristiaid am ganrifoedd, bydd yr arddangosfa yn croesawu dros chwedeg o weithiau celf cyfoes sydd wedi'u hysbrydoli gan dirlun darluniadwy Dyffryn Dyfrdwy.

Ym mis Awst, rhoddodd aelod o'r cyhoedd bortread o deulu'r milwr cyffredin Henry Jones o Stryd Mwrog, Rhuthun, a gollodd ei fywyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd gan Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru yn Rhuthun gasgliad o gardiau post a llythyrau a anfonwyd gan y Ffiwsilwr Brenhinol Cymreig o'r Ffrynt ac mae'r ymchwilwyr bellach yn gallu rhoi wyneb i enw gyda llun o'i wraig a'i blant.

Ym mis Medi, cynhaliodd Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru yn Rhuthun ddigwyddiad 'drysau agored' am ddim, gan groesawu ymwelwyr i edrych ar rhai o'r lluniau hanesyddol sy'n cael eu cadw yno. Roedd y digwyddiad yn cynnwys gweithgareddau ar gyfer

teuluoedd, gan gynnwys print Cyanotype gydag artist lleol.  Cynhaliwyd arddangosfa wadd "Honest Agriculture" gan Jac Williams, ffotograffydd lleol.

## Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

### Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Corfforaethol

Mae'r adran hon yn ymwneud â'n haddewidion o'n Cynllun Corfforaethol ar gyfer y thema hon. Mae, yn ddi-os, rywfaint o orgyffwrdd gyda'r saith maes llywodraethu. Er tryloywder, mae modd canfod ein hunanasesiad o ran pa mor dda yr ydym yn perfformio ym mhob un o'r saith maes llywodraethu yn yr adran Hunanasesiad: Meysydd Llywodraethu.

Fel yr eglurwyd yn ein hadroddiad diwethaf, rydym wedi cynnal trafodaethau i bennu'r set strategol gywir o linynnau mesur a gweithgareddau i'w monitro drwy'r adroddiadau perfformiad hyn. Ond, mae rhywfaint o waith i'w wneud cyn gosod dangosydd terfynol, a ddylai gynnwys llinynnau mesur ansoddol sy'n fwy addas ar gyfer y thema hon, sy'n ymwneud a'n diwylliant sefydliadol.

Bydd Bwrdd newydd Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad, a fydd yn goruchwylio'r thema hon, yn cael ei sefydlu ym mis Hydref 2023. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, roedd y Bwrdd wedi cwrdd a chytuno ar ffordd ymlaen i ddatblygu pum addewid y thema, sydd wedi'u halinio gyda phum egwyddor y Cyngor. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf ar gael yn llawn yn ein hadroddiad diweddaru nesaf, ond am nawr, gofynnwyd am rai newidiadau i addewidion y thema hon. Mae'r newidiadau hyn yn cynnig ehangiad ac eglurhad ar gyfer pob addewid. Byddwn yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y newidiadau hyn gan y Cyngor Sir fel rhan o'n Hadroddiad Hunanasesu ar gyfer y flwyddyn yn y gwanwyn 2024.

### Sefydlu diwylliant cadarnhaol o uchelgais, tryloywder a gwelliant parhaus.

Ar gyfer yr addewid hwn, mae'r Bwrdd yn dymuno ychwanegu geiriau ychwanegol (Sefydlu ethos "un Cyngor"), y mae'n credu sy'n egluro ethos cyffredinol thema 9.

Ym mis Gorffennaf, daeth y Prif Archwilydd Mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-2023. Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae'n rhan o'r Datganiad Cyfrifon. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei lunio yn dilyn gwerthusiad o swyddogaethau llywodraethu'r Cyngor, gan ddefnyddio gwybodaeth o'r hunanasesiad a'r

adroddiadau sydd wedi'u cyflwyno i'r pwyllgorau drwy gydol y flwyddyn.  Nodwyd y camau gwella allweddol canlynol:

- Adolygu a diwygio Cod Ymddygiad y Swyddogion, y weithdrefn ar gyfer cofnodi datganiadau o gysylltiad, rhoddion a lletygarwch, a'r dull o ymateb i gofnodion felly.
- Capasiti a gwydnwch y gweithlu, a dibyniaeth ar ddeiliaid swyddi allweddol.
- Adolygu'r Polisi Rhannu Pryderon.
- Mynd i'r afael ag eithriadau, esemptiadau ac amrywiadau o Reolau'r Weithdrefn Gontractau (CPR).
- Gwasgfeydd parhaus ar y gyllideb ac ansicrwydd ynglŷn â chyllid. Hefyd, ymgymryd ag unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o adolygu'r Cod Rheolaeth Ariannol.
- Ansicrwydd ynglŷn â threfniadau cyllido yn y dyfodol ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Bydd darpariaeth y camau hyn yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a Grŵp Swyddogion Llywodraethu Corfforaethol.

Ym mis Medi, cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol:  Busnes a Llywodraethu adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn derbyn cymeradwyaeth y pwyllgor, cyn cyflwyno'r adroddiad i dderbyn cymeradwyaeth y Cyngor ym mis Tachwedd 2023.  Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnodau 2020 i 2021, 2021 i 2022 a 2022 i 2023 ac yn crynhoi cyfansoddiad a gwaith y pwyllgor.  Pan gyflwynir yr adroddiad hwn y flwyddyn nesaf (ar gyfer 2023-2024), ynghyd â nodi sut mae'r Pwyllgor wedi diwallu ei gylch gorchwyl; bydd hefyd yn cynnwys canlyniadau hunanarfarniad blynyddol y Pwyllgor o'i effeithiolrwydd o safbwynt y 'Datganiad Sefyllfa:  Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu' a chanllawiau cysylltiedig, a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn 2022. Bydd hynny'n galluogi'r Pwyllgor i fynegi unrhyw bryderon a fu ganddo ar hyd y flwyddyn, nodi'r hyn y mae wedi'i wneud i uwchgyfeirio'r materion hynny a/neu wneud argymhellion fel y bo'r angen.

Unwaith eto ym mis Medi, cyflwynwyd adroddiad blynyddol Pwyllgorau Craffu'r Cyngor ar gyfer 2022 i 2023 i dderbyn cymeradwyaeth y Cyngor.  Roedd yr adroddiad yn amlinellu prosesau, crynhoi'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, canlyniadau Craffu a cheisiadau gan breswylwyr.  Un o brif amcanion y broses graffu yw ychwanegu gwerth a cheisio sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r bobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â Sir Ddinbych.  Roedd yr adroddiad yn cynnwys enghraifft o ganlyniad cadarnhaol lle sefydlwyd rôl Swyddog Rheoli Rhostiroedd

o ganlyniad i argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Sefydlwyd y swydd hon yn 2020 yn dilyn Adolygiad y Pwyllgor o Dân Mynydd Llandysilio 2019. Cyflwynwyd adroddiad diweddaru i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2023 yn tynnu sylw at effaith gadarnhaol cael Swyddog Rhostir yn meithrin perthnasoedd da ac yn cydgysylltu gwaith aml-asiantaeth a budd-ddeiliaid mewn perthynas â chynlluniau ymateb i dân a rheoli cynefinoedd / llwyth tanwydd dros ardaloedd allweddol o Fryniau Clwyd, Mynydd Llandysilio a Rhostir Llandegla.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer rhannu pryderon yn cefnogi llywodraethu da ledled y Cyngor, sydd yn ei dro yn galluogi cyflawni blaenoriaethau'n effeithiol. I gefnogi hyn, cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi am weithrediad Polisi Rhannu Pryderon y Cyngor rhwng mis Ionawr 2021 a mis Ebrill 2023. Yn ystod y cyfnod hwn, codwyd chwe phryder newydd. Roedd yr adroddiad yn sensitif a chyfyngedig.

Rydym, yn ystod y cyfnod hwn, wedi cadarnhau'r trefniadau ar gyfer Asesiad Perfformiad Panel gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cyflwyno dyletswydd i Gynghorau i drefnu panel i gynnal ac ymateb i asesiad corfforaethol lefel sefydliad, o ran i ba raddau y mae'r Cyngor yn diwallu ei ofynion o ran perfformiad. Cytunwyd mai cyfrifoldeb y Tîm Gweithredol Corfforaethol yw'r asesiadau hyn ac fe geisir diwygiad cyfansoddiadol i adlewyrchu'r ddyletswydd hon. Byddwn yn cyfarfod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym mis Hydref i drafod trefniadau ymarferol Asesiad Perfformiad Panel.

## Bod yn agos at ein cymunedau

Gofynnodd y Bwrdd bod is-addewid ychwanegol yn cael ei ychwanegu yma ("Grymuso a galluogi ein cymunedau drwy annog arweinyddiaeth gymunedol a gwydnwch cymunedol"), i gofnodi'r gefnogaeth y mae'r Cyngor yn ei gynnig i gymunedau ledled y sir.

Yn ystod y cyfnod, rydym wedi bod yn cadarnhau drafft ein Polisi Ymgysylltu a Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn barod i geisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Arbennig ym mis Tachwedd. Mae'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn ofyniad deddfwriaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n ei gwneud yn ofynnol i brif awdurdodau gael strategaeth sy'n hyrwyddo ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r Cyngor, sut i ddod yn

Gynghorydd, a sut i ymwneud â phrosesau gwneud penderfyniadau lleol. Bydd ein Polisi Ymgysylltu yn nodi ein harferion gorau a bydd y Strategaeth yn canolbwyntio ein hymdrechion ar feysydd i'w gwella, ond dylent ategu at amcanion eraill fel cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Cymeradwywyd Strategaeth Gaffael newydd y Cyngor gan y Cabinet ym mis Medi. Dyfarnwyd pump o weithgareddau caffael cydweithredol yn ystod y cyfnod, ac ni fethwyd unrhyw gyfleoedd caffael cydweithredol. Am ragor o wybodaeth fanwl am berfformiad mewn perthynas â chaffael (gwariant y Cyngor gyda chyflenwyr lleol a chontractau yn cynnwys buddion cymunedol), gweler ein thema Sir Ddinbych Ffyniannus. a'r adran llywodraethu am gaffael.

Yn dilyn adolygiad cyfran, mae'r trothwyon ar gyfer canran y straeon newyddion negyddol am y Cyngor wedi'u hadolygu a'u haddasu. Roedd 'Blaenoriaeth i Wella' yn 7% neu'n is yn flaenorol, ond teimlir bod hyn yn afrealistig gan fod newyddion yn tueddu i gael tuedd negyddol. Felly mae'r trothwy wedi'i newid i 31% neu'n uwch. Mae'r trothwyon newydd hyn wedi'u cymhwyso i bwyntiau data ers dechrau'r Cynllun Corfforaethol newydd (Hydref 2022). Mae canran y straeon newyddion negyddol am y Cyngor (fel cyfran o bob stori newyddion am y Cyngor) wedi gostwng o 12.5% i 5.3% yn ystod y cyfnod hwn, ac mae hyn yn 'Rhagorol'.

Mae canran y cwynion allanol a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol dros y chwarter diwethaf wedi cynyddu o 29% i 55%. Mae hyn yn cynrychioli 33 o'r 60 o gwynion a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol ac a ystyrir yn 'Dderbyniol'. Ym mis Gorffennaf, cyflwynodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd adroddiad Cwynion Eich Llais ar gyfer 2022 i 2023 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg o'r canmoliaethau, awgrymiadau a chwynion a dderbyniodd Cyngor Sir Ddinbych dan bolisi adborth cwsmeriaid y Cyngor. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol a dderbyniwyd o dan ei drefn gwyno statudol. Eglurwyd rôl yr Awdurdod Safonau Cwynion i'r Pwyllgor, mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb am fonitro'r holl gwynion sy'n cael eu derbyn am Gynghorau yng Nghymru. Roedd y Cyngor wedi derbyn adroddiad drafft yr Ombwdsmon ar gyfer Sir Ddinbych yn ddiweddar gan nodi eu bod wedi derbyn 32 o gwynion yn y flwyddyn flaenorol ond dim ond wedi ymyrryd mewn dau o'r cwynion hynny; ac fe ddatryswyd y ddau yn anffurfiol.

Er eu bod 'Ar y trywydd iawn', mae'r gweithgareddau i 'Weithredu gofynion Deddf Etholiadau'r DU 2022 a diwygio etholiadol eraill' yn heriol. Mae cyflymder, maint ac

amrywiaeth y rhaglenni diwygio etholiadol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn her sylweddol ac yn risg i bob prif Gyngor. Mae’r Cyngor wedi cymryd camau i atgyfnerthu ei dîm etholiadol craidd ac yn cadw at y terfynau amser amrywiol er mwyn gweithredu’r mesurau gan gynnwys adnabod pleidleiswyr a diwygiadau o ran pleidlais absennol a phleidleiswyr tramor. Yn ystod y cyfnod hwn, mae’r tîm etholiadol wedi parhau i ymgymryd â hyfforddiant ac ymgysylltu mewn trafodaethau cenedlaethol a rhanbarthol ar weithgareddau gweithredu diwygiadau etholiadol. Bydd ail garfan y diwygiadau yn sgil y Ddeddf Etholiadau yn cael eu gweithredu o fis Hydref 2023, a bydd y rhain yn cyflwyno cymhlethdodau a risgiau sylweddol. Am y rheswm hwn, byddwn yn monitro’r risg yn agos drwy ein Gwasanaeth Cefnogi Corfforaethol: Cofrestr Risg Pobl.

### Bod â disgwyliadau clir ynghylch perfformiad

Yn dilyn ailddechrau ein Heriau Perfformiad Gwasanaeth, mae’r Bwrdd wedi awgrymu ein bod yn ychwanegu darpariaeth yr heriau hynny at yr addewid hwn.

Mae’r heriau hyn yn allweddol i sicrhau atebolrwydd a chefnogaeth i wasanaethau, ac er mwyn llunio dealltwriaeth ar y cyd o’n cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau. Cytunwyd ar gam gweithredu i wella sut mae ein gwasanaethau’n gweithio gyda’n system gwasanaethau i gwsmeriaid yn dilyn Her Perfformiad Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaethau Priffyrdd a’r Amgylchedd. Nodwyd bod parhau i ymgysylltu ag aelodau a sicrhau eu bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf yn parhau i fod yn bwysig yn ystod Her Perfformiad Gwasanaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad. Mae’r rhain yn alinio gyda’r addewidion eraill o dan y thema hon a bydd yn cael ei archwilio ymhellach gan ein Bwrdd Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy’n uchel ei berfformiad.

Nid ydym wedi derbyn unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwelliannau gan reoleiddwyr allanol (Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru). Ni fu unrhyw adroddiadau sicrwydd isel yn ystod y cyfnod hwn gan yr Adain Archwilio Mewnol. Rhwng mis Ebrill a mis Medi, roedd gan saith o’r deg o adolygiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd lefel sicrwydd uchel; roedd gan y tri a oedd yn weddill lefel sicrwydd canolig. Canfu’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2022 i 2023 na chadarnhawyd unrhyw un o’r atgyfeiriadau a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y flwyddyn.

Daeth Pennaeth Addysg i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi i drafod yr adroddiad yn dilyn yr Adolygiad ar y cyd gan yr Arolygiaeth o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) a gynhaliwyd yn Sir Ddinbych ym mis Chwefror 2023, a oedd yn cynnwys

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor fel eitem gyfrinachol Rhan 2.

Rhannodd Archwilio Cymru ei Adroddiad Asesu Sicrwydd a Risg ar gyfer blwyddyn archwilio 2021 i 2022 gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar oblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (gan gynnwys trefniadau hunanasesu) a chynlluniau lleihau carbon. Fe wnaeth Archwilio Cymru'r argymhelliad canlynol: "Mae'n rhaid i'r Cyngor gyfrif costau llawn ei gynllun gweithredu er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r cynllun. Dylai hyn gynnwys costau manwl ar gyfer y cyfnod yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r rhagamcanion ehangach ar gyfer gweddill y cynllun".

Roedd ein llinyn mesur ar amrywiant y gyllideb ar gyfer y cyfnod hwn (h.y. yr hyn sydd gennym a'r hyn rydym yn ei dderbyn yn erbyn yr hyn rydym yn ei wario) yn £3.119 miliwn. Roedd cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn parhau yn £5.531 miliwn.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, rydym wedi dechrau monitro'r gwariant y sefyllfa refeniw derfynol fesul pen o'r boblogaeth, ac rydym yn ei feincnodi'n genedlaethol. Nid yw data ar gyfer 2022 i 2023 wedi'i gyhoeddi'n genedlaethol hyd yma a bydd ar gael yn ein hadroddiad nesaf. Er bod hyn yn un llinyn mesur bras a allai arwain at gael ei archwilio ochr yn ochr â chyfraddau treth y Cyngor er enghraifft, mae'n darparu cipolwg o drafodaeth am werth am arian, sy'n un o'n haddewidion o dan y thema hon; addewid a fydd yn cael ei ystyried ymhellach gan y Bwrdd newydd.

Roedd cyfanswm o 20 risg yn ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol ym mis Chwefror 2023, ac roedd 11 ohonynt yn anghyson â'n parodrwydd i dderbyn risg (55%). Caiff hyn ei ystyried fel 'Blaenoriaeth i wella'. Dechreuodd ein hadolygiad o'r Gofrestr ym mis Medi 2023, gydag adroddiadau wedi'u trefnu i'w cyflwyno i sesiwn Friffio'r Cabinet, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Phwyllgor Craffu Perfformiad ym mis Tachwedd. Er nad yw wedi'i gymeradwyo eto, ym mis Medi, nid yw 54% o'n risgiau corfforaethol yn cyd-fynd â datganiad parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor.

Diweddarwyd yr holl brosiectau yn ystod y cyfnod, ac mae'r perfformiad yn 'Rhagorol'. Mae hyn yn welliant o 1.9% ers y cyfnod adrodd diwethaf. Ni chafodd unrhyw brosiect ei nodi fel 'Dan Fygythiad'. Cafodd bron i hanner (46.2%) o holl linynnau mesur y Cynllun Corfforaethol eu nodi fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, sy'n cael ei ystyried yn 'Dderbyniol'.

## Hyrwyddo cysylltiadau cryf rhwng staff ac aelodau etholedig

Wrth adlewyrchu, mae elfen allweddol o'r addewid ar goll yn ein disgrifiad ac am y rheswm hwn, mae'r Bwrdd wedi gofyn am gael ychwanegu'r geiriau canlynol: "Sicrhau cyfathrebu da a chysylltiadau gwaith agos rhwng aelodau etholedig a swyddogion".

Ym mis Gorffennaf, gofynnwyd i'r Cyngor Sir am eu barn a'u harweiniad or ran y gofynion ar gyfer hyfforddiant aelodau. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor ar gyfer hyfforddiant gorfodol mewn perthynas â Chod Ymddygiad yr Aelodau, unrhyw hyfforddiant arall a ddylai fod yn orfodol; terfynau amser i'w cwblhau; a chosbau am beidio â chydymffurfio (ac eithriadau). Cytunwyd y dylid ychwanegu hyfforddiant aelodau at raglen cyfarfod nesaf Arweinwyr Grwpiau a'i gyflwyno eto i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor ym mis Medi eu bod wedi cynnal rôl ragweithiol dros y flwyddyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Cod Ymddygiad ac ymddygiad moesegol yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus, sydd hefyd yn adlewyrchu ein gwerthoedd. Rôl allweddol ar gyfer y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol fydd derbyn adroddiad blynyddol gan bob Arweinydd Grŵp ar eu hymdrechion sy'n cyfrannu at gydymffurfiaeth gyda'r ddyletswydd newydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan eu haelodau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae grŵp newydd, Grŵp Cyswllt Moesegol, wedi'i sefydlu a bydd yn cwrdd yn rheolaidd i drafod ymddygiad fel rhan o'r ddyletswydd newydd a roddir ar arweinwyr grwpiau i hyrwyddo ymddygiad moesegol.

## Sicrhau bod Cyngor Sir Ddinbych yn gyflogwr da ac yn lle gwych i weithio.

Ym mis Medi 2023, roedd canran y staff a oedd yn gymwys am un neu dri chyfarfod un i un ac sydd wedi cael o leiaf un neu dri chyfarfod un i un yn ystod y 12 mis diwethaf yn 56%, sydd wedi gostwng o 58% yn y cyfnod diwethaf. Mae hwn yn gyfanswm treigl. Yn dilyn yr Heriau Perfformiad Gwasanaeth sydd eisoes wedi'u cynnal, mae'n amlwg bod angen camau ehangach i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn cyfarfodydd un i un rheolaidd. Efallai bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal ond nad ydynt yn cael eu cofnodi. Bydd y Bwrdd Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad yn archwilio hyn ymhellach. O ystyried pwysigrwydd cyfarfodydd un i un mae'r Bwrdd wedi gofyn am gyfeiriad penodol at "sicrhau bod yr holl staff yn derbyn cyfarfodydd un i un rheolaidd gyda'u rheolwr atebol" yn yr addewid.

Mae data absenoldeb salwch ar gyfer cyfnod mis Ebrill i fis Mehefin 2023 ar gael yn awr ac roedd yn 8.83 diwrnod fesul swydd cyfwerth â llawn amser. Mae perfformiad yn 'Flaenoriaeth i wella' ar gyfer y cyfnod, yn 8.82 diwrnod. Byddwn yn adolygu ein trothwyon perfformiad pan fydd data meincnodi cenedlaethol ar gael gyda blwyddyn o ddata sydd heb ei effeithio gan gyfyngiadau Covid-19.

Roedd canran y gweithwyr sydd wedi cwblhau pob un o'r 9 modiwl e-ddysgu gorfodol (ac eithrio ysgolion) yn 49.8% ym mis Medi (sy'n uwch na'r 51% yn y cyfnod diwethaf) ac mae'n 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. O'r cyfnod hwn ymlaen byddwn yn monitro hyn yn flynyddol yn hytrach na bob chwarter. Rydym yn rhagweld y bydd y data'n dechrau edrych yn wahanol iawn wrth i ni edrych a oes cyrsiau sy'n hwyr ac nid wedi'u cwblhau'n unig. Am y rheswm hwn, rydym yn rhagweld y bydd canran y staff sydd wedi cwblhau'r e-ddysgu gorfodol yn gostwng. Bydd AD yn monitro cyfraddau cwblhau'n ofalus drwy eu systemau adrodd misol.

Mae'r thema, hyd yma, wedi cynnwys dau linyn mesur o ran trosiant staff: canran y gweithwyr sy'n gadael Sir Ddinbych fel canran o gyfanswm y gweithlu gan eithrio ysgolion, a'r canran gan gynnwys ysgolion. Gan fod y llinyn mesur diwethaf, sy'n cynnwys ysgolion, yn anoddach derbyn data cymharol cenedlaethol ar ei gyfer, byddwn yn canolbwyntio ar y llinyn mesur sy'n eithrio ysgolion yn y dyfodol. Ar gyfer absenoldeb salwch, byddwn yn adolygu ein trothwyon ar gyfer perfformiad mewn perthynas â throsiant staff ym mis Ebrill 2024.

## Fframwaith Perfformiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau sy'n cefnogi caffael a buddion cymunedol, gweler ein thema Sir Ddinbych ffyniannus.

## Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 | Chwarter 2 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran llinynnau mesur y Cynllun Corfforaethol sydd wedi'u nodi fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 51%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yr un fath | Dim data: nid yw'n berthnasol | 49.5%<br>Derbyniol<br>Gwell | 48.3%<br>Derbyniol<br>Gwell | 46.2%<br>Derbyniol<br>Gwell |
| Nifer y prosiectau ar y gofrestr prosiectau sydd 'Dan Fygythiad' – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 2<br>Derbyniol<br>Gwaeth | 1<br>Da<br>Gwell | 1<br>Da<br>Yr un fath | 0<br>Rhagorol<br>Gwell | 0<br>Rhagorol<br>Yr un fath |
| Canran y prosiectau lle cafodd hyder o ran cyflawni ei ddiweddaru yn y tri mis diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 100%<br>Rhagorol<br>Gwell | 95%<br>Da<br>Gwaeth | 96%<br>Da<br>Wedi gwella | 96%<br>Da<br>Yr un fath | 100%<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Canran y risgiau corfforaethol sy'n anghyson â datganiad parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 55%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | Dim data: nid yw'n berthnasol | 55%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yr un fath | Dim data: nid yw'n berthnasol | 54%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Nifer cronnus yr adroddiadau negyddol gan reoleiddwyr allanol – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 0 | 0<br>Rhagorol<br>Yr un fath | 0<br>Rhagorol<br>Yr un fath | 0<br>Rhagorol<br>Yr un fath | 0<br>Rhagorol<br>Yr un fath |
| Nifer cronnus yr adroddiadau sicrwydd isel gan Archwilio Mewnol, yn y flwyddyn ariannol hyd yma - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 0 | 0<br>Rhagorol<br>Yr un fath | 0<br>Rhagorol<br>Yr un fath | 0<br>Rhagorol<br>Yr un fath | 0<br>Rhagorol<br>Yr un fath |
| Amrywiant Cyllideb Corfforaethol a Gwasanaeth (£k) – **Cyfrif yn Unig** | 2,661 | 2,189 | 1,585 | 3,348 | 3,119 |

| Teitl | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 | Chwarter 2 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian wrth gefn y Cyngor (£k) – **Cyfrif yn Unig** | 7,135 | 7,135 | 5,531 | 5,531 | 5,531 |
| Straeon newyddion negyddol fel canran o'r holl straeon newyddion am y Cyngor - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 11% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 12% Rhagorol Gwaeth | 14% Rhagorol Gwaeth | 12.5% Rhagorol Gwell | 5.3% Rhagorol Gwell |
| Canran y cwynion allanol a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol dros y chwarter diwethaf **wedi'i feincnodi'n lleol** | 67% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 53% Derbyniol Gwell | 42% Da Gwell | 29% Rhagorol Gwell | 55% Derbyniol Gwaeth |
| Canran yr Aelodau sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Cod Ymddygiad – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 100% Rhagorol | 98% Rhagorol Gwaeth |
| Cyfartaledd treigl nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau a gollwyd fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth â llawn amser oherwydd absenoldeb salwch - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 10 Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 9.8 Blaenoriaeth i Wella Gwell | 9.8 Blaenoriaeth i Wella Yr un fath | 8.83 Blaenoriaeth i Wella Gwell | 8.82 Blaenoriaeth i Wella Gwell |
| Canran y staff sy'n gymwys am un neu dri chyfarfod un i un ac sydd wedi cael o leiaf un neu dri chyfarfod un i un yn ystod y 12 mis diwethaf (fesul person) – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 52% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 53% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 61% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 58% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 56% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth |

| **Teitl** | **Chwarter 2 2022 - 2023** | **Chwarter 3 2022 - 2023** | **Chwarter 4 2022 - 2023** | **Chwarter 1 2023 - 2024** | **Chwarter 2 2023 - 2024** |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y staff y mae gennym wybodaeth monitro cydraddoldeb ar eu cyfer – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 76% Rhagorol Gwell | 72% Rhagorol Gwaeth | 71.5% Rhagorol Gwaeth | 67% Rhagorol Gwaeth | 69.4% Rhagorol Gwell |
| Canran y gweithwyr sydd wedi cwblhau pob un o'r 9 modiwl e-ddysgu gorfodol erbyn diwedd y flwyddyn (ac eithrio ysgolion) – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. | Dim data. | 49% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 51% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 49.8% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth |
| Nifer y gweithgareddau caffael ar hyn o bryd – **Cyfrif yn Unig** | 2 | 1 | 2 | 0 | 5 |
| Nifer y gweithgareddau caffael a fethwyd – **Cyfrif yn Unig** | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 |

### Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

### Data 2019 - 2022

| **Teitl** | **2019 - 2020** | **2020 - 2021** | **2021 - 2022** |
|---|---|---|---|
| Canran y penodai newydd o geisiadau lle datgelwyd eu bod o grŵp hil neu grefyddol lleiafrifol, eu bod ag anabledd, yn hoyw neu'n ddeurywiol, neu eu bod wedi ailbennu eu rhywedd - **Cyfrif yn Unig** | 15% | 4% | 21% |

### Data 2021 - 2023

| **Teitl** | **2021 - 2022** | **2022 - 2023** |
|---|---|---|
| Canran y gwahaniaeth yng nghymedr cyfradd tâl bob awr i ferched – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 6.7% Derbyniol | -13.4% Rhagorol Gwell |

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran y cyflogau isaf a delir (chwarter isaf) sy'n ferched – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 79.3%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 80.7%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Canran presenoldeb aelodau etholedig (cyfredol ac a ddisgwylir) yn y flwyddyn hyd yma - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 89% | 84%<br>Da<br>Gwaeth |
| Canran y gweithwyr sy'n gadael Sir Ddinbych, fel canran o'r gweithlu cyfan (ac eithrio ysgolion) – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 10.6%<br>Da<br>Gwaeth | 12.4%<br>Derbyniol<br>Gwaeth |
| Gwariant y sefyllfa refeniw derfynol fesul pen o'r boblogaeth (£) - **Cyfrif yn Unig** | 2,913.25<br>Aros am y trothwyon | Aros am ddata. Ar gael ym mis Tachwedd 2023 |

### Arolwg Budd-ddeiliaid 2022 i 2023

Rydym wedi diwygio sut yr ydym yn dadansoddi ymatebion i'r Arolwg Budd-ddeiliaid i gynnwys statws ar gyfer y rhai sydd wedi mynegi safbwynt ac yn cytuno (yn flaenorol roeddem yn cynnwys ymatebion "Ddim yn gwybod" a "Dim barn neu'n ansicr" yn ein dadansoddiad).

| Teitl | Cytuno | Anghytuno | Dim barn neu'n ansicr | Gyda barn, a chytuno |
|---|---|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn dryloyw, yn cael ei gynnal yn dda ac yn uchel ei berfformiad – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 41% | 42% | 17% | 49%<br>Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn gweithio'n dda gyda phartneriaid – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 41% | 15% | 44% | 74%<br>Da |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod perthynas waith dda rhwng arweinwyr gwleidyddol ac | 29% | 24% | 47% | 55%<br>Derbyniol |

| Teitl | Cytuno | Anghytuno | Dim barn neu'n ansicr | Gyda barn, a chytuno |
|---|---|---|---|---|
| uwch reolwyr – **wedi'i feincnodi'n lleol** | | | | |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn rheoli ei berfformiad yn dda – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 42% | 38% | 20% | 53% Derbyniol |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn rheoli ei risgiau a'i heriau yn dda – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 42% | 34% | 24% | 55% Derbyniol |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn rheoli ei gyllid yn dda – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 37% | 41% | 22% | 48% Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod gan y Cyngor gynlluniau hirdymor effeithiol yn eu lle – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 38% | 30% | 32% | 56% Derbyniol |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn trin ei weithlu'n dda – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 48% | 16% | 36% | 76% Rhagorol |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i asedau a'i adnoddau – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 28% | 52% | 20% | 35% Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn prynu ei nwyddau a gwasanaethau mewn modd effeithlon a theg – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 28% | 25% | 47% | 54% Derbyniol |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn gweithredu ar bryderon preswylwyr – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 39% | 42% | 19% | 48% Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn trin pawb yn deg – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 42% | 31% | 27% | 58% Derbyniol |

| Teitl | Cytuno | Anghytuno | Dim barn neu'n ansicr | Gyda barn, a chytuno |
|---|---|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau'r Cyngor yn adlewyrchu anghenion y gymuned leol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 37% | 36% | 27% | 51% Derbyniol |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiectau

Mae 20 o brosiectau gweithgareddau sy'n cefnogi'r thema. Ar hyn o bryd mae naw gweithgaredd 'Ar y trywydd iawn', chwech yn 'Profi Rhwystrau', dau wedi'u cwblhau a thri wedi'u gohirio. Bydd ein hadroddiad nesaf yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Bwrdd Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad mewn perthynas â phum addewid y thema.

### Prosiectau neu Weithgareddau

| Teitl | Statws | Eithriad |
|---|---|---|
| Paratoi ar gyfer Adolygiad gan Gymheiriaid ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Ar y trywydd iawn Gwell | Dim eithriad |
| ***GWEITHGAREDD A AWGRYMIR:*** *Datblygu a lansio fframwaith gwasanaeth i gwsmeriaid newydd (yn gysylltiedig â'n Strategaeth y Gymraeg a'n Polisi Iaith Gymraeg)* | Wedi'i ohirio | Mae hyn wedi'i ohirio. Mae grwpiau tasg a gorffen ar gyfer pob un o'r pum addewid wedi'u sefydlu a byddant yn ystyried hyn dros y chwe mis nesaf. |
| ***GWEITHGAREDD A AWGRYMIR:*** *Caffael System Rheoli Cyswllt Cwsmer (CRM) corfforaethol newydd (terfyn amser 2025)* | Wedi'i ohirio | Mae hyn wedi'i ohirio. Mae grwpiau tasg a gorffen ar gyfer pob un o'r pum addewid wedi'u sefydlu a byddant yn ystyried hyn dros y chwe mis nesaf. |
| Gweithredu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd | Ar y trywydd iawn | Bydd strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo yng |

| Teitl | Statws | Eithriad |
|---|---|---|
| | | nghyfarfod arbennig y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Tachwedd. |
| Datblygu Strategaeth Cydgynhyrchu (ar draws CSDd) | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Ar hyn o bryd yn ystyried modelau sy'n cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol eraill ac yn ceisio cysylltu gyda rhwydwaith cyd-gynhyrchu Cymru o fis Hydref 2023. Rydym yn ystyried sut y mae hyn yn cysylltu gyda themâu'r Cynllun Corfforaethol a sut y gall gefnogi eu darpariaeth. |
| Diweddaru'r strategaeth gaffael (i fod yn brosiect newydd: Gweithredu'r strategaeth gaffael newydd i gyflawni datgarboneiddio ac egwyddorion Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)) | Wedi'i gwblhau | Dim eithriad |
| Datblygu a sicrhau bod y Grŵp Rheoli Asedau yn mabwysiadu'r Strategaeth Rheoli Asedau newydd | Profi Rhwystrau<br>Gwaeth | Y bwriad oedd cyflwyno'r cynllun portffolio diwygiedig cyntaf i'r Grŵp Rheoli Asedau ym mis Medi ond mae wedi'i ohirio tan fis Tachwedd yn awr. Bydd cynlluniau portffolio yn llywio datblygiad y Strategaeth Rheoli Asedau newydd. Rhagwelir y bydd cam nesaf y prosiect yn edrych ar swyddfeydd ystadau'r Cyngor h.y. beth sydd ei angen ac ymhle, fel rhan o'r prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio. |
| Datblygu a chyflawni cynlluniau portffolio i bennu siâp, maint a defnydd asedau yn y dyfodol ar gyfer pob un o bortffolios rheoli asedau'r Cyngor | Profi Rhwystrau<br>Gwaeth | Mae gwaith wedi dechrau ar y cynlluniau portffolio sy'n weddill a bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Rheoli Asedau dros weddill y flwyddyn. Mae hyn hefyd yn destun oedi ar ôl gohirio cyflwyno adroddiad i'r Grŵp Rheoli |

| Teitl | Statws | Eithriad |
|---|---|---|
| | | Asedau o fis Medi i fis Tachwedd. |
| Cynnal adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithlu Corfforaethol 2022 i 2027 | Ar y trywydd iawn | Bydd gwaith cynllunio'r gweithlu'n dechrau pan fydd yr holl Benaethiaid Gwasanaeth newydd yn eu swyddi, disgwylir y bydd hyn yn digwydd erbyn mis Tachwedd 2023. |
| ***GWEITHGAREDD A AWGRYMIR:*** *Sicrhau bod gwerth am arian yn rhan greiddiol o ddiwylliant ein sefydliad, a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gytbwys drwy ystyried ansawdd gwasanaeth a gwerth cymdeithasol.* | Wedi'i ohirio | Mae'r gweithgaredd a awgrymir yma wedi'i ohirio. Mae grwpiau tasg a gorffen ar gyfer pob un o'r pum addewid wedi'u sefydlu a byddant yn ystyried hyn dros y chwe mis nesaf. |
| Sefydlu'r Grŵp Cyswllt Moesegol | Cwblhawyd | Sefydlwyd y Grŵp a bydd yn cyfarfod yn rheolaidd. |
| Diweddaru Cod Ymddygiad yr Aelodau, i gynnwys terfynau amser y disgwylir i'r Aelodau gadw atynt o ran cwblhau hyfforddiant Cod Ymarfer | Profi Rhwystrau<br><br>Gwell | Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn yr hydref 2023. |
| Datblygu fframwaith i arwain cynghorwyr ar sut i ymdrin ag aflonyddwch, camdriniaeth a bygythiadau | Ar y trywydd iawn<br><br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gweithredu gofynion newydd Deddf Etholiadau'r DU 2022 a diwygiadau etholiadol eraill | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Sicrhau bod y Cyfansoddiad yn addas i'r diben yn dilyn newidiadau a wnaed yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Codi ymwybyddiaeth am faterion iechyd meddwl ar draws y Cyngor drwy gyflwyno ac ymgorffori cynllun gweithredu Amser i Newid | Ar y trywydd iawn<br><br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Ymgorffori'r polisi gweithio ystwyth newydd a chefnogi unrhyw anghenion dysgu a datblygu ohono | Ar y trywydd iawn<br><br>Yr un fath | Dim eithriad |

| Teitl | Statws | Eithriad |
|---|---|---|
| Gwella'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu, gan gynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb, i gefnogi dadansoddiadau mwy manwl mewn Adroddiadau Dyletswydd Sector Cyhoeddus yn y dyfodol | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Bydd arolwg casglu data'n cael ei lansio o fis Hydref i fis Rhagfyr i sicrhau bod gennym gymaint o ddata yn y system AD â phosibl. |
| Cyflawni cynllun gweithredu'r Grŵp Gweithredol Recriwtio a Chadw Gofal Cymdeithasol | Profi Rhwystrau<br>Gwaeth | Parhau i ffurfioli llwybr 'ein hunain' ar gyfer Therapi Galwedigaethol gyda phartneriaid, a gweithio gyda cholegau i ddarparu lleoliadau awdurdod lleol a darparwyr fel llwybr i dderbyn cyflogaeth. Mae swydd Cydlynydd Partneriaeth Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd ac mae rhywfaint o'r gweithgareddau wedi'u gohirio. |
| Y Drydedd Genhedlaeth - Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |

## Hunanasesiad: Meysydd Llywodraethu

Mae ein saith maes llywodraethu allweddol yn ein hunanasesiad wedi'u hamlinellu isod ac yn ceisio rhoi darlun o ba mor dda mae'r Cyngor yn perfformio, sut rydym yn gwybod hynny (gan gyfeirio at dystiolaeth lle bo modd), a sut gallwn wella. Mae ein crynodebau newyddion wedi'u cynnwys yn yr holl adrannau llywodraethu.

## Cynllunio Corfforaethol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Mae Cynllunio Corfforaethol yn ymwneud â sut mae'r Cyngor yn gosod amcanion strategol ac yn gwneud trefniadau i'w cyflawni.

### Trefniadau Llywodraethu'r Cynllun Corfforaethol

Rhannwyd y trefniadau terfynol o ran llywodraethu'r Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027 gyda'r Cyngor Sir ym mis Gorffennaf. Wedi hynny, mae'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad wedi bod yn gweithio gyda'r Prif Weithredwr, cyfarwyddwyr corfforaethol ac

aelodau cabinet i gytuno ar ddogfennau diffinio rhaglen a rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y pum Bwrdd, sef:

- Bwrdd Tai a digartrefedd
- Bwrdd Sir Ddinbych Ffyniannus
- Bwrdd Sir Ddinbych mwy gwyrdd
- Bwrdd Sir Ddinbych sy'n Decach, Diogel a Mwy Cyfartal
- Bwrdd Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad

Ar gyfer y rhai nad ydynt yn cael eu goruchwylio gan Fwrdd (Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus, Sir Ddinbych sy'n Dysgu a Thyfu; Sir Ddinbych wedi'i Gysylltu'n Well; a Sir Ddinbych â Diwylliant Bywiog lle mae'r Iaith Gymraeg yn Ffynnu), mae cyfarfodydd chwarterol wedi'u trefnu rhwng Swyddogion Cynllunio Strategol a Pherfformiad a'r Aelod Cabinet perthnasol ac mae'r Tîm Gweithredol Corfforaethol yn arwain i fonitro perfformiad a nodi meysydd i'w gwella. Mae'r trefniadau hyn yn ategu at yr adroddiadau chwarterol rheolaidd drwy'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Cabinet, a Phwyllgor Craffu Perfformiad, ein hunanasesiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor Sir, ac adolygiadau carfan bob chwe mis gyda'r holl Benaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau Cabinet.

### Adolygiad Carfan o'r Cynllun Corfforaethol

Ym mis Medi, cynhaliodd y Cabinet a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth adolygiad ail garfan ar y Cynllun Corfforaethol, a oedd yn canolbwyntio ar adolygu gwybodaeth am berfformiad a gyflwynwyd yn yr Hunanasesiad blynyddol o'r Adroddiad Perfformiad (yr adroddiad cyntaf yn seiliedig ar Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cynllun Corfforaethol newydd). Nodwyd sawl cam gweithredu yn y cyfarfod i'r Byrddau Cynllunio Corfforaethol newydd ac arweinwyr strategol eu harchwilio a'u datblygu, ond roedd y drafodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar yr angen i fod yn eglur am ein disgwyliadau o ran perfformiad a chywirdeb ein hadroddiadau. Yn y cyd-destun ariannol presennol, mae'n bwysig bod y Cyngor yn parhau i adolygu perthnasedd y mesuryddion perfformiad y mae'n eu defnyddio, priodoldeb y trothwyon a gytunwyd, a hyfywedd y prosiectau.

### Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Cynhaliwyd paneli penodi pellach ym mis Gorffennaf ar gyfer y dair swydd Pennaeth Gwasanaeth a oedd angen eu llenwi. Penodwyd Catrin Roberts fel Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl; Penodwyd Helen Vaughan-Evans fel Pennaeth

y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad Digidol ac Asedau; ac Elizabeth Thomas fel Pennaeth Cyllid ac Archwilio. Rhain yw'r penodiadau olaf yn dilyn ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r strwythur newydd, ewch i'n gwefan.

### Cytuno a gweithredu dull Cyngor cyfan ar gyfer Ffyrdd Newydd o Weithio

Yn dilyn ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes sydd bellach yn gyfrifol am y prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio. Rhagwelir y bydd cam nesaf y prosiect yn edrych ar swyddfeydd ystadau'r Cyngor h.y. beth sydd ei angen ac ymhle.

### Ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Ar ôl cyhoeddi methodoleg CLlLC ym mis Mehefin, a'n trafodaethau cychwynnol o ran trefniadau ar gyfer Asesiad Perfformiad Panel gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Cabinet, yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi cyflwyno papur i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i geisio eu hargymhelliad i ddiwygio cyfansoddiad y Cyngor. Y diben yw darparu eglurder o ran y dewis lleol a ganiateir yn y ddeddfwriaeth o ran cyfrifoldeb ar gyfer y broses asesu - h.y. a yw'n gyfrifoldeb i'r Tîm Gweithredol neu'r Cyngor Sir. Derbyniwyd y cynnig bod y Tîm Gweithredol yn gyfrifol, a bydd argymhelliad am ddiwygiad i'r cyfansoddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ym mis Tachwedd. Yn y cyfamser, wedi derbyn cyfeiriad o ran amserlen ac ymagwedd a ffefrir, gallwn symud ymlaen â thrafodaethau gyda CLlLC o ran y trefniadau ymarferol. Mae cyfarfod cychwynnol wedi'i drefnu ar gyfer diwedd mis Hydref. Mae eithriad caffael hefyd yn cael ei geisio drwy'r timau cyfreithiol a chaffael.

## Cynllunio Ariannol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Mae cynllunio ariannol yn ymwneud â rheoli ein hincwm a'n gwariant.

### Adroddiadau Diweddaru Cyllid

Yn ei gyfarfodydd ym mis Gorffennaf a mis Medi, derbyniodd y Cabinet y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol y Cyngor. Y gyllideb refeniw net ar gyfer 2023-2024 oedd £250.793 miliwn (sy'n fwy na'r £233.696 miliwn yn 2022-2023). Rhagwelwyd gorwariant o £3.119 miliwn ar sefyllfa cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol (gorwariant o 2.395

miliwn fis diwethaf). Roedd y cynnydd yn bennaf yn sgil pwysau ychwanegol o fewn gofal cymdeithasol i blant a digartrefedd. Roedd angen i wasanaethau adolygu eu holl wariant ac incwm er mwyn lliniaru ar effaith y gorwariant cyffredinol. Gellir defnyddio'r gronfa wrth gefn ar gyfer lliniaru ar y gyllideb i dalu am y gorwariant eleni, ond byddai hynny ar draul yr adnoddau a fydd ar gael wrth ymateb i wasgfeydd annisgwyl mewn blynyddoedd i ddod. Yng nghyllideb 2023-2024, roedd gofyn dod o hyd i arbedion gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd o £8.172 miliwn a chymerir bod y rhain wedi eu cyflawni. Ar ddiwedd mis Awst, roedd cyfanswm benthyciadau'r Cyngor yn £264.454miliwn ar gyfradd gyfartalog o 4.28%. Roedd y balansau buddsoddi yn £10.7 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 3.53%.

Yn yr adroddiad, roedd y gyllideb ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Plant yn parhau fel maes pryder, gan fod y gwariant a ragwelwyd yn £1.041 miliwn oherwydd pwysau ym maes gofal cymdeithasol plant. Roedd cyllideb Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Digartrefedd hefyd yn parhau'n faes risg uchel; roedd y sefyllfa derfynol a ragwelir yn £2.152 miliwn oherwydd pwysau o ran costau lleoliadau (£1.3 miliwn) a digartrefedd (£0.9 miliwn). Ar gyfer ysgolion, roedd y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar gyfer 2023-2024 yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad ychwanegol net o £3.03 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion (heb gynnwys cynnydd mewn grantiau gan Lywodraeth Cymru). Yr amcanestyniad diweddaraf ar gyfer balansau ysgol i'w cario ymlaen i 2024-2025 yw credyd net gwerth £2.624 miliwn, sy'n gyfwerth â gostyngiad o £6.315 miliwn yn y balans a ddygwyd ymlaen i 2023-2024, sef £8.939 miliwn. Roedd balansau agoriadol uchel yn ymwneud yn bennaf â derbyn cyllid untro i'w wario ar raglenni dal i fyny ac adfer mewn ysgolion. Mae tanwariant bychan o £162,000 ar gyllidebau ysgolion sydd heb eu dirprwyo.
Rhagwelwyd yn yr adroddiad y byddai cyllidebau corfforaethol yn adennill costau, ond fe amlygwyd risgiau yn ymwneud â setliadau cyflog, ynni a phwysau chwyddiant eraill fel rhai sydd angen eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf gan ei bod hi'n anodd eu mesur a hithau'n gynnar yn y flwyddyn.

O ran y Cyfrif Refeniw Tai, mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn rhagdybio gostyngiad o £804,000 mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â £922,000 pan gafodd y gyllideb ei chymeradwyo. Roedd hyn yn ymwneud â gostyngiad yn yr incwm rhent a amcangyfrifwyd, a gaiff ei gydbwyso gan gyfraniad is i raglen gyfalaf y CRT. Rhagwelir felly y bydd balansau'r CRT yn £764,000 ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gyllideb Gyfalaf o £24 miliwn yn cael ei rhannu'n bennaf rhwng gwelliannau arfaethedig i'r stoc dai bresennol (£12 miliwn) a chaffaeliadau a datblygiadau tai newydd (£12 miliwn).

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o Gynllun Cyfalaf y Cyngor. Mae'r Cynllun Cyfalaf a gymeradwywyd yn £113.2 miliwn ac mae'r gwariant hyd yma'n £25.1 miliwn.

### Datganiad Cyfrifon

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i baratoi datganiad cyfrifon sy'n cydymffurfio â'r safonau cyfrifo a gymeradwyir. Fel y nodwyd yn yr adroddiadau perfformiad blaenorol, mae'r dasg o sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2021 i 2022 yn cael ei gymeradwyo gan Archwilio Cymru'n cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Ond, yng nghyfarfod mis Medi, cymeradwywyd cyfres derfynol o gyfrifon wedi'u harchwilio ar gyfer 2021 i 2022 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae drafft cyntaf y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2022-2023 wedi'i gyflwyno i'r archwilwyr allanol ac wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi er gwybodaeth. Ar ôl ymgynghori ag Archwilio Cymru, y bwriad ar hyn o bryd yw bod y cyfrifon a archwiliwyd yna'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y gwanwyn yn 2024 i'w cymeradwyo'n ffurfiol.

### Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys

Yn y cyfarfodydd ym mis Gorffennaf a mis Medi, adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys, sy'n amlinellu gweithgarwch buddsoddi a benthyca'r Cyngor ar gyfer 2022 i 2023. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi manylion ar yr hinsawdd economaidd yn ystod y cyfnod ac yn dangos sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i Ddangosyddion Darbodus. Roedd y benthyciad oedd gan y Cyngor heb ei dalu ar 31 Mawrth 2023 yn £261.5 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 4.15%. Roedd ganddo hefyd £24.2 miliwn mewn buddsoddiadau ar gyfradd gyfartalog o 3.41%. Atgoffwyd yr Aelodau bod tair blaenoriaeth wrth fuddsoddi cyllid, ac o'r rhain, y ffactorau allweddol ar gyfer Sir Ddinbych oedd diogelwch a hylifedd.

Bu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu Adroddiad Diweddaru Rheoli'r Trysorlys hefyd, sy'n darparu manylion am weithgareddau rheoli'r trysorlys y Cyngor yn ystod 2023 i 2024 hyd at fis Mehefin. Roedd y wybodaeth ddiweddaraf yn nodi strategaeth fenthyca'r awdurdod, ac roedd yn debygol y byddai angen benthyca ychwanegol. Y prif reswm dros y cynnydd o ran benthyca oedd cynllun Llifogydd y Rhyl. Byddai'n rhaid i'r Cyngor ariannu'r prosiect er mwyn gallu ad-ennill yr arian gan Lywodraeth Cymru'n ddiweddarach. Roedd cyfraddau llog yn uchel ar hyn o bryd, ac roedd hyn yn effeithio ar gostau benthyciadau. Mae'r Cyngor yn ceisio benthyca'n fyr dymor lle bo modd gan awdurdodau eraill, ac yn

derbyn cyngor gan ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys Arlingtonclose Ltd. Byddai sefyllfa'r gyllideb a'r Cynllun Cyfalaf yn cael eu monitro yn sgil y rhagolygon ariannol sy'n gwaethygu yn y tymor canolig. Roedd adolygiad o'r polisi gwyngalchu arian wedi dechau, gyda drafft o'r polisi newydd ar gael.

### Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

### Pwysau ar y gyllideb

Mae'r Cyngor yn wynebu bylchau cyllid sylweddol yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r bwlch cyllid (neu bwysau cyllidebol) wedi codi yn sgil cyfraddau chwyddiant uchel (popeth yn costio mwy i ni), setliadau cyflog a mwy o alw am ein gwasanaethau, yn enwedig o ran gofal cymdeithasol plant ac oedolion. Mae Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Chabinet y Cyngor yn gweithio'n agos i gyflwyno cyllideb gytbwys er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn sefydlog o safbwynt ariannol yn awr ac yn y dyfodol. Rydym yn ystyried yr holl ddewisiadau o ran y ffordd orau o ganfod yr arbedion yn y flwyddyn nesaf er mwyn gallu cyllido'r bwlch cyllid, ac er mwyn gosod cyllideb gytbwys. Gofynnwyd i uwch reolwyr nodi arbedion ac effeithlonrwydd yn eu gwasanaethau er mwyn i ni allu llunio rhestr gynhwysfawr o arbedion posibl ar draws popeth a wnawn. Mae hyn yn mynd i gynnwys penderfyniadau anodd o ran lefel y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig ar hyn o bryd. Mae'r awdurdodau lleol eraill yn yr un sefyllfa hefyd o ran hyn. Rydym wedi estyn gwahoddiad i staff i gyfrannu syniadau o ran arbedion neu fesurau effeithlonrwydd a allai gyfrannu at sicrhau bod y Cyngor yn gallu gosod cyllideb gytbwys dros y blynyddoedd sydd i ddod. Caiff yr awgrymiadau eu hystyried gan y Gwasanaeth Cyllid ac Archwilio, y Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Cabinet yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd. Yn ystod y cyfnod bu i ni weithredu cyfres o fesurau i gyflwyno rheolyddion cyllidebol corfforaethol gan gynnwys gweithdrefnau rheoli swyddi gwag, a gofyniad bod Pennaeth Gwasanaeth yn awdurdodi'r defnydd o staff asiantaeth, goramser a thaliadau cerdyn credyd.

## Rheoli Perfformiad

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Mae rheoli perfformiad yn cyfeirio at y strwythurau a'r prosesau sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y dywedom y byddem yn ei wneud, wrth fynd ati i annog her a chyfranogiad gweithredol gan bob rhan o'r Cyngor, ein haelodau etholedig a phreswylwyr.

## Adolygiadau Archwilio Mewnol

Daeth y Prif Archwilydd Mewnol i'r [Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio](#) ym mis Gorffennaf, i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ar gynnydd y Tîm Archwilio Mewnol a darparu crynodeb o'r adroddiadau Archwilio Mewnol. Roedd yr adroddiad yn cadarnhau bod saith archwiliad wedi'i gwblhau ers mis Ebrill, ac nid oedd unrhyw un wedi derbyn sgôr sicrwydd isel. Gweler hefyd ein hadran ar ddisgwyliadau perfformiad clir.

## Hunanasesiad o Berfformiad

Yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf, cymeradwyodd y Cyngor Sir ei adroddiad Hunanasesiad ar gyfer 2022 i 2023. Bydd y Camau Gwella a Nodwyd yn cael eu cymryd trwy Gynlluniau Gwasanaeth a, lle bo'n briodol, Byrddau'r Cynllun Corfforaethol neu arweinwyr strategol. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro trwy ein hadroddiadau chwarterol. Hefyd yn ystod y cyfnod, mae'r Tîm Cynllunio a Pherfformiad Strategol wedi cyhoeddi Adroddiad Diweddaru Perfformiad chwarter cyntaf y Cyngor ar gyfer 2023 i 2024, a fydd ar gael i'w weld gyda'n hadroddiadau blaenorol ar http://www.sirddinbych.gov.uk/perfformiad. Gan gyfuno gyda'r adroddiad hwn, dyma'r ddau adroddiad cyntaf o bedwar a fydd yn ffurfio ein Hunanasesiad parhaus ar gyfer y flwyddyn.

## Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Fframwaith Rheoli Perfformiad

Erbyn hyn, ein trydydd adroddiad ar y fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer y Cynllun Corfforaethol newydd, mae llif y data a gwybodaeth yn fwyfwy llyfn wrth i'r fframwaith gael ei ymgorffori. Mae'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad yn parhau i weithio'n agos gyda Gwasanaethau i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau neu unrhyw agweddau sydd angen eu datblygu.

## Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Canllaw Rheoli Perfformiad

Ar ôl cytuno ar drefniadau llywodraethu a Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cynllun Corfforaethol newydd, yn ogystal â gwneud newidiadau i strwythur yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, mae'n bryd adolygu Canllaw'r Cyngor ar gyfer Gwella Gwasanaethau – y canllaw sy'n egluro dull y Cyngor o ran rheoli perfformiad. Mae gwaith wedi bod yn cael ei wneud ar hyn drwy gydol yr haf, a dylai fod wedi'i orffen erbyn yr hydref.

### Arolwg Budd-ddeiliaid Blynyddol

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi lansio ein Harolwg Budd-ddeiliaid ar gyfer 2023 i 2024, gan wahodd adborth ar sut mae'r Cyngor yn perfformio. Bydd yr Arolwg yn fyw hyd 29 Chwefror 2024, a gellir ei gwblhau ar-lein neu drwy gopi papur sydd ar gael ar gais yn ein llyfrgelloedd. Bydd hefyd yn cael ei hyrwyddo drwy ein rhwydweithiau partner, cyfryngau cymdeithasol a'r wasg. Bydd canlyniadau'r arolwg yn cyfrannu at ein hadroddiad Hunanasesu ar ddiwedd y flwyddyn, ac yn cael eu rhannu gyda'n rheolwyr i hysbysu gwelliannau i wasanaethau.

### Heriau Perfformiad Gwasanaeth

Mae Rhaglen Heriau Perfformiad Gwasanaeth yn parhau, gyda'r Gwasanaethau Addysg a Phlant wedi wynebu'r broses yn y cyfnod hwn. Roedd rhai heriau hefyd wedi'u haildrefnu ar gyfer y cyfnod hwn yn dilyn penodi Penaethiaid Gwasanaeth newydd. Bydd y camau allweddol sy'n codi o'r trafodaethau hyn yn cael eu trafod yn yr adran disgwyliadau perfformiad ac yn cael eu nodi yn y Camau Gwella isod, a bydd cynnydd yn cael ei nodi yn yr adroddiadau perfformiad nesaf.

## Rheoli Risg

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Mae rheoli risg yn cyfeirio at y dull rydym wedi'i gynllunio ar gyfer nodi, asesu, rheoli a monitro risgiau a chyfleoedd sy'n wynebu'r Cyngor.

### Cofrestr Risgiau Gorfforaethol

Fel y nodwyd uchod, dechreuodd ein hadolygiad o'r Gofrestr ym mis Medi 2023. Er nad yw wedi'i gymeradwyo eto, nid yw 54% o'n risgiau corfforaethol yn cyd-fynd â datganiad parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor. Mae'r adolygiad presennol wedi cynnwys rhesymoli sylweddol yn y Gofrestr gyda rhai risgiau'n cael eu cyfuno a'u tynnu, rhai'n cael eu newid i gael eu rheoli drwy gofrestr risg gwasanaeth ac fe ychwanegwyd 2 risg newydd. Mae hyn wedi ein galluogi i ganolbwyntio yn well ar y risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â gallu gosod cyllideb gytbwys, neu lle bo diffyg cyllid yn arwain at ddiddymu neu leihau'r gwasanaethau, hyd yn oed os ceir cyllideb gytbwys.

## Cynllunio'r Gweithlu

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Cynllunio'r gweithlu yw'r broses a ddefnyddir gennym i ddadansoddi, rhagweld a chynllunio cyflenwad a galw am weithwyr, ac asesu bylchau i sicrhau bod gennym y bobl a'r sgiliau - nawr ac yn y dyfodol - i ddarparu ein gwasanaethau a chyflawni ein hamcanion strategol.

### Hyfforddiant, Datblygiad ac Iechyd Meddwl Staff

Ers cymeradwyo'r Polisi Gweithio'n Hyblyg ym mis Gorffennaf, cynhaliwyd pedwar sesiwn hyfforddiant ar gyfer rheolwyr, gyda dros 60 o reolwyr yn eu mynychu. Mae Partneriaid Busnes AD wedi mynychu holl gyfarfodydd rheoli timau gwasanaeth i drafod y polisi newydd.

Mae'r cynllun gweithredu Amser i Newid bron â chael ei gwblhau. Yr unig gam gweithredu sy'n weddill yw sicrhau bod Cefnogwyr Iechyd Meddwl wedi'u dewis. Bydd gan Gefnogwyr rôl i sicrhau bod cefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl a lles yn cael ei ymgorffori ar draws y Cyngor. Rydym hefyd wedi newid ein Rhaglen Cynorthwyo Gweithwyr i ddarparwr newydd, er mwyn sicrhau y gallwn gynnig gwasanaethau cefnogi drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Gwella'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu

Mae'r wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb i gefnogi dadansoddiadau mwy manwl mewn Adroddiadau Dyletswydd Sector Cyhoeddus yn y dyfodol. Oherwydd newidiadau parhaus o ran staff, mae'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu ynglŷn â chydraddoldeb yn tueddu i amrywio. Erbyn diwedd Medi, roedd gennym wybodaeth cydraddoldeb ar gyfer 69.4% o staff. Bydd arolwg casglu data'n cael ei lansio o fis Hydref i fis Rhagfyr i sicrhau bod gennym gymaint o ddata yn y system AD â phosibl. Dylid nodi fodd bynnag bod rhai aelodau o staff yn dewis peidio â rhannu gwybodaeth am eu hunain.

### Cynllunio'r Gweithlu

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae cynllunio'r gweithlu wedi'i nodi fel maes pwysig o waith parhaus ar gyfer Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad, yn ystod yr Her Perfformiad Gwasanaeth. Mae Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos gyda'r holl wasanaethau'n rheolaidd drwy gyflwyno adroddiadau misol.

Bydd proses newydd ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn dechrau yn y flwyddyn newydd, a bydd strwythur uwch arweinyddiaeth newydd yn ei le, a phob Pennaeth Gwasanaeth wedi dechrau yn eu swyddi ers mis Tachwedd. At hynny, bydd adolygiad dilynol o'r Adolygiad Archwilio Mewnol ar gyfer cynllunio'r gweithlu a gynhaliwyd ym mis Mai, yn cael ei gynnal rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024.

Yn y cyfamser, mae cryn dipyn o ganolbwyntio ar recriwtio, yn enwedig i rolau gofal cymdeithasol ac iechyd o hyd. Ym mis Gorffennaf, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn cyflwyno gwybodaeth a chynnydd ar gynllun y gweithlu gan gynnwys gweithgareddau recriwtio a chadw, ynghyd â data trosiant ac absenoldeb salwch ar gyfer 2022 i 2023. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor mewn 12 mis yn manylu'r cynnydd a wnaethpwyd mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu, recriwtio a chadw staff. Gofynnodd y Pwyllgor bod Penaethiaid Gwasanaeth y gwasanaethau hynny lle mae recriwtio a chadw staff yn her cyson, yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod i drafod effaith bosibl o'r heriau hynny ar ddarpariaeth gwasanaeth, a sut maent yn mynd i'r afael gyda diffyg staff yn y tymor byr a thymor canolig, tan fydd datrysiadau hirdymor wedi'u canfod.

Fel y nodwyd o dan thema Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu uchod, yn dilyn cymeradwyo Strategaeth y Gymraeg 2023 i 2028 ym mis Mehefin, mae swyddogion wedi bod yn datblygu canllawiau i hysbysu recriwtio staff gyda sgiliau Cymraeg yn hanfodol a dymunol. Y nod yw datblygu sefyllfa lle bo gan bob swydd ofyniad o sgiliau Lefel 1 yn y Gymraeg, fel isafswm (mae rhai swyddi sydd angen Lefel 5).

Mae'r cynnydd o ran cyflawni cynllun gweithredu'r Grŵp Gweithredol Recriwtio a Chadw Gofal Cymdeithasol yn parhau. Mae dau le wedi'u rhoi ar raglen BA (Anrh) llawn gyda'r Brifysgol Agored, ac mae tri ymgeisydd arall yn dechrau ar lwybr Tystysgrif Uwch. At hynny, mae sawl cartref gofal yn cyflogi ffoaduriaid o Wcrain gyda llwyddiant mawr, ac mae cartrefi gofal Cyngor Sir Ddinbych yn darparu lleoliadau i ddinasyddion Sir Ddinbych yn Gweithio.

### Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Cydymffurfiaeth GDG

Mae recriwtio'n fwy diogel yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor ac mae ymdrechion parhaus i gynyddu cydymffurfiaeth yn golygu bod y cam hwn wedi'i gyflawni yn awr. Byddwn yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth yn fisol fel rhan o'n Busnes AD craidd fel gwaith arferol.

## Asedau

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.  O ran asedau, rydym yn cyfeirio at ein rheolaeth o ystâd y Cyngor (yn cynnwys adeiladau swyddfa ac isadeiledd priffyrdd sy'n eiddo i a/neu'n cael eu rheoli gan y Cyngor) ac asedau digidol.

### Strategaeth Rheoli Asedau

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Cyngor wedi cymryd camau i asesu cadernid strwythurol ei adeiladau yn sgil pryderon cenedlaethol am y defnydd o Goncrit Awyredig Awtoclafiedig Cydnerth (RAAC) mewn adeiladau cyhoeddus.  Mae trafodaeth am RAAC mewn perthynas ag adeiladau ysgolion wedi'i adrodd yn ein thema Dysgu a Thyfu.  Mae'r Tîm Rheoli Asedau wedi bod yn adolygu data o'n Harolygon RAAC blaenorol ac mae hyn wedi cymryd lle blaenllaw dros unrhyw waith arall.  Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am wybodaeth am bresenoldeb neu risg RAAC mewn adeiladau nad ydynt yn ysgolion.

Y bwriad oedd cyflwyno'r cynllun portffolio diwygiedig cyntaf i'r Grŵp Rheoli Asedau ym mis Medi ond mae wedi'i ohirio tan fis Tachwedd yn awr.  Bydd cynlluniau portffolio yn llywio datblygiad y Strategaeth Rheoli Asedau newydd.  Sefydlwyd y Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio i ystyried capasiti a'r defnydd o swyddfeydd i geisio ffyrdd o wneud y mwyaf o ofod ar draws portffolio'r Cyngor.  Bydd hyn yn cael ei adolygu gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol dros y misoedd nesaf.

### Strategaeth TGCh

Trafodwyd isadeiledd TGCh cadarn sy'n gallu arloesi ynghyd â mynd i'r afael â phwysau cynyddol ar draws y Cyngor yn ystod Her Perfformiad Gwasanaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd.  Cytunwyd y dylai'r gwasanaeth weithio gyda TGCh i wella sut mae'r gwasanaeth yn darparu ei swyddogaethau ac y dylai'r Strategaeth TGCh flaenoriaethu anghenion gwasanaeth wrth wynebu adnoddau cyfyngol.

## Caffael

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.  Caffael yw'r broses mae'r Cyngor yn ei defnyddio i ddiwallu ei anghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn modd sy'n sicrhau gwerth am arian a

chanlyniadau da i gymdeithas, diwylliant a'r economi, gan hefyd gyfrannu at ddatgarboneiddio ac adfer natur.

### Strategaeth Gaffael Sir Ddinbych

Cymeradwyodd y Cabinet y Strategaeth Gaffael newydd ar gyfer Sir Ddinbych ym mis Medi. Mae'n adlewyrchu a chefnogi blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r saith nod lles ac yn alinio â Bil Caffael Llywodraeth y DU a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) sydd i ddod. Mae disgwyliadau mewn perthynas â beth rydym yn ei brynu a sut yn cynyddu, a bydd disgwyl i ni gyflawni hyn gyda gwerth am arian, ond hefyd ag effaith gadarnhaol ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein cymunedau sy'n cael ei adnabod fel caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol.

Bydd rheoliadau caffael newydd, sy'n symleiddio dros 300 o reoliadau unigol ar hyn o bryd, yn cael eu cyflwyno, ac mae angen i ni baratoi a chodi ymwybyddiaeth, yn ogystal â hyfforddi'r swyddogion a fydd yn cael eu heffeithio. Mae pwerau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau yn cael eu cynnwys yn y Bil Caffael, ac mae hyn yn cynnwys: gofynion i ystyried busnesau bach, gan gynnwys busnesau lleol, cynhyrchu rhestr o gaffaeliadau ar gyfer y dyfodol sy'n weledol a hawdd ei gyrchu; a chyhoeddi adroddiadau contract.

Bydd angen dull gweithredu mwy syml o ran comisiynu, caffael, rheoli contractau ac adrodd, i sicrhau bod Sir Ddinbych yn cael y canlyniadau gorau posibl o'r rheoliadau caffael newydd. Bydd hyn yn golygu gweithio ar draws y Cyngor i gefnogi cadwyn gyflenwi leol Sir Ddinbych.

Mae trefniadau llywodraethu i reoli gweithrediad y strategaeth newydd yn cael eu penderfynu.

### Arbenigedd Caffael Datgarboneiddio

Dechreuodd Partner Busnes - Carbon, wedi'i ariannu gan Gynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint gan gynnwys Tîm Newid Hinsawdd Sir Ddinbych yn y swydd ar 4 Medi. Bydd deiliad y swydd yn edrych eto ar gontractau rhanbarthol wrth iddynt ddod i ben, er mwyn lleihau allyriadau carbon, lle bo modd, yn y dyfodol a nodi buddion cymunedol yng nghontractau'r Cyngor, sy'n lleihau allyriadau carbon ac yn cynyddu amsugniad carbon. Byddant hefyd yn gweithio â busnesau a chyflenwyr yn y sir i annog arferion carbon isel, gan ddechrau gyda fframwaith Dylunio ac Argraffu. Mae deilydd y swydd wedi bod yn mynychu cyfarfodydd rheoli tîm y Gwasanaeth i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd lleihau carbon

yn ein gwariant.  Maent yn gweithio ar fethodoleg gadarn i'n galluogi i adrodd ar (ac effeithio ar) yr allyriadau carbon gwirioneddol drwy gaffael, yn hytrach na defnyddio model Llywodraeth Cymru sy'n alinio allyriadau carbon gyda gwariant.  Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio drwy gaffael, a chynnydd o ran gweithredu ein Strategaeth Gaffael newydd.

### Diogelu Bioamrywiaeth a Datgarboneiddio o ran Caffael

Fel y nodwyd yn flaenorol, rhoddir ystyriaeth i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth yn holl brosesau caffael y Cyngor ac er mwyn gwella hyn rydym yn gweithio gyda'n tîm Newid Hinsawdd i lunio cwestiynau penodol i'w cynnwys mewn hysbysiadau caffael. Mae diogelu a gwella bioamrywiaeth hefyd yn rhan o'n dull o ran 'gofynion' buddion cymunedol contractwyr, sy'n gallu amrywio o gynlluniau plannu gwell, diogelu neu wella bioamrywiaeth, gweithio â phlant ysgol i godi ymwybyddiaeth am ecoleg a bioamrywiaeth. I'r perwyl hwn mae hyn yn cael ei ystyried fel busnes arferol a bydd y timau Caffael a Newid Hinsawdd yn parhau i weithio gyda'i gilydd i nodi'r 'gofynion' yr ydym yn eu ceisio drwy gaffael.

### Rheolau'r Weithdrefn Gontractau

Mae Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yn parhau i gael eu diweddaru i adlewyrchu deddfwriaeth Caffael Cyhoeddus newydd y DU sydd i ddod i rym yn 2023-2024.  Byddwn yn parhau i adrodd ar gynnydd drwy'r adroddiad hwn yn y cyfamser. Rydym yn trefnu gweithdy ledled y Cyngor ym mis Hydref, a fydd yn cynnwys cyflwyniad gan swyddog o Lywodraeth Cymru ar newid tirlun caffael, a chyflwyniad byr gan yr un swyddog i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ym mis Tachwedd.

### Cefnogi Busnesau a Phartneriaid i Addasu

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, oherwydd deddfwriaeth newydd a deddfwriaeth sy'n datblygu gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, bydd cryn newid i arferion presennol; ar gyfer y Cyngor a'i wasanaethau caffael, busnesau a'r gadwyn gyflenwi.  Y nod yw y bydd busnesau lleol llai yn ymgysylltu mwy ac yn elwa o gaffael.  I'r perwyl hyn, bydd caffael yn rhan o ymgyrch Mis Mawrth Menter 2024, ac mae'r gwaith cynllunio ar y gweill eisoes.  Mae cynllun cyfathrebu yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei rannu gydag Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor ym mis Hydref.

Mae Balfour Beatty, fel rhan o'r cynlluniau amddiffyn yr arfordir, wedi ymrwymo i gyflwyno gweithdai i sefydliadau cymunedol ar sut i ddatblygu strategaeth yn gynnar yn 2024. Byddant yn derbyn cefnogaeth Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i gyflwyno gweithdy yng ngogledd y sir ac yn bwriadu gweithio gyda Phartneriaeth De Sir Ddinbych i gynnig gweithdy ychwanegol yn y de.

### Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru Cam 3

Ym mis Mai, cymeradwyodd y Cabinet brosiect i gaffael Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru Cam 3 (bydd cam 2 yn dod i ben ym mis Mai 2024). Mae'r prosiect ar waith yn awr. Daw'r cyfnod tendro i ben ar 2 Hydref a byddwn yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Rhagfyr i benodi contractwyr llwyddiannus. Mae'r fframwaith ar gyfer holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru. Mae'r Fframwaith wedi bod yn sbardun ar gyfer ymgysylltu gydag a gwella sgiliau contractwyr lleol sy'n gweithredu o fewn y gadwyn gyflenwi ranbarthol, a bydd hyn yn annog contractwyr lleol i fod yn rhan o gam 3.

## Camau Gwella

Nodwyd 2 gam gwella drwy drafod yr adroddiad hwn gyda'r Cabinet:

- Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf o ran y rhesymau dros y perfformiad gwael mewn perthynas â chanran y ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi a wnaed yn ddiogel o fewn y cyfnod targed (CAT1 – Diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn yr amserlen).
- Datblygu trosolwg o'r cynnig diwylliannol, gydag enghreifftiau ar draws gwasanaethau'r Cyngor, fel rhan o'r cynllun sydd i'w ddatblygu yn nodi sut y gallai strategaeth ddiwylliannol gysylltu a chyfrannu at ganlyniadau ehangach o ran ein heconomi a lles personol.

Cynhaliwyd Her Perfformiad Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant ac Addysg ac ni nodwyd unrhyw gamau gwella newydd.